OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 63

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2026

Gwnaed *3 Mawrth 2026*

Yn dod i rym *28 Mawrth 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 63

The National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026

Made *3 March 2026*

Coming into force *28 March 2026*

£28.20

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea, ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company, and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839834-2

9 780348 398342

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 63

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1020 (Cy. 117)) ("Rheoliadau 2004").

Mae'r Rheoliadau'n darparu i restrau o bersonau sy'n cyflawni gwasanaethau meddygol sylfaenol a gwasanaethau deintyddol sylfaenol gael eu cadw gan Fyrddau Iechyd Lleol yn unol ag adrannau 49, 63, 115(9) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42).

Mae Rhan 1 (rheoliadau 1 a 2) yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ac yn darparu rhai diffiniadau ar gyfer y Rheoliadau.

Mae Rhan 2 (rheoliadau 3 i 25) yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud â rhestrau cyflawnwyr.

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol lunio, cynnal a chyhoeddi rhestr cyflawnwyr meddygol a rhestr cyflawnwyr deintyddol a'u rhoi ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt. Maent yn nodi sut y gall ymarferydd wneud cais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr a sut y mae Byrddau Iechyd Lleol i ystyried ceisiadau a gwneud penderfyniadau arnynt.

Mae'r Rheoliadau'n nodi gofynion y mae rhaid i ymarferydd a restrir mewn rhestr cyflawnwyr gydymffurfio â hwy, ac i ymarferydd gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr yn ddarostyngedig i amodau o dan amgylchiadau rhagnodedig penodol. Maent yn nodi pryd y caiff Bwrdd Iechyd Lleol, neu y mae rhaid iddo, atal dros dro neu ddileu ymarferydd o'i restr cyflawnwyr. Maent yn nodi trefniadau ar gyfer adolygu penderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol o dan y Rheoliadau, ac ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer tynnu'n ôl o restr cyflawnwyr, ar gyfer datgelu gwybodaeth gan Fwrdd Iechyd Lleol i bersonau penodedig, ac i Fwrdd Iechyd Lleol hysbysu personau penodedig am benderfyniadau a digwyddiadau penodol.

Yn ogystal, ceir darpariaeth ar gyfer cynnwys ymarferwyr sydd wedi eu cofrestru mewn argyfwng mewn rhestrau cyflawnwyr.

Mae Rhan 3 (rheoliadau 26 i 32) yn cynnwys darpariaethau pellach ynghylch cyflawnwyr meddygol.

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol, yn ddarostyngedig i eithriadau penodedig, fod rhaid i ymarferydd meddygol fod yn ymarferydd meddygol cyffredinol a bod rhaid iddo fod wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol er mwyn cyflawni gwasanaethau meddygol sylfaenol.

Ceir darpariaeth i wybodaeth atodol gael ei darparu mewn cais i gynnwys ymarferydd meddygol mewn rhestr cyflawnwyr meddygol. Ceir seiliau ychwanegol ar gyfer gwrthod cais ac ar gyfer dileu ymarferydd meddygol o restr cyflawnwyr meddygol. Mae Rhan 4 (rheoliadau 33 i 40) yn cynnwys darpariaethau pellach ynghylch rhestrau cyflawnwyr deintyddol.

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol, yn ddarostyngedig i eithriad penodedig, fod rhaid i ymarferwyr deintyddol fod wedi eu cynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol er mwyn darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol.

Ceir darpariaeth i wybodaeth atodol gael ei darparu mewn cais i gynnwys ymarferydd deintyddol mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol.

Ceir seiliau ychwanegol ar gyfer gwrthod cais ac ar gyfer dileu ymarferydd deintyddol o restr cyflawnwyr deintyddol.

Mae Rhan 5 (rheoliadau 41 i 43) yn dirymu Rheoliadau 2004 ac yn gwneud darpariaethau trosiannol, darpariaethau arbed a darpariaethau canlyniadol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar y wefan yn https://www.llyw.cymru.

2026 Rhif 63

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2026

Gwnaed	*3 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*28 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 49, 63, 115(9), a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2026 a deuant i rym ar 28 Mawrth 2026.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "anghymhwysiad cenedlaethol" ("*a national disqualification*") yw—

(a) penderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 115(1) o Ddeddf 2006(**2**) (anghymhwysiad cenedlaethol);

(b) penderfyniad a wneir o dan ddarpariaethau sydd mewn grym yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon sy'n cyfateb i adran 115 o Ddeddf 2006;

ystyr "Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG" ("*the NHS Business Services Authority*") yw Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) a sefydlwyd fel Awdurdod Iechyd Arbennig gan Orchymyn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2005(**3**);

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) Diwygiwyd adran 115 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), paragraff 31(2) o Atodlen 2, Deddf Iechyd a Gofal 2022 (p. 31), paragraff 1 o Atodlen 1 ac O.S. 2010/22.
(**3**) O.S. 2005/2414, a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/632, O.S. 2007/1201, O.S. 2013/235, O.S. 2015/1862, O.S. 2017/959, O.S. 2018/378, O.S. 2019/776 ac O.S. 2023/1071.

ystyr “Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG” (“*the NHS Counter Fraud Authority*”) yw Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG a sefydlwyd fel Awdurdod Iechyd Arbennig gan Orchymyn Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG (Sefydlu, Cyfansoddiad, Darpariaethau Trosglwyddo Staff a Darpariaethau Trosglwyddo Eraill) 2017(**4**);

mae i “Awdurdod Iechyd Arbennig” yr ystyr a roddir i “Special Health Authority” o dan adrannau 22 a 206 o Ddeddf 2006(**5**);

ystyr “cofrestr deintyddion” (“*dentists register*”) yw'r gofrestr y cyfeirir ati yn adran 14(1) o Ddeddf Deintyddion 1984(**6**);

mae i “cofrestr o ymarferwyr meddygol” yr ystyr a roddir i “register of medical practitioners” gan adran 2(2) o Ddeddf 1983(**7**) (cofrestru ymarferwyr meddygol);

ystyr “Cofrestr Ymarferwyr Cyffredinol” (“*GP Register*”) yw'r gofrestr a gedwir yn rhinwedd adran 34C o Ddeddf 1983 (y Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol)(**8**);

ystyr “Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol” (“*GP Registrar*”) yw ymarferydd meddygol sy'n cael ei hyfforddi mewn ymarfer cyffredinol gan Hyfforddwr Ymarfer Cyffredinol, pa un ai fel rhan o hyfforddiant sy'n arwain at TCH neu fel arall;ystyr “corff cyfatebol” (“*equivalent body*”) yw—

(a) o ran Cymru, cyn 1 Ebrill 2003, Awdurdod Iechyd;

(b) o ran Lloegr—

(i) GIG Lloegr,

(ii) cyn 1 Ebrill 2013 ac ar ôl 30 Medi 2002, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, neu

(iii) cyn 1 Hydref 2002, Awdurdod Iechyd yn Lloegr;

(c) o ran Gogledd Iwerddon—

(i) Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, neu

(ii) cyn 1 Ebrill 2009, Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;

(d) o ran yr Alban, Bwrdd Iechyd;

ystyr “corff perthnasol” (“*relevant body*”), mewn perthynas ag ymarferydd, yw'r corff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**9**) (cyrff rheoleiddio), sy'n rheoleiddio proffesiwn yr ymarferydd;

ystyr “corff rheoleiddio” (“*regulatory body*”) yw corff mewn unrhyw le yn y byd sy'n rheoleiddio neu'n trwyddedu unrhyw broffesiwn y mae'r ymarferydd yn aelod ohono

(**4**) O.S. 2017/958, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 (p. 31), adran 86(2)(a) a (b), O.S. 2018/378, O.S. 2024/418, ac O.S. 2024/1205.

(**5**) Diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 297 a pharagraff 18 o Atodlen 21. Diwygiwyd adran 206 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 297 a pharagraff 38(1)(b) o Atodlen 21; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**6**) 1984 p. 24. Amnewidiwyd adran 14(1) gan O.S. 2005/2011, erthyglau 2(1) a 6, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2007/3101, rheoliadau 109 a 111, a chan O.S. 2019/593, rheoliad 4(1), a pharagraffau 2 a 4(a) ac (c) o Atodlen 3 iddo.

(**7**) Diwygiwyd adran 2(2) gan O.S. 2002/3135, O.S. 2006/1914, O.S. 2008/1774 ac O.S. 2019/593.

(**8**) Mewnosodwyd adran 34C gan O.S. 2010/234.

(**9**) 2002 p. 17. Diwygiwyd adran 25(3) gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14), adran 127 a pharagraff 17 o Atodlen 10, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 230 a pharagraff 56(b) o Atodlen 15(2), Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 (p. 16), adran 56 a pharagraff 2(2) o Atodlen 4, ac O.S. 2010/231.

neu wedi bod yn aelod ohono ac mae'n cynnwys corff sy'n rheoleiddio neu'n trwyddedu addysg, hyfforddiant neu gymwysterau'r proffesiwn hwnnw;

ystyr "cyfarwyddwr" ("*director*") yw—

(a) cyfarwyddwr corff corfforedig, neu

(b) aelod o'r corff o bersonau sy'n rheoli corff corfforedig (pa un a yw'n bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ai peidio);

mae "cyfarwyddwr corff corfforedig" ("*director of a body corporate*") yn cynnwys aelod o'r corff o bersonau sy'n rheoli corff corfforedig (pa un a yw'n bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ai peidio);

ystyr "cyflogaeth" ("*employment*") yw unrhyw gyflogaeth, pa un ai â thâl neu'n ddi-dâl, ac, ac eithrio mewn perthynas â'r diffiniad o ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog, mae'n cynnwys—

(a) darparu gwasanaethau o dan gontract ar gyfer gwasanaethau, neu

(b) aelodaeth o bartneriaeth;

ystyr "cyfnod o argyfwng" ("*period of emergency*") yw'r cyfnod—

(a) sy'n dechrau pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysu Cofrestrydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ("y Cofrestrydd") bod argyfwng o'r math a ddisgrifir yn adran 1 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004(**10**) (ystyr "argyfwng") wedi digwydd, yn digwydd neu ar fin digwydd, a

(b) sy'n dod i ben pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysu'r Cofrestrydd nad yw'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysu'r Cofrestrydd fel y crybwyllir ym mharagraff (a) yn bodoli mwyach;

ystyr "Deddf 1983" ("*the 1983 Act*") yw Deddf Meddygaeth 1983(**11**);

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "deiliad rhestr" ("*holder of a list*") yw'r corff sy'n cadw rhestr;

ystyr "digwyddiad cychwynnol" ("*originating event*") yw'r digwyddiad neu'r digwyddiadau sy'n arwain at—

(a) euogfarn, ymchwiliad neu achos, neu

(b) ataliad dros dro neu anghymhwysiad, neu

(c) dileu ymarferydd o restr, gwrthod ei gynnwys mewn rhestr neu ei gynnwys yn amodol mewn rhestr;

ystyr "Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd" ("*Disclosure and Barring Service*") yw'r corff a sefydlwyd gan adran 87(1) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012(**12**);

ystyr "gwasanaethau deintyddol sylfaenol" ("*primary dental services*") yw gwasanaethau deintyddol a ddarperir o dan gontract neu gytundeb y mae Rhan 5 o Ddeddf 2006(**13**) (gwasanaethau deintyddol) yn gymwys iddo;

(**10**) 2004 p. 36, y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**11**) 1983 p. 54.
(**12**) 2012 p. 9.
(**13**) Diwygiwyd Rhan 5 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 297 a pharagraffau 12, 28 a 29(1), (2) a (3) o Atodlen 21, Deddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), adran 17(5) a paragraff 52(1)(b) a (2) o Atodlen 9, Deddf Iechyd a Gofal 2022 (p. 31), adran 22, paragraff 56(1), (2) a (3) o Atodlen 3 a pharagraffau 12 a 29(1) a (2) o Atodlen 21. Addaswyd adran 64 o Ran 5 o Ddeddf 2006, mewn perthynas â

ystyr “gwasanaethau meddygol sylfaenol” (“*primary medical services*”) yw gwasanaethau meddygol a ddarperir o dan gontract neu gytundeb y mae Rhan 4 o Ddeddf 2006(**14**) (gwasanaethau meddygol) yn gymwys iddo;

ystyr “gwasanaethau sylfaenol” (“*primary services*”) yw gwasanaethau meddygol sylfaenol mewn cysylltiad ag ymarferydd meddygol, a gwasanaethau deintyddol sylfaenol mewn cysylltiad ag ymarferydd deintyddol;

ystyr “Hyfforddwr Ymarfer Cyffredinol” (“*GP Trainer*”) yw ymarferydd meddygol cyffredinol, heblaw Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol, sydd wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol o dan adran 34I(1)(c) o Ddeddf 1983 (addysg a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig: cymeradwyaethau)(**15**) at ddibenion darparu hyfforddiant i Gofrestrydd Ymarfer Cyffredinol;

ystyr “hysbysiad” (“*notice*”) yw hysbysiad ysgrifenedig (gan gynnwys yn electronig);

ystyr “lluoedd arfog” (“*armed forces*”) yw’r lluoedd rheolaidd o fewn ystyr “regular forces” yn Neddf y Lluoedd Arfog 2006(**16**) neu’r lluoedd wrth gefn o fewn ystyr “reserve forces” yn y Ddeddf honno;

ystyr “NHS Resolution” (“*NHS Resolution*”) yw Awdurdod Ymgyfreitha’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd fel Awdurdod Iechyd Arbennig gan Orchymyn Awdurdod Ymgyfreitha’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Sefydlu a Chyfansoddiad) 1995(**17**);

ystyr “Rheoliadau 2004” (“*the 2004 Regulations*”) yw Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1020)(**18**);

ystyr “rhestr” (“*list*”) yw rhestr gwasanaeth iechyd neu restr gyfatebol;

ystyr “rhestr atodol” (“*supplementary list*”) yw rhestr a lunnir gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 3 o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 2002(**19**);

ystyr “rhestr cyflawnwyr” (“*performers list*”) yw rhestr a lunnir, a gynhelir ac a gyhoeddir o dan reoliad 3(1);

ystyr “rhestr cyflawnwyr berthnasol” (“*relevant performers list*”) yw—

(a) yn achos ymarferydd meddygol, rhestr cyflawnwyr meddygol, a

(b) yn achos ymarferydd deintyddol, rhestr cyflawnwyr deintyddol;

---

swyddogaethau blaenorol Awdurdodau Iechyd yn peidio â bod yn arferadwy gan Fyrddau Iechyd Lleol, gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p. 43), adran 4 a pharagraff 15(b) o Atodlen 2.

(**14**) Diwygiwyd Rhan 4 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 297 a pharagraffau 12, 26 a 27(1), (2) a (3) o Atodlen 21 ac O.S. 2019/777, rheoliad 4(1) a (2) a Deddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), adran 17(5) a pharagraff 52(1)(b) a (2) o Atodlen 9 a Deddf Iechyd a Gofal 2022 (p. 31), adran 22, paragraff 55(1), (2) a (3) o Atodlen 3. Addaswyd adran 50 o Ran 4 o Ddeddf 2006, mewn perthynas â swyddogaethau blaenorol Awdurdodau Iechyd yn peidio â bod yn arferadwy gan Fyrddau Iechyd Lleol, gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p. 43), adran 4 a pharagraff 15(a) o Atodlen 2.

(**15**) Mewnosodwyd adran 34I gan O.S. 2010/234.

(**16**) 2006 p. 52.

(**17**) O.S. 1995/2800, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/1445, O.S. 2013/295, O.S. 2014/3090, O.S. 2017/150, O.S. 2022/634, O.S. 2023/98, O.S. 2023/1071 ac O.S. 2023/368.

(**18**) O.S. 2004/1020 (Cy. 117), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2005/258 (Cy. 24), O.S. 2006/358 (Cy. 46), O.S. 2006/945 (Cy . 94), O.S. 2008/1425 (Cy. 147), O.S. 2010/22, O.S. 2013/235, O.S. 2016/101 (Cy. 49), O.S. 2023/953 (Cy. 155) ac O.S. 2023/1421 (Cy. 115).

(**19**) O.S. 2002/1882 (Cy. 191). Dirymwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2004/1020 (Cy. 117), Atodlen 2. Cedwir cyfeiriad at y Rheoliadau a ddirymwyd i gofnodi gwybodaeth am restrau hanesyddol.

ystyr “rhestr cyflawnwyr deintyddol” (“*dental performers list*”) yw’r rhestr a lunnir, a gynhelir ac a gyhoeddir o dan reoliad 3(1)(b);

ystyr “rhestr cyflawnwyr deintyddol flaenorol” (“*previous dental performers list*”) yw rhestr a lunnir ac a gyhoeddir o dan reoliad 3(1)(b) o Reoliadau 2004(**20**);

ystyr “rhestr cyflawnwyr flaenorol” (“*previous performers list*”) yw rhestr a lunnir ac a gyhoeddir o dan reoliad 3 o Reoliadau 2004;

ystyr “rhestr cyflawnwyr gyfatebol” (“*equivalent performers list*”) yw unrhyw restr a gedwir gan sefydliad gofal sylfaenol sy’n cyflawni swyddogaeth gyfatebol i’r rhestr cyflawnwyr berthnasol;

ystyr “rhestr cyflawnwyr meddygol” (“*medical performers list*”) yw rhestr o gyflawnwyr meddygol a lunnir, a gynhelir ac a gyhoeddir o dan reoliad 3(1)(a);

ystyr “rhestr cyflawnwyr meddygol flaenorol” (“previous medical performers list”) yw rhestr a lunnir ac a gyhoeddir o dan reoliad 3(1)(a) o Reoliadau 2004;

ystyr “rhestr ddeintyddol” (“*dental list*”) yw rhestr a lunnir gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 4(1) o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992(**21**);

ystyr “rhestr feddygol” (“*medical list*”) yw’r rhestr a lunnir gan y Bwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 4 o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992(**22**);

ystyr “rhestr gwasanaeth iechyd” (“*health service list*”) yw—

(a) rhestr y cyfeirir ati yn adran 115(1) o Ddeddf 2006(**23**) (anghymhwysiad cenedlaethol),

(b) rhestr ddeintyddol neu restr feddygol,

(c) rhestr atodol,

(d) rhestr gwasanaethau, neu

(e) rhestr cyflawnwyr;

ystyr “rhestr gwasanaethau” (“*services list*”) yw rhestr a lunnir gan Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol o dan reoliad 3 o Reoliadau Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Personol) (Rhestr Gwasanaethau) a (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) a (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 2003(**24**);

ystyr “rhestr gyfatebol” (“*equivalent list*”) yw unrhyw restr a gedwir gan gorff cyfatebol sy’n cyflawni swyddogaeth gyfatebol i restr gwasanaeth iechyd;

ystyr “rhif cofrestru proffesiynol” (“*professional registration number*”)—

(**20**) O.S. 2004/1020 (Cy. 117). Diwygiwyd rheoliad 3(1) gan O.S. 2006/945 (Cy. 94).

(**21**) O.S. 1992/661. Mae’r Rheoliadau hyn wedi eu dirymu o ran Cymru gan O.S. 2006/946 (Cy. 95), erthygl 45, Atodlen 2. Cedwir cyfeiriad at y Rheoliadau a ddirymwyd i gofnodi gwybodaeth am restrau hanesyddol. Yn rhinwedd rheoliad 2(1A) o O.S. 1992/661, mae’r cyfeiriad at “FHSA” yn rheoliad 4(1) o O.S. 1992/661 yn cael effaith, o ran Cymru, fel cyfeiriad at Fwrdd Iechyd Lleol.

(**22**) O.S. 1992/635. Mae’r Rheoliadau hyn wedi eu dirymu o ran Cymru gan O.S. 2004/1016 (Cy. 113), erthygl 96, Atodlen 2. Cedwir cyfeiriad at y Rheoliadau a ddirymwyd i gofnodi gwybodaeth am restrau hanesyddol.

(**23**) Diwygiwyd adran 115(1) gan O.S. 2010/22, Atodlen 2, paragraff 139(a).

(**24**) O.S. 2003/2644. Dirymwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2004/585, Atodlen 2. Cedwir cyfeiriad at y Rheoliadau a ddirymwyd i gofnodi gwybodaeth am restrau hanesyddol.

(a) mewn perthynas ag ymarferydd meddygol, yw'r rhif gyferbyn ag enw'r ymarferydd meddygol yn y gofrestr o ymarferwyr meddygol, a

(b) mewn perthynas ag ymarferydd deintyddol, yw'r rhif gyferbyn ag enw'r ymarferydd deintyddol yn y gofrestr deintyddion;

ystyr "sefydliad gofal sylfaenol" ("*primary care organisation*") yw—

(a) o ran Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol,

(b) o ran Lloegr, GIG Lloegr,

(c) o ran yr Alban, Bwrdd Iechyd,

(d) o ran Gogledd Iwerddon, Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, neu

unrhyw gyrff olynol i'r sefydliadau gofal sylfaenol hynny sy'n bodoli;

ystyr "TCH" ("*CCT*") yw Tystysgrif Cwblhau Hyfforddiant a ddyfernir o dan adran 34L(1) o Ddeddf 1983(**25**) (dyfarnu Tystysgrif Cwblhau Hyfforddiant a'i thynnu'n ôl);

ystyr "trefniant indemniad" ("*indemnity arrangement*") yw trefniant a gaiff gynnwys—

(a) polisi yswiriant,

(b) trefniant a wneir at ddibenion indemnio person, neu

(c) cyfuniad o bolisi yswiriant a threfniant a wneir at ddibenion indemnio person;

ystyr "y Tribiwnlys Haen Gyntaf" ("*the First-tier Tribunal*") yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a sefydlwyd o dan adran 3(1) o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007(**26**);

ystyr "ymarferydd" ("*practitioner*") yw ymarferydd meddygol neu ymarferydd deintyddol;

ystyr "ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog" ("*Type 1 armed forces GP*") yw ymarferydd meddygol—

(a) sy'n aelod o'r lluoedd arfog neu sydd wedi ei gyflogi gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, a

(b) y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol;

ystyr "ymarferydd cyffredinol Math 2 i'r lluoedd arfog" ("*Type 2 armed forces GP*") yw ymarferydd meddygol—

(a) nad yw'n ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog,

(b) y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol, ac

(c) sydd wedi ei gymryd ymlaen o dan gontract ar gyfer gwasanaethau yn benodol ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol i aelodau o'r lluoedd arfog;

ystyr "ymarferydd deintyddol" ("*dental practitioner*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr deintyddion;

mae i "ymarferydd meddygol" yr ystyr a roddir i "medical practitioner" gan adran 206(1) o Ddeddf 2006;

(**25**) Mewnosodwyd adran 34L gan O.S. 2010/234 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2019/593.
(**26**) 2007 p. 15.

ystyr "ymarferydd meddygol cyffredinol" ("*general medical practitioner*") yw ymarferydd meddygol—

(a) sy'n Gofrestrydd Ymarfer Cyffredinol, neu

(b) y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol;

ystyr "ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng" ("*emergency registered practitioner*") yw ymarferydd meddygol—

(a) sydd wedi ei gofrestru fel ymarferydd meddygol cofrestredig o dan adran 18A o Ddeddf 1983(**27**) (cofrestru dros dro o ran argyfyngau sy'n ymwneud â cholli bywyd dynol neu salwch dynol etc.),

(b) a oedd, o fewn y cyfnod o 5 mlynedd cyn cael ei gofrestru felly, wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol, rhestr cyflawnwyr meddygol flaenorol, neu restr gyfatebol, ac

(c) a gafodd ei ddileu wedyn o'r rhestr y cyfeirir ati ym mharagraff (b)—

(i) yn unol â rheoliad 16(5) neu reoliad 10(6) o Reoliadau 2004 (dileu o restr cyflawnwyr), neu ddarpariaeth gyfatebol mewn perthynas â rhestr gyfatebol, neu

(ii) ar ryw sail arall nad yw'n gysylltiedig ag amhariad ar addasrwydd i ymarfer (at y dibenion hyn, dehonglir amhariad yn unol ag adran 35C(2) o Ddeddf 1983(**28**) (swyddogaethau'r Pwyllgor Ymchwilio));

ystyr "ymarferydd sy'n dychwelyd" ("*returning practitioner*") yw ymarferydd a gafodd ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr neu restr cyflawnwyr flaenorol ar unrhyw adeg cyn gwneud cais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr;

mae "ymddygiad proffesiynol" ("*professional conduct*") yn cynnwys materion sy'n ymwneud ag ymddygiad proffesiynol a pherfformiad proffesiynol.

RHAN 2

Darpariaethau Cyffredinol ynghylch Rhestrau Cyflawnwyr

Rhestrau cyflawnwyr

3.—(1) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol lunio, cynnal a chyhoeddi, yn unol â'r Rhan hon, fel y'i haddesir neu yr ychwanegir ati gan y Rhan berthnasol—

(a) rhestr cyflawnwyr meddygol, a

(b) rhestr cyflawnwyr deintyddol.

(2) Rhaid i restrau cyflawnwyr gael eu rhoi ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y Rhan berthnasol" mewn perthynas â rhestrau cyflawnwyr meddygol yw Rhan 3, a'i ystyr mewn perthynas â rhestrau cyflawnwyr deintyddol yw Rhan 4.

Cais i gynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr

4.—(1) Rhaid i gais gan ymarferydd i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr gael ei wneud drwy anfon cais ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol, a rhaid i'r cais hwnnw gynnwys yr wybodaeth a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn ac—

(**27**) Mewnosodwyd adran 18A gan O.S. 2008/1774, erthygl 2(1), Atodlen 1, paragraff 10.
(**28**) Diwygiwyd adran 35C(2) gan O.S. 2014/1101, Rhan 3, erthygl 6(2).

(a) mewn perthynas â chais i gynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr meddygol, fodloni gofynion rheoliad 29, a

(b) mewn perthynas â chais i gynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol, fodloni gofynion rheoliad 37.

(2) Rhaid i'r ymarferydd ddarparu'r wybodaeth a ganlyn, yn ddarostyngedig i baragraffau (9) a (10), sy'n nodi gofynion addasedig ar gyfer ymarferwyr penodol—

(a) enw llawn yr ymarferydd;

(b) dyddiad geni'r ymarferydd;

(c) cyfeiriad preswyl a rhif ffôn yr ymarferydd;

(d) manylion cronolegol profiad proffesiynol yr ymarferydd (gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen pob penodiad) gydag unrhyw fanylion ategol ychwanegol, ac, os yw'r ymarferydd wedi ei ddiswyddo o unrhyw swydd, y rhesymau dros y diswyddiad hwnnw;

(e) enwau a chyfeiriadau dau ganolwr sy'n fodlon darparu geirdaon clinigol sy'n ymwneud â dwy swydd ddiweddar (a all gynnwys unrhyw swydd gyfredol) y parhaodd pob un ohonynt am 3 mis o leiaf heb doriad sylweddol, neu, pan na fo hyn yn bosibl, esboniad llawn o ran pam y mae hynny'n wir ac enwau a chyfeiriadau dau ganolwr arall;

(f) pan fo gan yr ymarferydd un, copi o arfarniad diweddaraf yr ymarferydd;

(g) tystiolaeth bod gan yr ymarferydd drefniant indemniad priodol mewn grym sy'n darparu yswiriant i'r ymarferydd mewn cysylltiad ag atebolrwyddau y gellir mynd iddynt wrth gyflawni gwaith yr ymarferydd;

(h) cadarnhad a yw'r ymarferydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw restr neu a oedd wedi ei gynnwys mewn unrhyw restr ar unrhyw adeg;

(i) cadarnhad a oes gan yr ymarferydd unrhyw gais sydd yn yr arfaeth, gan gynnwys cais gohiriedig, i gael ei gynnwys mewn unrhyw restr ac, os felly, manylion y cais hwnnw;

(j) manylion unrhyw restr—

(i) y cafodd yr ymarferydd ei ddileu ohoni,

(ii) y gwrthodwyd cynnwys yr ymarferydd mewn perthynas â hi,

(iii) y cynhwyswyd yr ymarferydd ynddi yn ddarostyngedig i amodau, neu

(iv) y mae'r ymarferydd wedi ei atal dros dro ohoni ar y pryd,

ynghyd ag esboniad o'r rhesymau dros hynny;

(k) os yw'r ymarferydd yn gyfarwyddwr corff corfforedig sydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw restr neu sydd â chais yn yr arfaeth (gan gynnwys cais gohiriedig) i'w gynnwys mewn unrhyw restr o'r fath, enw a chyfeiriad swyddfa gofrestredig y corff corfforedig hwnnw a manylion y rhestr honno (gan gynnwys deiliad y rhestr);

(l) pan fo'r ymarferydd yn gyfarwyddwr i gorff corfforedig, wedi bod yn gyfarwyddwr i gorff corfforedig yn y 6 mis blaenorol, neu ar adeg y digwyddiad cychwynnol yn gyfarwyddwr i gorff corfforedig, manylion unrhyw restr (gan gynnwys deiliad y rhestr)—

(i) y mae'r corff hwnnw wedi ei ddileu ohoni,

(ii) y gwrthodwyd cynnwys y corff hwnnw mewn perthynas â hi,

(iii) y mae'r corff wedi ei gynnwys ynddi yn ddarostyngedig i amodau, neu

(iv) y mae'r corff wedi ei atal dros dro ohoni ar y pryd,

ynghyd ag esboniad o'r rhesymau dros hynny;

(m) tystysgrif cofnod troseddol fanwl o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**29**) (tystysgrifau cofnod troseddol manwl) sydd—

(i) wedi ei dyddio o fewn 6 mis yn union cyn y dyddiad y mae'r ymarferydd yn gwneud y cais o dan y rheoliad hwn, a

(ii) yn cynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant a gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf o dan adrannau 113BA (gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant) a 113BB (gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf) o'r Ddeddf honno, yn y drefn honno(**30**);

(n) os nad yw'r ymarferydd erioed wedi preswylio yn y Deyrnas Unedig—

(i) tystysgrif wedi ei dyroddi gan awdurdod yn y wlad y mae'n preswylio ynddi ar y pryd sy'n cyfateb i dystysgrif cofnod troseddol fanwl y cyfeirir ati ym mharagraff (m), neu

(ii) os nad yw'r ymarferydd yn gallu cael tystysgrif o'r fath, datganiad ysgrifenedig yn dangos bod yr ymarferydd wedi cymryd pob cam rhesymol i gael tystysgrif o'r fath.

(3) Rhaid i'r ymarferydd ddarparu'r ymgymeriadau a ganlyn—

(a) darparu unrhyw ddatganiad neu unrhyw ddogfen, os yw'n gymwys, sy'n ofynnol gan reoliad 11,

(b) hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn 7 niwrnod am unrhyw newidiadau perthnasol i'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais neu gyda'r cais, ni waeth a yw newid o'r fath yn digwydd—

(i) cyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol benderfynu ar gais yr ymarferydd, neu

(ii) ar unrhyw adeg pan fydd enw'r ymarferydd wedi ei gynnwys yn y rhestr honno, gan gynnwys yn ystod unrhyw gyfnodau o ataliad dros dro,

(c) cynnal trefniant indemniad priodol sy'n darparu yswiriant mewn cysylltiad ag atebolrwyddau y gellir mynd iddynt wrth gyflawni gwaith fel ymarferydd bob amser a darparu tystiolaeth o drefniant indemniad o'r fath i'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gais,

(d) hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol os yw'r ymarferydd wedi ei gynnwys, neu'n gwneud cais i gael ei gynnwys, mewn unrhyw restr arall,

(e) cydweithredu ag asesiad gan NHS Resolution pan ofynnir iddo wneud hynny gan y Bwrdd Iechyd Lleol,

(f) cymryd rhan mewn unrhyw system arfarnu a ddarperir ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol ac eithrio pan fo'r ddarpariaeth berthnasol yn darparu fel arall, ac

---

(**29**) 1997 p. 50. Mewnosodwyd adran 113B gan Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), Rhan 5, adran 163(2) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006 (p. 52), adran 378(1) ac Atodlen 16, paragraff 149, Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47), adran 63(1), ac Atodlen 9, paragraff 14(1) a (3), Deddf Plismona a Throseddu 2009 (p. 26), adrannau 97(2) a 112(2) ac Atodlen 8, Rhan 8, Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9), adrannau 79(2)(b), 80(1), 82(1), (2) a (3), 115(1) a (2), Atodlen 9, Rhan 6, paragraffau 35, 37, Atodlen 10, Rhan 6, Deddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), adran 15(3) ac Atodlen 8, paragraffau 55 a 60, Deddf y Lluoedd Arfog 2021 (c. 35), adran 12(5) ac Atodlen 5, paragraffau 6 a 10, O.S. 2009/203, O.S. 2010/1146, O.S. 2012/3006 ac O.S. 2015/423.

(**30**) Mewnosodwyd adrannau 113BA a 113BB gan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47), adran 63(1) ac Atodlen 9(2), paragraff 14(1) a (4). Diwygiwyd adran 113BA gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p. 40), adran 170(2), Deddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25), adran 169, Atodlen 1, paragraff 12, a Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9), adran 115(1) a (2), Atodlen 9, paragraffau 35 a 38 ac Atodlen 10, Rhan 5. Diwygiwyd adran 113BB gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9), adran 115(1) a (2), Atodlen 9, paragraffau 35 a 39 ac Atodlen 10, Rhan 5.

(g) cydsynio i ddatgelu gwybodaeth yn unol â rheoliad 11(8).

(4) Nid yw'n ofynnol i ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog ddarparu'r ymgymeriad y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(f) ond rhaid iddo roi ymgymeriad i ddarparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol gopi o unrhyw arfarniad blynyddol o'r ymarferydd sy'n ymwneud â'r ymarferydd yn darparu gwasanaethau meddygol fel ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog.

(5) Rhaid i'r ymarferydd anfon datganiad gyda'r cais ynghylch a yw'r ymarferydd—

(a) wedi ei euogfarnu o unrhyw drosedd yn y Deyrnas Unedig (ond nid oes angen i'r ymarferydd ddatgan euogfarn warchodedig), gan gynnwys un y mae'r ymarferydd wedi ei rwymo mewn cysylltiad â hi,

(b) wedi derbyn rhybuddiad gan yr heddlu yn y Deyrnas Unedig (ond nid oes angen i'r ymarferydd ddatgan rhybuddiad gwarchodedig),

(c) wedi derbyn cynnig amodol o dan adran 302 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995(**31**) (cosb benodedig: cynnig amodol gan y procuradur ffisgal) neu gynnig o ddigolledіad o dan adran 302A o'r Ddeddf honno(**32**) (cynnig o ddigolledіad gan brocuradur ffisgal) neu wedi cytuno i dalu cosb o dan adran 115A o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992(**33**) (cosb fel dewis arall yn lle erlyn),

(d) mewn achos yn yr Alban am drosedd, wedi bod yn destun gorchymyn o dan adran 246(2) neu (3) o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995(**34**) (cerydd a rhyddhau'n ddiamod) i ryddhau'r ymarferydd yn ddiamod,

(e) wedi ei euogfarnu yn rhywle arall o drosedd a fyddai'n gyfystyr â throsedd pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr (ond nid oes angen i'r ymarferydd ddatgan trosedd o'r fath pe bai'r drosedd yn gyfystyr ag euogfarn warchodedig pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr),

(f) ar y pryd yn destun unrhyw achos (sy'n cynnwys bod wedi ei arestio, ei gyhuddo neu ar fechnïaeth) a allai arwain at euogfarn,

(g) wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall, a oedd yn cynnwys canfyddiad sy'n anffafriol i'r ymarferydd,

(h) ar y pryd yn destun unrhyw ymchwiliad gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall,

(i) wedi bod yn ymwneud â chwest, neu yn ymwneud â chwest, fel person â buddiant o fewn ystyr "interested person" yn adran 47(2)(f) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009(**35**) (person a all fod wedi, drwy unrhyw weithred neu anweithred, achosi marwolaeth yr ymadawedig neu gyfrannu at farwolaeth yr ymadawedig, neu berson y gall ei gyflogai neu ei asiant fod wedi gwneud hynny),

(j) wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG neu Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG mewn perthynas â thwyll a oedd yn cynnwys canfyddiad anffafriol i'r ymarferydd,

---

(**31**) 1995 p. 46. Diwygiwyd adran 302 gan Ddeddf Achosion Troseddol etc. (Diwygio) (Yr Alban) 2007 (dsa 6), adran 50(1) a Deddf Cyfiawnder Troseddol a Thrwyddedu (Yr Alban) 2010 (dsa 13), adran 70(3).

(**32**) Diwygiwyd adran 302A gan Ddeddf Achosion Troseddol etc. (Diwygio) (Yr Alban) 2007 (dsa 6), adran 50(2) a Deddf Cyfiawnder Troseddol a Thrwyddedu (Yr Alban) 2010 (dsa 13), adran 70(4).

(**33**) 1992 p. 5. Diwygiwyd adran 115A gan Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol (Twyll) 1997 (p. 47), adran 15, Deddf Twyll Nawdd Cymdeithasol 2001 (p. 11), adran 14, Deddf Diwygio Lles 2012 (p. 5), adrannau 105, 113, 114, 115 a pharagraff 1 o Atodlen 14(1) ac O.S. 2015/202.

(**34**) Diwygiwyd adran 246 gan Ddeddf Troseddu a Chosbi (Yr Alban) 1997 (p. 48), paragraff 21(31) o Atodlen 1 a Deddf Cyfiawnder Troseddol a Thrwyddedu (Yr Alban) 2010 (dsa 13), paragraff 26 o Atodlen 2(1).

(**35**) 2009 p. 25.

(k) ar y pryd, hyd eithaf gwybodaeth yr ymarferydd, yn destun unrhyw ymchwiliad gan Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG mewn perthynas â thwyll,

(l) yn destun unrhyw ymchwiliad gan ddeiliad unrhyw restr a allai arwain at ddileu'r ymarferydd o'r rhestr,

(m) yn destun unrhyw ymchwiliad mewn cysylltiad ag unrhyw gyflogaeth gyfredol neu flaenorol,

(n) wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad mewn cysylltiad ag unrhyw gyflogaeth gyfredol neu flaenorol a oedd yn cynnwys canfyddiad anffafriol i'r ymarferydd,

(o) wedi ei ddileu neu ei atal dros dro ar y pryd o unrhyw restr, neu wedi ei wrthod rhag cael ei gynnwys neu wedi ei gynnwys yn ddarostyngedig i amodau mewn unrhyw restr, neu

(p) ar y pryd, neu erioed wedi bod, yn ddarostyngedig i anghymhwysiad cenedlaethol.

(6) Pan fo ymarferydd yn gwneud datganiad ynghylch unrhyw fater o dan baragraff (5), rhaid i'r ymarferydd roi manylion unrhyw ymchwiliad neu achos a ddygwyd neu sydd i'w ddwyn, gan gynnwys natur yr ymchwiliad neu'r achos, lle a thua phryd y cynhaliwyd yr ymchwiliad hwnnw neu'r achos hwnnw neu y mae i'w gynnal, ac unrhyw ganlyniad.

(7) Os yw ymarferydd, os bu yn y 6 mis blaenorol, neu os oedd ar adeg y digwyddiad cychwynnol, yn gyfarwyddwr i gorff corfforedig, rhaid i'r ymarferydd wneud datganiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol ynghylch a yw'r corff corfforedig—

(a) wedi ei euogfarnu o unrhyw drosedd yn y Deyrnas Unedig,

(b) wedi ei euogfarnu yn rhywle arall o drosedd a fyddai'n drosedd pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr,

(c) ar y pryd yn destun unrhyw achos (sy'n cynnwys cyhuddiad) a allai arwain at euogfarn,

(d) wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall a oedd yn cynnwys canfyddiad anffafriol i'r corff corfforedig,

(e) ar y pryd yn destun unrhyw ymchwiliad gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall,

(f) wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG neu Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG mewn perthynas â thwyll a oedd yn cynnwys canfyddiad anffafriol i'r corff corfforedig,

(g) ar y pryd, hyd eithaf gwybodaeth yr ymarferydd, yn destun unrhyw ymchwiliad gan Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG mewn perthynas â thwyll,

(h) yn destun unrhyw ymchwiliad gan ddeiliad unrhyw restr a allai arwain at ei ddileu o'r rhestr honno,

(i) wedi ei ddileu neu ei atal dros dro ar y pryd o unrhyw restr, neu wedi ei wrthod rhag cael ei gynnwys neu wedi ei gynnwys yn ddarostyngedig i amodau mewn unrhyw restr, neu

(j) ar y pryd, neu erioed wedi bod, yn ddarostyngedig i anghymhwysiad cenedlaethol.

(8) Pan fo'r ymarferydd yn gwneud datganiad ynghylch unrhyw fater o dan baragraff (7), rhaid i'r ymarferydd roi manylion unrhyw ymchwiliad neu achos a ddygwyd neu sydd i'w ddwyn, gan gynnwys natur yr ymchwiliad neu'r achos, lle a thua phryd y cynhaliwyd yr ymchwiliad neu'r achos hwnnw neu y mae i'w gynnal, ac unrhyw ganlyniad.

(9) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i—

(a) ymarferydd sy'n dychwelyd fel pe bai is-baragraffau (b), (d), (e) ac (g) o baragraff (2) wedi eu hepgor, a

(b) Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol y mae paragraff (10) yn gymwys iddo fel pe bai is-baragraffau (b), (d), (e), (f) ac (g) o baragraff (2) wedi eu hepgor.

(10) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i Gofrestrydd Ymarfer Cyffredinol sy'n gwneud cais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol o fewn y cyfnod o 6 mis sy'n dod i ben â'r dyddiad y disgwylir dyfarnu TCH iddo.

(11) At ddibenion—

(a) paragraff (3)(f), ystyr "y ddarpariaeth berthnasol"—

(i) mewn perthynas ag ymarferwyr cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog, yw paragraff (4), a

(ii) mewn perthynas ag ymarferwyr sydd wedi eu cofrestru mewn argyfwng, yw is-baragraff 2(1)(b) o Atodlen 1,

(b) paragraff (5)(a) ac (e), ystyr "euogfarn warchodedig" yw euogfarn o'r math a ddisgrifir yn erthygl 2A(2) o Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975(**36**), ac

(c) paragraff (5)(b), ystyr "rhybuddiad gwarchodedig" yw rhybuddiad o'r math a ddisgrifir yn erthygl 2A(1) o Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975.

Cais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr gan ymarferydd sydd eisoes wedi ei restru mewn rhestr cyflawnwyr neu restr cyflawnwyr gyfatebol

5.—(1) Rhaid i gais gan ymarferydd sydd eisoes wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr neu restr cyflawnwyr gyfatebol gael ei wneud drwy anfon cais ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol, a rhaid i'r cais hwnnw gynnwys yr wybodaeth, yr ymgymeriadau, y cydsyniadau a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn, ac—

(a) mewn perthynas â chais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol, fodloni gofynion rheoliad 30, ac

(b) mewn perthynas â chais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol, fodloni gofynion rheoliad 38.

(2) Rhaid i'r ymarferydd ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraff (2)(a), (b), (c), (g), (i), (j), (k) ac (l) o reoliad 4.

(3) Rhaid i'r ymarferydd ddarparu'r wybodaeth a'r ymgymeriadau sy'n ofynnol gan baragraff (3) o reoliad 4.

(4) Rhaid i'r ymarferydd ddarparu'r wybodaeth fel sy'n ofynnol gan reoliad 4(2)(d) ac (e) oni bai bod paragraff (6) yn gymwys, a chaiff yr ymarferydd roi ei gydsyniad o dan y paragraff hwnnw yn lle hynny.

(5) Rhaid i'r ymarferydd ddarparu tystysgrif cofnod troseddol fanwl fel sy'n ofynnol gan baragraff (2)(m) o reoliad 4 oni bai—

(a) bod yr ymarferydd wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac wedi darparu—

(i) yr holl awdurdod angenrheidiol a'r holl wybodaeth angenrheidiol i ganiatáu i'r Bwrdd Iechyd Lleol weld statws tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein yr ymarferydd ar unrhyw adeg, a

(ii) ymgymeriad, os yw gwiriad statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn nodi nad yw tystysgrif cofnod troseddol fanwl yr

(**36**) O.S. 1975/1023. Mewnosodwyd erthygl 2A gan O.S. 2013/1198, erthyglau 2 a 4.

ymarferydd yn gyfredol mwyach, y bydd yr ymarferydd yn darparu tystysgrif cofnod troseddol fanwl newydd i'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997, neu

(b) bod yr ymarferydd wedi darparu tystysgrif i'r sefydliad gofal sylfaenol y mae'r ymarferydd wedi ei restru ag ef sy'n ddyddiedig o fewn 3 blynedd yn union cyn y dyddiad y mae'r ymarferydd yn gwneud y cais o dan y rheoliad hwn i'r Bwrdd Iechyd Lleol, ac yn yr achos hwnnw—

(i) rhaid i'r ymarferydd ddarparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol gopi ardystiedig o'r dystysgrif wreiddiol gan y sefydliad gofal sylfaenol y mae'r ymarferydd wedi ei restru ag ef, neu

(ii) pan fo'r ymarferydd wedi ei restru â Bwrdd Iechyd Lleol arall, roi'r holl awdurdod angenrheidiol i alluogi'r Bwrdd Iechyd Lleol i wneud cais i'r Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r ymarferydd wedi ei restru ag ef i gael copi ardystiedig o'r dystysgrif.

(6) Pan fo'r ymarferydd eisoes wedi ei gynnwys yn rhestr cyflawnwyr Bwrdd Iechyd Lleol, yn hytrach na darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraff (4), caiff yr ymarferydd gydsynio i'r wybodaeth honno gael ei rhyddhau gan y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r ymarferydd wedi ei restru ag ef ar y pryd i'r Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r cais yn cael ei wneud iddo o dan y rheoliad hwn.

(7) Rhaid i'r ymarferydd anfon datganiad gyda'r cais fel sy'n ofynnol gan reoliad 4(5) a, phan fo'n gymwys, rheoliad 4(7) ac unrhyw fanylion angenrheidiol fel y nodir yn rheoliad 4(6) ac (8).

(8) Ar ôl cael cais ymarferydd sydd wedi ei wneud yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ystyried y cais a hysbysu'r ymarferydd am ei benderfyniad ynghylch—

(a) a yw'r ymarferydd wedi ei gynnwys dros dro yn ei restr cyflawnwyr (gydag amodau neu hebddynt),

(b) a yw'r penderfyniad ar y cais wedi ei ohirio hyd nes bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi cael ac wedi ystyried yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliad hwn, neu

(c) a yw'n gwrthod cynnwys yr ymarferydd yn ei restr cyflawnwyr.

(9) Caiff ymarferydd sydd wedi ei gynnwys dros dro yn rhestr cyflawnwyr Bwrdd Iechyd Lleol o dan y rheoliad hwn gyflawni gwasanaethau sylfaenol hyd nes y digwydd y cyntaf o'r digwyddiadau a ganlyn—

(a) bod y Bwrdd Iechyd Lleol, ar ôl ystyried statws tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein yr ymarferydd, neu'r copi ardystiedig o'r dystysgrif cofnod troseddol fanwl sy'n ofynnol gan baragraff (5), yr wybodaeth a'r geirdaon clinigol sy'n ofynnol gan baragraff (4), a'r wybodaeth sy'n ymwneud â chymwysterau meddygol ymarferydd meddygol cyffredinol sy'n ofynnol gan reoliad 30(2) neu gymwysterau deintyddol ymarferydd deintyddol sy'n ofynnol gan reoliad 38(2), yn hysbysu'r ymarferydd am ei benderfyniad—

(i) i gynnwys yr ymarferydd yn ei restr cyflawnwyr,

(ii) i gynnwys yr ymarferydd yn ei restr cyflawnwyr yn ddarostyngedig i amodau, neu

(iii) i ddileu'r ymarferydd o'i restr cyflawnwyr, neu

(b) diwedd cyfnod o 3 mis, gan ddechrau ar y dyddiad y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cael y cais o dan y rheoliad hwn oddi wrth yr ymarferydd.

(10) Os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gohirio ei benderfyniad o dan baragraff (8)(b), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd am y rhesymau dros y gohiriad o fewn 10 niwrnod gwaith i'r penderfyniad i ohirio.

(11) Ni chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol ond gohirio penderfyniad o dan baragraff (8)(b) hyd nes y bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ac yn ystyried statws tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein yr ymarferydd neu'r dystysgrif cofnod troseddol fanwl fel sy'n ofynnol gan baragraff (5), yr wybodaeth a'r geirdaon clinigol sy'n ofynnol gan baragraff (4), a'r wybodaeth sy'n ymwneud â chymwysterau meddygol ymarferydd meddygol cyffredinol sy'n ofynnol gan reoliad 30(2) neu gymwysterau deintyddol ymarferydd deintyddol sy'n ofynnol gan reoliad 38(2), fel y bo'n briodol.

(12) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd cyn gynted â phosibl—

(a) bod cais yr ymarferydd i gael ei gynnwys yn ei restr cyflawnwyr wedi bod yn llwyddiannus, neu

(b) bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi penderfynu gwrthod y cais neu osod amodau ar gynnwys yr ymarferydd a'r rhesymau dros hynny (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt), ac unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 19.

(13) Ni chaiff ymarferydd dynnu'n ôl gais a wneir o dan y rheoliad hwn tra bo Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu ar y cais hwnnw.

Ystyried ceisiadau

6.—(1) Wrth ystyried cais ymarferydd i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) gwirio'r holl wybodaeth a'r holl ddogfennau y mae'r ymarferydd wedi eu darparu o dan y Rheoliadau hyn;

(b) os nad yw'r ymarferydd yn ymarferydd sy'n dychwelyd, wirio gydag Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG a oes ganddo unrhyw gofnod o dwyll sy'n ymwneud â'r ymarferydd, a rhaid i'r awdurdod hwnnw gyflenwi gwybodaeth o'r fath;

(c) os nad yw'r ymarferydd yn ymarferydd sy'n dychwelyd, wirio gydag NHS Resolution a oes ganddo unrhyw wybodaeth a nodir ym mharagraff (5) yn ymwneud â'r ymarferydd, a rhaid i NHS Resolution gyflenwi gwybodaeth o'r fath;

(d) cael geirdaon gan y canolwyr a enwir gan yr ymarferydd, pan fo'n ofynnol i'r ymarferydd enwi canolwyr o dan reoliad 4(2)(e), ac ystyried y geirdaon hynny.

(2) Os na all y Bwrdd Iechyd Lleol ddod i benderfyniad ar gais ymarferydd yn seiliedig ar yr wybodaeth neu'r ddogfennaeth a ddarperir gan yr ymarferydd, caiff ofyn i'r ymarferydd am unrhyw wybodaeth bellach, unrhyw eirdaon neu unrhyw ddogfennaeth arall sy'n rhesymol ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn gwneud penderfyniad, a rhaid i'r ymarferydd ddarparu'r deunydd hwnnw.

(3) Pan fo'n ymddangos i'r Bwrdd Iechyd Lleol y gall ei gynorthwyo i ystyried unrhyw wybodaeth neu unrhyw ddogfennaeth a ddarperir o dan reoliad 4(2) neu unrhyw ddatganiad a wneir o dan baragraff (5) neu (7) o'r rheoliad hwnnw, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ofyn am ragor o wybodaeth gan unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) unrhyw gyflogwr cyfredol, neu unrhyw gyn-gyflogwr, i'r ymarferydd;

(b) unrhyw gorff corfforedig;

(c) deiliad unrhyw restr;

(d) unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall;

ar yr amod bod y person hwnnw'n ymwneud â'r mater sy'n destun yr wybodaeth, y datganiad neu'r ddogfennaeth arall a ddarperir gan yr ymarferydd.

(4) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi gofyn am ragor o wybodaeth o dan baragraff (3), rhaid i'r ymarferydd gydsynio i ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i'r cais hwnnw.

(5) Yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 1(c) yw—

(a) unrhyw wybodaeth y mae NHS Resolution yn ei chael yn dilyn hysbysiad gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 21(1) (hysbysu),

(b) unrhyw ganfyddiad a wneir gan NHS Resolution ynghylch safon ymarfer neu ymddygiad proffesiynol yr ymarferydd perthnasol, heblaw canfyddiad sy'n ymwneud â hawliad digolledu yn unig, ac

(c) unrhyw wybodaeth a ddelir gan NHS Resolution sy'n ymwneud â Hysbysiad Rhybudd Proffesiynolyn Iechyd sydd wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â'r ymarferydd perthnasol ac nad yw wedi ei ddirymu.

(6) Ym mharagraff (5)(c), ystyr "Hysbysiad Rhybudd Proffesiynolyn Iechyd" yw hysbysiad a ddyroddir yn unol â Chyfarwyddydau Awdurdod Ymgyfreitha'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2013(**37**) sy'n datgan bod unigolyn a enwir yn peri risg sylweddol o niwed i gleifion, staff neu'r cyhoedd ac yn debygol o geisio gwaith yn y GIG.

Ailddechrau

7.—(1) Pan fo ymarferydd wedi ei ddileu o restr cyflawnwyr gan Fwrdd Iechyd Lleol ar y sail bod yr ymarferydd wedi ei euogfarnu o drosedd, a bod yr euogfarn honno wedi ei gwrthdroi yn dilyn apêl, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw gytuno i gynnwys yr ymarferydd yn ei restr cyflawnwyr heb fod angen i'r ymarferydd ddarparu cais sy'n cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau, neu unrhyw ddarpariaeth benodol, yn rheoliad 4 ac, yn ôl y digwydd, yn rheoliad 29, 30, 37 neu 38, os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) wedi ei fodloni nad oes unrhyw faterion eraill y mae angen eu hystyried, a

(b) wedi cael ymgymeriad gan yr ymarferydd i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau hyn.

(2) Mewn achos y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, os caiff yr euogfarn ei hadfer yn dilyn apêl bellach, bydd penderfyniad blaenorol y Bwrdd Iechyd Lleol i ddileu'r ymarferydd hwnnw o'i restr cyflawnwyr yn cael effaith unwaith eto.

Penderfyniadau a seiliau dros wrthod

8.—(1) O ran Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) caiff wrthod cynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr ar y seiliau a nodir ym mharagraff (2);

(b) rhaid iddo wrthod cynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr ar y seiliau a nodir ym mharagraff (4).

(2) Y seiliau y caniateir i'r Bwrdd Iechyd Lleol wrthod cynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr arnynt, yn ychwanegol at y rhai a ragnodir yn y Rhan berthnasol, yw—

(a) ei fod yn ystyried bod yr ymarferydd yn anaddas i'w gynnwys yn ei restr cyflawnwyr ar ôl ystyried yr wybodaeth a'r ddogfennaeth a ddarparwyd o dan reoliad 4(2) ac—

(**37**) Llofnodwyd y Cyfarwyddydau hyn ar 28 Mawrth 2013 ac fe'u diwygiwyd gan Gyfarwyddydau Awdurdod Ymgyfreitha'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygio) 2013, a lofnodwyd ar 5 Tachwedd 2013, Cyfarwyddydau Awdurdod Ymgyfreitha'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygio) 2015, a lofnodwyd ar 9 Mawrth 2015, a Chyfarwyddydau Awdurdod Ymgyfreitha'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygio) 2019, a lofnodwyd ar 16 Rhagfyr 2019. Mae'r Cyfarwyddydau hyn ar gael o https://www.gov.uk/government/collections/nhs-litigation-authority-directions, neu drwy ysgrifennu at The Department of Health and Social Care, Resolution and Maternity Branch, 39 Victoria Street, SW1H 0EU.

(i) yn achos ymarferydd meddygol, rheoliadau 29 a 30, a

(ii) yn achos ymarferydd deintyddol, rheoliadau 37 a 38,

(b) ar ôl ystyried unrhyw ddatganiad sy'n ofynnol gan reoliad 4(5) ac (os yw'n gymwys) rheoliad 4(7), ac unrhyw wybodaeth a ddarperir o dan reoliad 4(6) neu (8) mewn cysylltiad ag unrhyw ddatganiad o'r fath, ac unrhyw wybodaeth arall neu unrhyw ddogfennau eraill yn ei feddiant sy'n ymwneud â'r ymarferydd, ei fod yn ystyried bod yr ymarferydd yn anaddas i'w gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr,

(c) ar ôl cael geirdaon gan y canolwyr a enwir gan yr ymarferydd, pan fo'n ofynnol i'r ymarferydd enwi canolwyr o dan reoliad 4(2)(e), nad yw wedi ei fodloni â'r geirdaon hynny,

(d) ar ôl gwirio gydag Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG am unrhyw ffeithiau y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried eu bod yn berthnasol mewn perthynas ag ymchwiliadau yn y gorffennol i dwyll neu ymchwiliadau cyfredol i dwyll sy'n ymwneud â'r ymarferydd neu sy'n gysylltiedig ag ef, ac ar ôl ystyried y ffeithiau hyn ac unrhyw ffeithiau eraill yn ei feddiant sy'n ymwneud â materion o'r fath, ei fod yn ystyried bod yr ymarferydd yn anaddas i'w gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr,

(e) bod yr ymarferydd wedi ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o unrhyw drosedd (heblaw llofruddiaeth), a gyflawnwyd ar neu ar ôl y dyddiad a ragnodir yn y Rhan berthnasol, ac wedi ei ddedfrydu i gyfnod hwy na 6 mis o garchar (pa un a yw'n ddedfryd ohiriedig ai peidio),

(f) ar ôl gwirio gydag NHS Resolution ynghylch unrhyw ffeithiau y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried eu bod yn berthnasol mewn perthynas ag ymchwiliadau neu achosion yn y gorffennol neu ymchwiliadau neu achosion cyfredol sy'n ymwneud â'r ymarferydd neu sy'n gysylltiedig ag ef ac, ar ôl ystyried y rhain ac unrhyw ffeithiau eraill yn ei feddiant sy'n ymwneud â'r ymarferydd neu sy'n gysylltiedig ag ef, fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried bod yr ymarferydd yn anaddas i'w gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr, neu

(g) ei fod yn ystyried bod seiliau rhesymol dros ddod i'r casgliad y byddai cynnwys yr ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr yn niweidio effeithlonrwydd y gwasanaethau y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr cyflawnwyr honno yn eu cyflawni.

(3) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried gwrthod cais ymarferydd ar sail sydd wedi ei chynnwys ym mharagraff (2) rhaid iddo, yn benodol, ystyried—

(a) natur unrhyw fater o dan sylw,

(b) yr amser a aeth heibio ers i'r mater hwnnw a'r digwyddiadau a arweiniodd ato ddigwydd,

(c) unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd neu unrhyw gosb a osodwyd gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall o ganlyniad i'r mater hwnnw,

(d) pa mor berthnasol yw'r mater hwnnw i gyflawni, gan yr ymarferydd, y gwasanaethau y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr cyflawnwyr berthnasol yn eu cyflawni, ac unrhyw risg debygol i gleifion yr ymarferydd neu i arian cyhoeddus,

(e) a oedd unrhyw drosedd yn drosedd rywiol at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003(**38**) (troseddau rhywiol), neu a fyddai wedi bod yn drosedd o'r fath pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr,

(f) pa un ai, mewn cysylltiad ag unrhyw restr—

(i) y gwrthodwyd cynnwys yr ymarferydd ynddi,

(ii) y cafodd yr ymarferydd ei gynnwys ynddi yn ddarostyngedig i amodau,

(iii) y cafodd yr ymarferydd ei ddileu ohoni, neu

(iv) y mae'r ymarferydd wedi ei atal dros dro ohoni ar y pryd,

ac, os felly, y ffeithiau sy'n ymwneud â'r mater a arweiniodd at weithredu felly, ynghyd â'r rhesymau a roddwyd gan ddeiliad y rhestr, ac

(g) a oedd yr ymarferydd, mewn cysylltiad ag unrhyw restr, ar adeg y digwyddiad cychwynnol neu yn y 6 mis cyn y digwyddiad hwnnw, yn gyfarwyddwr i gorff corfforedig—

(i) y gwrthodwyd ei gynnwys ynddi,

(ii) a gafodd ei gynnwys ynddi yn ddarostyngedig i amodau,

(iii) a gafodd ei ddileu ohoni, neu

(iv) sydd wedi ei atal dros dro ohoni ar y pryd,

ac, os felly, y ffeithiau sy'n ymwneud â'r digwyddiad hwnnw a'r rhesymau a roddwyd dros weithredu felly gan ddeiliad y rhestr.

(4) Y seiliau y mae rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol wrthod cynnwys ymarferydd yn ei restr cyflawnwyr arnynt, yn ychwanegol at y rhai a ragnodir yn y Rhan berthnasol, yw—

(a) nad yw'r ymarferydd wedi darparu tystiolaeth foddhaol bod yr ymarferydd yn bwriadu cyflawni'r gwasanaethau y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr cyflawnwyr honno yn eu cyflawni, yn ei ardal;

(b) nad yw wedi ei fodloni bod gan yr ymarferydd wybodaeth ddigonol o'r Saesneg sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr cyflawnwyr honno yn ei gyflawni;

(c) bod yr ymarferydd wedi ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o lofruddiaeth;

(d) bod yr ymarferydd yn ddarostyngedig i anghymhwysiad cenedlaethol sy'n anghymwyso'r ymarferydd rhag cael ei gynnwys yn y rhestr cyflawnwyr honno;

(e) mewn achos y mae rheoliad 10(4) yn gymwys iddo, nad yw'r ymarferydd wedi diweddaru cais yr ymarferydd yn unol â gofynion y rheoliad hwnnw;

(f) mewn achos y mae rheoliad 12(5) yn gymwys iddo, nad yw'r ymarferydd wedi rhoi'r hysbysiad a'r ymgymeriad sy'n ofynnol gan y rheoliad hwnnw;

(g) mewn achos y mae rheoliad 19(5) yn gymwys iddo, nad yw'r ymarferydd wedi hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan y rheoliad hwnnw bod yr ymarferydd yn dymuno cael ei gynnwys yn ei restr cyflawnwyr yn ddarostyngedig i'w amodau.

(5) Nid yw paragraff (4)(a) yn gymwys yn achos ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog neu ymarferydd cyffredinol Math 2 i'r lluoedd arfog.

(6) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol wedi gwneud penderfyniad ar gais ymarferydd i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr, rhaid iddo hysbysu'r ymarferydd o fewn 7 niwrnod—

(a) am ei benderfyniad, a

(**38**) 2003 p. 42.

(b) os yw wedi penderfynu peidio â chynnwys yr ymarferydd, am y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt) a hawl yr ymarferydd i apelio o dan reoliad 19.

(7) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu ymarferydd o dan baragraff (6)(b), rhaid iddo—

(a) hysbysu'r ymarferydd bod rhaid arfer yr hawl i apelio o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â dyddiad yr hysbysiad am y penderfyniad hwnnw, a

(b) dweud wrth yr ymarferydd sut i arfer yr hawl honno.

Dileu ymarferydd sy'n dychwelyd ar ôl gwiriadau wedi eu hoedi

9.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Bwrdd Iechyd Lleol wedi penderfynu cynnwys ymarferydd sy'n dychwelyd mewn rhestr cyflawnwyr.

(2) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ddileu'r ymarferydd sy'n dychwelyd o'i restr cyflawnwyr ar ddiwedd y cyfnod o 3 mis gan ddechrau â dyddiad y penderfyniad i'w gynnwys yn y rhestr, oni bai bod Bwrdd Iechyd Lleol, cyn diwedd y cyfnod hwnnw—

(a) wedi cynnal y gwiriadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 6(1)(b) ac (c) a fyddai'n gymwys i unrhyw ymarferydd arall, a

(b) wedi cael gan yr ymarferydd sy'n dychwelyd unrhyw wybodaeth bellach y mae wedi ei cheisio o dan reoliad 6(2).

(3) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ddileu'r ymarferydd sy'n dychwelyd o'i restr cyflawnwyr—

(a) os yw'r gwiriadau a'r wybodaeth y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yn arwain at ddatgelu gwybodaeth newydd i Fwrdd Iechyd Lleol, a

(b) os byddai Bwrdd Iechyd Lleol, pe bai wedi cael yr wybodaeth honno cyn penderfynu cynnwys yr ymarferydd sy'n dychwelyd yn ei restr cyflawnwyr, wedi gwrthod cynnwys yr ymarferydd sy'n dychwelyd yn ei restr cyflawnwyr yn unol â rheoliad 8.

Gohirio penderfyniad ar gais

10.—(1) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol ohirio penderfyniad ar gais ymarferydd i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr—

(a) mewn cysylltiad â'r ymarferydd—

(i) pan fo achos troseddol yn y Deyrnas Unedig, neu

(ii) pan fo achos yn rhywle arall yn y byd sy'n ymwneud ag ymddygiad a fyddai, pe bai wedi digwydd yn y Deyrnas Unedig, yn drosedd a phe bai'r achos hwnnw'n arwain at euogfarn neu'r hyn sy'n cyfateb i euogfarn a fyddai, pe bai'r ymarferydd wedi ei gynnwys ar y pryd mewn rhestr cyflawnwyr, yn debygol o arwain at ddileu'r ymarferydd ohoni;

(b) mewn cysylltiad â chorff corfforedig y mae'r ymarferydd yn gyfarwyddwr iddo, wedi bod yn gyfarwyddwr iddo yn y 6 mis blaenorol, neu yr oedd, ar adeg y digwyddiad cychwynnol, yn gyfarwyddwr iddo—

(i) pan fo achos troseddol yn y Deyrnas Unedig, neu

(ii) pan fo achos yn rhywle arall yn y byd sy'n ymwneud ag ymddygiad a fyddai, pe bai wedi digwydd yn y Deyrnas Unedig, yn drosedd a phe bai'r achos hwnnw'n arwain at euogfarn neu'r hyn sy'n cyfateb i euogfarn a fyddai, pe

bai'r ymarferydd wedi ei gynnwys ar y pryd mewn rhestr cyflawnwyr, yn debygol o arwain at ddileu'r ymarferydd ohoni;

(c) pan fo unrhyw ymchwiliad mewn unrhyw le yn y byd gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall sy'n ymwneud â'r ymarferydd a fyddai, pe bai'n anffafriol i'r ymarferydd, a bod yr ymarferydd wedi ei gynnwys ar y pryd mewn rhestr cyflawnwyr, yn debygol o arwain at ddileu'r ymarferydd ohoni;

(d) pan fo ymarferydd wedi ei atal dros dro o unrhyw restr;

(e) pan fo corff corfforedig y mae'r ymarferydd yn gyfarwyddwr iddo, wedi bod yn gyfarwyddwr iddo yn y 6 mis blaenorol, neu yr oedd, ar adeg y digwyddiad cychwynnol, yn gyfarwyddwr iddo, wedi ei atal dros dro o unrhyw restr;

(f) pan fo'r ymarferydd wedi apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad i wrthod cynnwys yr ymarferydd, neu i gynnwys yr ymarferydd yn ddarostyngedig i amodau, mewn unrhyw restr, neu i ddileu'r ymarferydd o unrhyw restr, a phe bai'r apêl honno'n aflwyddiannus, a bod yr ymarferydd wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr ar yr adeg honno, byddai'n debygol o arwain at ddileu'r ymarferydd ohoni;

(g) pan fo corff corfforedig y mae'r ymarferydd yn gyfarwyddwr iddo, wedi bod yn gyfarwyddwr iddo yn y 6 mis blaenorol, neu yr oedd, ar adeg y digwyddiad cychwynnol, yn gyfarwyddwr iddo, wedi apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad i wrthod cynnwys y corff corfforedig, neu i'w gynnwys yn ddarostyngedig i amodau, mewn unrhyw restr neu i'w ddileu o unrhyw restr, a phe bai'r apêl honno'n aflwyddiannus, a bod yr ymarferydd wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr ar yr adeg honno, byddai'n debygol o arwain at ddileu'r ymarferydd ohoni;

(h) pan fo'r ymarferydd yn destun ymchwiliad gan Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG mewn perthynas â thwyll, a phe bai'r canlyniad yn cynnwys canfyddiad anffafriol i'r ymarferydd, a bod yr ymarferydd wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr ar yr adeg honno, byddai'n debygol o arwain at ddileu'r ymarferydd ohoni;

(i) pan fo corff corfforedig y mae'r ymarferydd yn gyfarwyddwr iddo, wedi bod yn gyfarwyddwr iddo yn y 6 mis blaenorol, neu yr oedd, ar adeg y digwyddiad cychwynnol, yn gyfarwyddwr iddo, yn destun ymchwiliad mewn perthynas ag unrhyw dwyll, a phe bai'r canlyniad yn cynnwys canfyddiad sy'n anffafriol i'r corff corfforedig, a bod yr ymarferydd wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr ar yr adeg honno, byddai'n debygol o arwain at ddileu'r ymarferydd ohoni;

(j) pan fo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn ystyried cais gan Fwrdd Iechyd Lleol i'r ymarferydd neu gorff corfforedig y mae'r ymarferydd yn gyfarwyddwr iddo, wedi bod yn gyfarwyddwr iddo yn y 6 mis blaenorol, neu yr oedd, ar adeg y digwyddiad cychwynnol, yn gyfarwyddwr iddo, gael ei anghymhwyso'n genedlaethol.

(2) O fewn 7 niwrnod i ddyddiad penderfyniad o dan baragraff (1), rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd yn ysgrifenedig am y penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto.

(3) Ni chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol ond gohirio penderfyniad o dan baragraff (1) hyd nes bod canlyniad y mater o dan sylw yn hysbys neu fod unrhyw ataliad dros dro o dan is-baragraff (d) neu (e) o'r paragraff hwnnw wedi dod i ben.

(4) Unwaith y bydd canlyniad y mater o dan sylw yn hysbys neu fod unrhyw ataliad dros dro wedi dod i ben (yn ôl y digwydd), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd bod rhaid i'r ymarferydd, o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad—

(a) cadarnhau'n ysgrifenedig bod yr ymarferydd yn dymuno bwrw ymlaen â chais yr ymarferydd, a

(b) os yw'r ymarferydd yn dymuno bwrw ymlaen, ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol.

(5) Ar yr amod bod unrhyw gadarnhad ac unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi dod i law o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y cyfeirir ato ym mharagraff (4), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) gwneud penderfyniad yn unol â rheoliad 8 a rheoliad 31(1) neu 39(1) neu (2) (yn ôl y digwydd) ynghylch pa un a ddylid caniatáu cais yr ymarferydd i gael ei gynnwys yn ei restr cyflawnwyr ai peidio, neu

(b) ystyried a ddylid gosod amodau ar gynnwys yr ymarferydd yn ei restr cyflawnwyr yn unol â rheoliad 12.

(6) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol, o dan baragraff (5), yn penderfynu caniatáu cais yr ymarferydd neu wrthod cais yr ymarferydd, mae paragraffau (6) a (7) o reoliad 8 yn gymwys fel pe na bai unrhyw ohirio wedi digwydd.

Gofynion y mae rhaid i ymarferydd sydd wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr gydymffurfio â hwy

11.—(1) Pan fo ymarferydd wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr, rhaid i'r ymarferydd gydymffurfio â'r gofynion sy'n gymwys i'r ymarferydd o dan y rheoliad hwn.

(2) Rhaid i ymarferydd wneud datganiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystod pob cyfnod adrodd yn cadarnhau ei fod yn parhau i gyflawni gwasanaethau a reoleiddir o dan reoliad 27 neu reoliad 35, yn ôl y digwydd.

(3) Y cyfnodau adrodd ym mharagraff (2) yw—

(a) y cyfnod sy'n dechrau â 1 Ebrill 2026 ac sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2027, a

(b) pob cyfnod dilynol o 12 mis.

(4) Rhaid i'r ymarferydd wneud datganiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol os yw'r ymarferydd—

(a) yn cael ei euogfarnu o drosedd yn y Deyrnas Unedig,

(b) yn cael ei rwymo yn dilyn euogfarn droseddol yn y Deyrnas Unedig,

(c) yn derbyn rhybuddiad gan yr heddlu yn y Deyrnas Unedig,

(d) wedi derbyn cynnig amodol o dan adran 302 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 (cosb benodedig: cynnig amodol gan y procuradur ffisgal) neu gynnig o ddigolledi ad o dan adran 302A o'r Ddeddf honno (cynnig o ddigolledi ad gan brocuradur ffisgal) neu wedi cytuno i dalu cosb o dan adran 115A o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (cosb fel dewis arall yn lle erlyn),

(e) mewn achos yn yr Alban am drosedd, wedi bod yn destun gorchymyn o dan adran 246(2) neu (3) o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 (cerydd a rhyddhau'n ddiamod) i ryddhau'r ymarferydd yn ddiamod,

(f) yn cael ei euogfarnu yn rhywle arall o drosedd a fyddai'n drosedd pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr,

(g) yn cael ei gyhuddo yn y Deyrnas Unedig o drosedd, neu'n cael ei gyhuddo yn rhywle arall o drosedd a fyddai'n drosedd pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr,

(h) yn ymwneud â chwest fel person â buddiant o fewn ystyr "interested person" yn adran 47(2)(f) (person a all fod wedi, drwy unrhyw weithred neu anweithred, achosi marwolaeth yr ymadawedig neu gyfrannu at farwolaeth yr ymadawedig,

neu berson y gall ei gyflogai neu ei asiant fod wedi gwneud hynny) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009,

(i) yn cael ei hysbysu gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall am ganlyniad unrhyw ymchwiliad sy'n cynnwys canfyddiad anffafriol i'r ymarferydd,

(j) yn mynd yn destun unrhyw ymchwiliad gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall,

(k) yn mynd yn destun unrhyw ymchwiliad mewn cysylltiad ag unrhyw gyflogaeth gyfredol neu flaenorol, neu'n cael ei hysbysu am ganlyniad unrhyw ymchwiliad o'r fath, sy'n cynnwys canfyddiad anffafriol i'r ymarferydd,

(l) yn mynd, hyd eithaf gwybodaeth yr ymarferydd, yn destun unrhyw ymchwiliad gan Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG mewn perthynas â thwyll, neu'n cael ei hysbysu am ganlyniad ymchwiliad o'r fath sy'n cynnwys canfyddiad anffafriol i'r ymarferydd,

(m) yn mynd yn destun unrhyw ymchwiliad gan ddeiliad unrhyw restr a allai arwain at ddileu'r ymarferydd o'r rhestr,

(n) yn cael ei ddileu neu ei atal dros dro o unrhyw restr, neu'n cael ei wrthod rhag ei gynnwys mewn unrhyw restr, neu'n cael ei gynnwys yn ddarostyngedig i amodau mewn unrhyw restr, neu

(o) yn mynd yn ddarostyngedig i anghymhwysiad cenedlaethol.

(5) Rhaid i ddatganiad ynghylch unrhyw fater o dan baragraff (4) fod yn ysgrifenedig, rhaid iddo gael ei roi o fewn 7 niwrnod iddo ddigwydd a rhaid iddo gynnwys—

(a) esboniad o'r ffeithiau sy'n arwain at y mater hwnnw, gan gynnwys manylion unrhyw ymchwiliad neu achos a ddygwyd neu sydd i'w ddwyn, gan gynnwys natur yr ymchwiliad neu'r achos, lle a thua phryd y cynhaliwyd yr ymchwiliad neu'r achos hwnnw neu y mae i'w gynnal, ac unrhyw ganlyniad, a

(b) copïau o unrhyw ddogfennau perthnasol.

(6) Rhaid i ymarferydd wneud datganiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol os yw'r ymarferydd yn gyfarwyddwr, os yw wedi bod yn gyfarwyddwr yn y 6 mis blaenorol, neu os oedd ar adeg y digwyddiad cychwynnol yn gyfarwyddwr, i gorff corfforedig—

(a) sy'n cael ei euogfarnu o drosedd yn y Deyrnas Unedig,

(b) sy'n cael ei euogfarnu yn rhywle arall o drosedd a fyddai'n drosedd pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr,

(c) sy'n cael ei gyhuddo yn y Deyrnas Unedig o drosedd, neu'n cael ei gyhuddo yn rhywle arall o drosedd a fyddai'n drosedd pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr,

(d) sy'n cael ei hysbysu gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall am ganlyniad unrhyw ymchwiliad sy'n cynnwys canfyddiad anffafriol i'r corff corfforedig,

(e) sy'n mynd yn destun unrhyw ymchwiliad gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall,

(f) sy'n mynd yn destun unrhyw ymchwiliad mewn perthynas â thwyll, neu'n cael ei hysbysu am ganlyniad unrhyw ymchwiliad o'r fath, sy'n cynnwys canfyddiad anffafriol i'r corff corfforedig,

(g) sy'n mynd yn destun unrhyw ymchwiliad gan ddeiliad unrhyw restr a allai arwain at ei ddileu o'r rhestr honno,

(h) sy'n cael ei ddileu neu ei atal dros dro o unrhyw restr, neu'n cael ei wrthod rhag ei gynnwys mewn unrhyw restr, neu'n cael ei gynnwys yn ddarostyngedig i amodau mewn unrhyw restr,

(i) sy'n ymwneud â chwest fel person â buddiant o fewn ystyr "interested person" yn adran 47(2)(f) (person a all fod wedi, drwy unrhyw weithred neu anweithred, achosi marwolaeth yr ymadawedig neu gyfrannu at farwolaeth yr ymadawedig, neu berson y gall ei gyflogai neu ei asiant fod wedi gwneud hynny) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, neu

(j) sy'n mynd yn ddarostyngedig i anghymhwysiad cenedlaethol.

(7) Rhaid i ddatganiad ynghylch unrhyw fater o dan baragraff (6) fod yn ysgrifenedig, rhaid iddo gael ei roi o fewn 7 niwrnod iddo ddigwydd a rhaid iddo gynnwys—

(a) enw a chyfeiriad cofrestredig y corff corfforedig,

(b) esboniad o'r ffeithiau sy'n arwain at y mater hwnnw, gan gynnwys manylion unrhyw ymchwiliad neu achos a ddygwyd neu sydd i'w ddwyn, gan gynnwys natur yr ymchwiliad neu'r achos, lle a thua phryd y cynhaliwyd yr ymchwiliad neu'r achos hwnnw neu y mae i'w gynnal, ac unrhyw ganlyniad, ac

(c) copïau o unrhyw ddogfennau perthnasol.

(8) Pan fo'n ymddangos i'r Bwrdd Iechyd Lleol y gall gwneud hynny gynorthwyo ei ystyriaeth o unrhyw ddatganiad a wneir o dan baragraff (4) neu (6), caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ofyn am ragor o wybodaeth gan unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) unrhyw gyflogwr cyfredol, neu unrhyw gyn-gyflogwr, i'r ymarferydd;

(b) unrhyw gorff corfforedig;

(c) deiliad unrhyw restr;

(d) unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall.

ar yr amod bod y person hwnnw'n ymwneud â'r mater sy'n destun y datganiad.

(9) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol wedi gofyn am ragor o wybodaeth o dan baragraff (8), rhaid i'r ymarferydd gydsynio i ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i'r cais hwnnw.

(10) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdani, rhaid i ymarferydd gyflenwi i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw dystysgrif cofnod troseddol fanwl o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 (tystysgrifau cofnod troseddol manwl) sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant a gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf o dan adrannau 113BA a 113BB o'r Ddeddf honno yn y drefn honno ac sydd wedi ei dyddio ar ôl y dyddiad y gofynnodd y Bwrdd Iechyd Lleol amdani.

(11) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdani neu amdano, os nad yw'r ymarferydd erioed wedi preswylio yn y Deyrnas Unedig, rhaid i'r ymarferydd gyflenwi—

(a) tystysgrif wedi ei dyroddi gan awdurdod yn y wlad y mae'n preswylio ynddi ar y pryd sy'n cyfateb i dystysgrif cofnod troseddol fanwl, neu

(b) os nad yw'r ymarferydd yn gallu cael tystysgrif o'r fath, datganiad ysgrifenedig yn dangos bod yr ymarferydd wedi cymryd pob cam rhesymol i gael tystysgrif o'r fath.

(12) Rhaid i ymarferydd gydymffurfio ag unrhyw ymgymeriad a roddir yn unol â chais yr ymarferydd i gael ei gynnwys mewn unrhyw restr cyflawnwyr, rhestr cyflawnwyr flaenorol, neu unrhyw restr y mae'r ymarferydd wedi trosglwyddo ohoni o dan Atodlen 1

i Reoliadau 2004(**39**) neu'r Atodlen i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2006(**40**).

(13) Rhaid i ymarferydd gymryd rhan mewn unrhyw system arfarnu a ddarperir ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol y mae wedi ei restru ag ef, ac eithrio pan fo'r ddarpariaeth berthnasol yn darparu fel arall, ac anfon copi o'r datganiad sy'n crynhoi'r arfarniad hwnnw i'r Bwrdd Iechyd Lleol.

(14) Nid yw'r gofyniad ym mharagraff (13) yn gymwys yn achos ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog, ond mae ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog i roi ymgymeriad i ddarparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol gopi o unrhyw arfarniad blynyddol o'r ymarferydd sy'n ymwneud â'r ymarferydd yn darparu gwasanaethau meddygol fel ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog.

(15) Rhaid i ymarferydd gydymffurfio ag unrhyw amodau a osodir gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar gynnwys yr ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr o dan reoliad 12, 13, 14, 18 neu 19.

Amodau

12.—(1) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried ei bod yn briodol at ddiben atal unrhyw niwed i effeithlonrwydd y gwasanaethau y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys mewn rhestr cyflawnwyr yn eu cyflawni neu at ddiben atal twyll, caiff osod amodau ar—

(a) cynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr yn y lle cyntaf, neu

(b) parhau i gynnwys ymarferydd mewn rhestr o'r fath.

(2) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried gosod amodau o dan baragraff (1)(b), rhaid iddo roi i'r ymarferydd—

(a) hysbysiad am unrhyw honiad yn erbyn yr ymarferydd,

(b) hysbysiad am y camau gweithredu y mae'n eu hystyried ac ar ba sail,

(c) y cyfle i gyflwyno sylwadau iddo o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad o dan is-baragraff (b), a

(d) y cyfle i gyflwyno achos yr ymarferydd mewn gwrandawiad llafar gerbron y Bwrdd Iechyd Lleol, os yw'r ymarferydd yn gofyn am hynny, o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a grybwyllir yn is-baragraff (c).

(3) Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir o dan baragraff (2)(c) ac unrhyw wrandawiad llafar a gynhelir o dan baragraff (2)(d), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) penderfynu pa un a ddylid gosod amodau ar gynnwys yr ymarferydd yn ei restr cyflawnwyr ai peidio, a

(b) o fewn 7 niwrnod i wneud y penderfyniad hwnnw, hysbysu'r ymarferydd—

(i) am y penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt),

(ii) am unrhyw hawl i gael adolygiad o dan reoliad 18, a

(iii) am unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 19.

(4) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu ymarferydd o dan baragraff (3)(b)(iii) rhaid iddo hefyd hysbysu'r ymarferydd—

(a) bod rhaid arfer yr hawl i apelio o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad yr hysbysiad am y penderfyniad hwnnw, a

(**39**) O.S. 2004/1020 (Cy. 117). Dirymwyd Atodlen 1 gan O.S. 2006/945 (Cy. 94).
(**40**) O.S. 2006/945 (Cy. 94).

(b) sut i arfer unrhyw hawl o'r fath.

(5) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu gosod amodau o dan baragraff (1)(a), rhaid i'r ymarferydd, o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad am y penderfyniad—

(a) hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol a yw'r ymarferydd yn dymuno cael ei gynnwys yn y rhestr cyflawnwyr yn ddarostyngedig i'r amodau hynny, a

(b) darparu ymgymeriad y bydd yr ymarferydd yn cydymffurfio â'r amodau a bennir (os yw'r ymarferydd yn dymuno cael ei gynnwys).

Methiant i gydymffurfio ag amodau

13.—(1) Os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu bod ymarferydd wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau a osodir o dan reoliad 12, caiff—

(a) amrywio'r holl amodau neu unrhyw un neu ragor ohonynt,

(b) gosod amodau newydd, neu

(c) ar ôl bodloni gofynion rheoliad 16(8) i (11), ddileu'r ymarferydd o'i restr cyflawnwyr.

(2) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud penderfyniad o dan baragraff (1)(a) neu (b) rhaid iddo hysbysu'r ymarferydd—

(a) am y penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt),

(b) am yr hawl i gael adolygiad o dan reoliad 18, ac

(c) am yr hawl i apelio o dan reoliad 19.

Atal dros dro

14.—(1) Os yw Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn diogelu cleifion neu aelodau o'r cyhoedd neu ei bod fel arall er budd y cyhoedd, caiff atal dros dro ymarferydd o'i restr cyflawnwyr—

(a) tra bo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu pa un ai i arfer ei bwerau—

(i) i osod amodau ar gynnwys yr ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr o dan reoliad 12 ai peidio, neu

(ii) i ddileu'r ymarferydd o dan reoliad 13(1)(c), 16(3) neu (5), 18(3)(c), (4)(c) neu (5)(c), neu 19(7)(b) ai peidio,

(b) tra bo'n aros—

(i) am ganlyniad unrhyw ymchwiliad troseddol neu reoleiddiol sy'n effeithio ar yr ymarferydd;

(ii) am benderfyniad gan lys mewn unrhyw le yn y byd, neu gan unrhyw gorff rheoleiddio, sy'n effeithio ar yr ymarferydd,

(c) pan fo wedi penderfynu dileu'r ymarferydd o restr cyflawnwyr, ond nad yw'r penderfyniad hwnnw wedi cymryd effaith eto, neu

(d) wrth aros am apêl o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol atal dros dro ymarferydd o restr cyflawnwyr os yw cofrestriad yr ymarferydd—

(a) yn y gofrestr o ymarferwyr meddygol yn ddarostyngedig i orchymyn atal dros dro interim a wnaed o dan adran 41A o Ddeddf 1983(**41**);

(**41**) Diwygiwyd adran 41A gan O.S. 2000/1803, O.S. 2002/3135, O.S. 2006/1914 ac O.S. 2015/794.

(b) yn y gofrestr deintyddion yn ddarostyngedig i orchymyn atal dros dro interim a wnaed o dan adran 32 o Ddeddf Deintyddion 1984(**42**).

(3) Bydd ataliad dros dro o dan baragraff (2) yn peidio â chael effaith ar y dyddiad y daw'r gorchymyn atal dros dro interim y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw i ben.

(4) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn atal dros dro ymarferydd o dan baragraff (2), rhaid iddo hysbysu'r ymarferydd am yr ataliad dros dro a'r rheswm drosto.

(5) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried atal dros dro ymarferydd o dan baragraff (1), oni bai bod paragraff (9) yn gymwys (atal dros dro gydag effaith ar unwaith), rhaid iddo roi i'r ymarferydd—

(a) hysbysiad am unrhyw honiad yn erbyn yr ymarferydd,

(b) hysbysiad am y camau gweithredu y mae'n eu hystyried ac ar ba sail, ac

(c) y cyfle i gyflwyno achos yr ymarferydd mewn gwrandawiad llafar gerbron y Bwrdd Iechyd Lleol, ar ddiwrnod penodedig, ar yr amod y rhoddir o leiaf 2 ddiwrnod gwaith o hysbysiad o'r gwrandawiad (gan ddechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad).

(6) Pan na fo ymarferydd yn dymuno cael gwrandawiad llafar o dan baragraff (5)(c) neu pan na fo'n bresennol mewn gwrandawiad llafar, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol atal dros dro yr ymarferydd gydag effaith ar unwaith.

(7) Os cynhelir gwrandawiad llafar, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried unrhyw sylwadau a wneir cyn iddo ddod i'w benderfyniad, a chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) atal dros dro yr ymarferydd gydag effaith ar unwaith, neu

(b) os yw'r ymarferydd yn cytuno i amodau a gynigir gan y Bwrdd Iechyd Lleol sydd i fod yn gymwys yn ystod cyfnod a ddisgrifir ym mharagraff (1), ganiatáu i'r ymarferydd ailddechrau ymarfer yn ddarostyngedig i'r amodau hynny hyd nes y daw'r cyfnod hwnnw i ben.

(8) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn atal dros dro ymarferydd mewn achos sy'n dod o fewn paragraff (1)(a) neu (b), rhaid iddo hysbysu'r ymarferydd am yr hawl i gael adolygiad o dan reoliad 18.

(9) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn diogelu cleifion neu aelodau o'r cyhoedd neu ei fod fel arall er budd y cyhoedd, caiff benderfynu bod ataliad dros dro o dan baragraff (1) i gael effaith ar unwaith heb gymryd y camau a bennir ym mharagraff (5).

(10) Pan fo ymarferydd yn cael ei atal dros dro yn unol â pharagraff (9)—

(a) rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd ar unwaith am ei benderfyniad, y rhesymau drosto a'r honiadau yn erbyn yr ymarferydd;

(b) rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol adolygu ei benderfyniad cyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf sy'n dilyn y diwrnod y gwnaed ei benderfyniad;

(c) mae'r Bwrdd Iechyd Lleol cyn gynted ag y bo'n ymarferol i roi i'r ymarferydd—

(i) hysbysiad am y camau gweithredu pellach y mae'n eu hystyried ac ar ba sail, a

(ii) y cyfle i gyflwyno achos yr ymarferydd mewn gwrandawiad llafar gerbron y Bwrdd Iechyd Lleol, ar ddiwrnod penodedig, ar yr amod y rhoddir o leiaf 2 ddiwrnod gwaith o hysbysiad o'r gwrandawiad (gan ddechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad).

(**42**) Amnewidiwyd adran 32 gan O.S. 2005/201 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2016/496.

(11) Os na chaiff penderfyniad i atal dros dro ymarferydd yn unol â pharagraff (9) ei adolygu yn unol â pharagraff (10)(b), bydd yr ataliad dros dro yn peidio â chael effaith ar ôl i'r cyfnod a grybwyllir yn y paragraff hwnnw ddod i ben.

(12) Pan na fo ymarferydd yn dymuno cael gwrandawiad llafar o dan baragraff (10)(c)(ii) neu pan na fo'n bresennol mewn gwrandawiad llafar, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol gadarnhau neu ddirymu'r ataliad dros dro.

(13) Os cynhelir gwrandawiad llafar o dan baragraff (10)(c)(ii), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir cyn iddo ddod i'w benderfyniad, a chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) cadarnhau neu ddirymu'r ataliad dros dro, neu

(b) os yw'r ymarferydd yn cytuno i amodau a gynigir gan y Bwrdd Iechyd Lleol sydd i fod yn gymwys yn ystod cyfnod a ddisgrifir ym mharagraff (1), ganiatáu i'r ymarferydd ailddechrau ymarfer yn ddarostyngedig i'r amodau hynny hyd nes y daw'r cyfnod hwnnw i ben.

(14) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu cadarnhau ataliad dros dro o dan baragraff (12) neu (13)(a), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd—

(a) am ei benderfyniad a'r hawl i gael adolygiad o dan reoliad 18, ar unwaith, a

(b) am y rhesymau drosto (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt) o fewn 7 niwrnod i'r penderfyniad.

(15) Yn ddarostyngedig i baragraff (22), mewn achos sy'n dod o fewn paragraff (1)(a) neu (b), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol bennu cyfnod, nad yw'n hwy na 6 mis, yn gyfnod yr ataliad dros dro ("y cyfnod cychwynnol o ataliad dros dro").

(16) Mewn achos sy'n dod o fewn—

(a) paragraff (1)(b)(i), pan fydd canlyniad yr ymchwiliad y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw yn hysbys, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol bennu bod yr ymarferydd yn parhau i fod wedi ei atal dros dro am gyfnod ychwanegol ar yr amod nad yw cyfnod cyfanredol y cyfnod cychwynnol a'r cyfnod ychwanegol o ataliad dros dro yn hwy na 6 mis;

(b) paragraff (1)(b)(ii), ar ôl i'r penderfyniad y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw gael ei wneud, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol bennu bod yr ymarferydd yn parhau i fod wedi ei atal dros dro am gyfnod ychwanegol ar yr amod nad yw cyfnod cyfanredol y cyfnod cychwynnol a'r cyfnod ychwanegol o ataliad dros dro yn hwy na 6 mis.

(17) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn pennu o dan baragraff (16) y dylai'r ymarferydd barhau i fod wedi ei atal dros dro am gyfnod ychwanegol, rhaid iddo hysbysu'r ymarferydd ar unwaith am hyn.

(18) Yn ddarostyngedig i baragraff (22), caiff y Bwrdd Iechyd Lleol estyn y cyfnod cychwynnol o ataliad dros dro o dan baragraff (15) neu osod cyfnod pellach o ataliad dros dro o dan baragraff (16), ar yr amod nad yw'r cyfnod cyfanredol yn hwy na 6 mis.

(19) Caniateir i unrhyw gyfnod o ataliad dros dro y cyfeirir ato ym mharagraff (16)(a) neu (b) gael ei estyn y tu hwnt i 6 mis—

(a) os yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, yn dilyn cais gan y Bwrdd Iechyd Lleol, yn gorchymyn gwneud hynny, neu

(b) os gwnaed cais gan y Bwrdd Iechyd Lleol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan is-baragraff (a) cyn i'r cyfnod cychwynnol o ataliad dros dro ddod i ben ond nad yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi gwneud gorchymyn erbyn i'r cyfnod cychwynnol hwnnw ddod i ben, ac yn yr achos hwnnw mae cyfnod yr ataliad dros dro yn parhau hyd nes i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wneud gorchymyn.

(20) Os yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn gwneud gorchymyn yn unol â pharagraff (19)(a), rhaid iddo bennu—

(a) y dyddiad y mae cyfnod yr ataliad dros dro i ddod i ben,

(b) digwyddiad nad yw i barhau y tu hwnt iddo, neu

(c) bod cyfnod yr ataliad dros dro i ddod i ben ar y cynharaf o'r dyddiad neu'r digwyddiad a bennir.

(21) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf, yn dilyn cais gan y Bwrdd Iechyd Lleol, wneud gorchymyn pellach (gan gydymffurfio â pharagraff (20)) ar unrhyw adeg tra bo cyfnod yr ataliad dros dro yn unol â'i orchymyn cynharach yn parhau.

(22) Mae ataliad dros dro o dan baragraff (1)(a) yn parhau i fod yn effeithiol ar ôl i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud penderfyniad i arfer ei bwerau i ddileu'r ymarferydd o restr cyflawnwyr o dan reoliad 13(1)(c), 16(3) neu (5), 18(3)(c), (4)(c) neu (5)(c), neu 19(7)(b) hyd nes y bydd y penderfyniad i ddileu'r ymarferydd yn cymryd effaith.

(23) Os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn atal dros dro ymarferydd mewn achos sy'n dod o fewn paragraff (1)(c) neu (d), mae'r ataliad dros dro yn cael effaith—

(a) mewn achos sy'n dod o fewn paragraff (1)(c), hyd nes i'r penderfyniad gymryd effaith, neu

(b) mewn achos sy'n dod o fewn paragraff (1)(d), hyd nes i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf benderfynu'r apêl.

(24) Os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn meddu ar dystiolaeth na fydd dirymu ataliad dros dro a osodir o dan baragraff (1) yn cael effaith andwyol ar ddiogelu cleifion neu aelodau o'r cyhoedd neu fudd y cyhoedd, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ddirymu'r ataliad dros dro hwnnw ar unrhyw adeg gydag effaith ar unwaith a hysbysu'r ymarferydd am ei benderfyniad.

(25) Yn ddarostyngedig i baragraff (27), tra bo ymarferydd wedi ei atal dros dro o dan y Rheoliadau hyn, mae i'w drin fel pe na bai wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr, er bod yr ymarferydd yn ymddangos ynddi.

(26) Nid oes dim ym mharagraff (25) sy'n atal ymarferydd rhag cael ei ddileu o restr cyflawnwyr o dan reoliad 13(1)(c), 16 neu 19(7)(b).

(27) At ddiben cais gan ymarferydd sydd wedi ei atal dros dro o dan y Rheoliadau hyn i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr arall, mae'r ymarferydd hwnnw i'w drin fel pe bai wedi ei gynnwys o hyd yn y rhestr y mae'r ymarferydd wedi ei atal dros dro ohoni, er gwaethaf yr ataliad dros dro hwnnw.

Taliadau yn ystod ataliad dros dro

15.—(1) Caiff ymarferydd wneud cais i'r Bwrdd Iechyd Lleol cyn diwedd y cyfnod o 90 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y gwnaed penderfyniad i'w atal dros dro o dan reoliad 14 am daliadau yn ystod cyfnod yr ataliad dros dro.

(2) Yn ystod cyfnod o ataliad dros dro o dan reoliad 14, caniateir gwneud taliadau gan y Bwrdd Iechyd Lleol i ymarferydd, neu mewn cysylltiad ag ymarferydd, yn unol â phenderfyniad gan Weinidogion Cymru pan fo'r ymarferydd wedi gwneud cais yn unol â pharagraff (1).

(3) Os gwneir taliad o'r fath ond nad oedd gan yr ymarferydd hawlogaeth i gael y cyfan ohono neu unrhyw ran ohono, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol adennill y swm nad oedd gan yr ymarferydd hawlogaeth i'w gael ("y gordaliad") fel dyled sifil.

(4) Pan ofynnir iddo wneud hynny gan ymarferydd, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ailystyried unrhyw benderfyniad—

(a) i wrthod gwneud taliad i'r ymarferydd, neu mewn cysylltiad â'r ymarferydd, o dan baragraff (2),

(b) ynghylch swm y taliad i'r ymarferydd, neu mewn cysylltiad â'r ymarferydd, o dan baragraff (2), neu

(c) mewn cysylltiad ag adennill yr hyn y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ei ystyried yn ordaliad o dan baragraff (3).

(5) Rhaid i gais gan yr ymarferydd o dan baragraff (4) gael ei wneud cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod yr hysbyswyd yr ymarferydd am y penderfyniad.

(6) Ar ôl ailystyried penderfyniad o'r fath, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd yn ysgrifenedig am ganlyniad ei ailystyriaeth ("y penderfyniad a ailystyriwyd") ynghyd â'r rhesymau drosto.

(7) Ar ôl cael ei hysbysu am y penderfyniad a ailystyriwyd, caiff yr ymarferydd, o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod yr hysbysir yr ymarferydd am y penderfyniad a ailystyriwyd hwnnw, roi hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru.

(8) Rhaid i hysbysiad o apêl o dan baragraff (7) gynnwys—

(a) enw a chyfeiriad yr ymarferydd,

(b) enw cyswllt a chyfeiriad i'w ddefnyddio gan y Bwrdd Iechyd Lleol at ddibenion yr apêl,

(c) copi o'r penderfyniad a ailystyriwyd, a

(d) datganiad byr o'r seiliau dros apelio.

(9) Rhaid i Weinidogion Cymru wedi hynny anfon cais ysgrifenedig at yr ymarferydd ac i'r Bwrdd Iechyd Lleol ("y partïon") i gyflwyno, yn ysgrifenedig ac o fewn cyfnod penodedig, unrhyw sylwadau y gallent fod yn dymuno eu cyflwyno ynghylch y mater: rhaid i'r cais i'r Bwrdd Iechyd Lleol gynnwys copi o ddatganiad byr yr ymarferydd o'r seiliau dros apelio.

(10) Unwaith y bydd y cyfnod a bennir o dan baragraff (9) wedi dod i ben, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) rhoi copi o unrhyw sylwadau a ddaeth i law oddi wrth bob parti i'r parti arall, a

(b) gofyn i bob parti gyflwyno unrhyw arsylwadau ysgrifenedig y mae'r parti hwnnw yn dymuno eu cyflwyno am sylwadau'r parti arall.

(11) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau neu arsylwadau o'r fath fel y cyfeirir atynt ym mharagraffau (9) a (10) ac unrhyw dystiolaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn addas—

(a) penderfynu ar yr apêl, a hysbysu'r partïon am eu penderfyniad a'r rhesymau drosto, a

(b) rhoi i'r Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw gyfarwyddydau yn ysgrifenedig, os oes rhai, ar y mater y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Dileu ymarferydd o restr cyflawnwyr

16.—(1) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddileu ymarferydd o'i restr cyflawnwyr pan fo'r seiliau yn rheoliadau 32(1) neu 40(1) yn gymwys neu pan fo'n dod yn ymwybodol o ran yr ymarferydd—

(a) ei fod wedi ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o lofruddiaeth,

(b) ei fod wedi ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o drosedd, a gyflawnwyd ar neu ar ôl y dyddiad a ragnodir yn y Rhan berthnasol, ac wedi ei ddedfrydu i gyfnod hwy na 12 mis o garchar (pa un a yw'n ddedfryd ohiriedig ai peidio),

(c) ei fod yn ddarostyngedig i anghymhwysiad cenedlaethol sy'n anghymwyso'r ymarferydd rhag cael ei gynnwys yn y rhestr cyflawnwyr o dan sylw,

(d) ei fod wedi marw, neu

(e) nad yw wedi ei gofrestru mwyach â chorff perthnasol yr ymarferydd.

(2) Pan hysbysir Bwrdd Iechyd Lleol gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf ei fod wedi ystyried apêl gan ymarferydd yn erbyn amodau a osodir o dan reoliad 12 a'i fod wedi penderfynu dileu'r ymarferydd yn lle hynny, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) dileu'r ymarferydd o'i restr cyflawnwyr, a

(b) hysbysu'r ymarferydd ar unwaith ei fod wedi gwneud hynny.

(3) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ddileu ymarferydd o'i restr cyflawnwyr pan fo unrhyw un neu ragor o'r canlynol wedi ei fodloni neu eu bodloni—

(a) bod yr ymarferydd wedi ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o drosedd (heblaw llofruddiaeth), a gyflawnwyd ar neu ar ôl y dyddiad a ragnodir yn y Rhan berthnasol, ac wedi ei ddedfrydu i gyfnod o rhwng 6 a 12 mis o garchar (pa un a yw'n ddedfryd ohiriedig ai peidio),

(b) y byddai parhau i gynnwys yr ymarferydd yn y rhestr cyflawnwyr honno yn niweidio effeithlonrwydd y gwasanaethau y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr cyflawnwyr honno yn eu cyflawni ("achos effeithlonrwydd"),

(c) bod yr ymarferydd—

(i) (pa un ai ar ei ben ei hun neu gyda pherson arall), drwy weithred neu anweithred, wedi achosi, neu wedi peri risg o achosi, niwed i unrhyw gynllun iechyd drwy sicrhau neu geisio sicrhau, ar gyfer yr ymarferydd neu ar gyfer person arall, unrhyw fudd ariannol neu fudd arall, a

(ii) yn gwybod nad oedd hawlogaeth gan yr ymarferydd, na chan y person arall, i'r budd ("achos o dwyll"), neu

(d) bod yr ymarferydd yn anaddas i'w gynnwys yn y rhestr cyflawnwyr honno ("achos anaddasrwydd").

(4) At ddibenion paragraff (3)(c)—

(a) mae'r canlynol yn "cynlluniau iechyd"—

(i) y gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn y diffiniad o "health scheme" yn adran 107(7) o Ddeddf 2006 (anghymhwyso ymarferwyr),

(ii) gwasanaethau iechyd, gan gynnwys triniaeth feddygol a llawfeddygol, a ddarperir gan y lluoedd arfog,

(iii) gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdodau Iechyd Porthladd a gyfansoddir o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**43**),

(iv) gwasanaethau meddygol a ddarperir i garcharor sydd yng ngofal swyddog meddygol neu swyddog arall mewn carchar sydd wedi ei benodi at ddibenion adran 7 o Ddeddf Carchardai 1952(**44**), a

(v) gwasanaethau iechyd a gyllidir yn gyhoeddus ac a ddarperir gan, neu ar ran, unrhyw sefydliad mewn unrhyw le yn y byd, a

(**43**) 1984 p. 22.
(**44**) 1952 p. 52, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 (p. 65), adran 18(2), Deddf Rheoli Troseddwyr 2007 p. 21, adran 39 a pharagraff 1 o Atodlen 5 ac O.S. 1963/597.

(b) rhaid trin ymarferydd fel un sy'n bodloni'r amodau y cyfeirir atynt—

(i) os yw person arall, oherwydd gweithred neu anweithred gan y person hwnnw wrth ddarparu ar ran yr ymarferydd unrhyw wasanaethau y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr cyflawnwyr berthnasol yn eu cyflawni, yn bodloni'r amod hwnnw, a

(ii) os methodd yr ymarferydd â chymryd pob cam a oedd yn rhesymol i atal gweithredoedd neu anweithredoedd sy'n dod o fewn paragraff (3)(c)(i) rhag digwydd wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny ar ran yr ymarferydd.

(5) Pan na all ymarferydd ddangos bod yr ymarferydd wedi cyflawni'r gwasanaethau, y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr cyflawnwyr berthnasol yn eu cyflawni, yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol yn ystod y 12 mis blaenorol, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ddileu'r ymarferydd o'i restr cyflawnwyr.

(6) Nid yw paragraff (5) yn gymwys yn achos ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog neu ymarferydd cyffredinol Math 2 i'r lluoedd arfog.

(7) Wrth gyfrifo'r cyfnod o 12 mis y cyfeirir ato ym mharagraff (5), mae'r cyfnodau a ganlyn, yn ychwanegol at unrhyw gyfnodau a ddiystyrir o dan reoliadau 32(4) a 40(4), i'w diystyru—

(a) unrhyw gyfnod pan oedd yr ymarferydd wedi ei atal dros dro o dan y Rheoliadau hyn,

(b) unrhyw gyfnod pan oedd yr ymarferydd yn cyflawni gwasanaeth amser cyflawn yn y lluoedd arfog mewn argyfwng cenedlaethol (fel gwirfoddolwr neu fel arall), gwasanaeth amser cyflawn gorfodol yn y lluoedd arfog (gan gynnwys gwasanaeth o ganlyniad i unrhyw atebolrwydd i wasanaethu fel aelod wrth gefn), neu unrhyw wasanaeth cyfatebol, os oedd yn atebol am wasanaeth amser cyflawn gorfodol yn y lluoedd arfog, neu

(c) unrhyw gyfnod y mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol reswm da dros ei bennu.

(8) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried dileu ymarferydd o'i restr cyflawnwyr o dan baragraff (3) neu (5) neu reoliad 13(1)(c) neu 19(7)(b), rhaid iddo roi i'r ymarferydd—

(a) hysbysiad am unrhyw honiad yn erbyn yr ymarferydd,

(b) hysbysiad am y camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn eu hystyried ac ar ba sail,

(c) y cyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad o dan is-baragraff (b), a

(d) y cyfle i gyflwyno achos yr ymarferydd mewn gwrandawiad llafar gerbron y Bwrdd Iechyd Lleol, os yw'r ymarferydd yn gofyn am hynny, o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a grybwyllir yn is-baragraff (c).

(9) Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a wneir o dan baragraff (8)(c) ac unrhyw wrandawiad llafar a gynhelir o dan baragraff (8)(d), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol benderfynu pa un ai i ddileu'r ymarferydd ac, o fewn 7 niwrnod iddo wneud y penderfyniad hwnnw, hysbysu'r ymarferydd—

(a) am y penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt), a

(b) am unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 19.

(10) Pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu ymarferydd o dan baragraff (9)(b), rhaid iddo—

(a) hysbysu'r ymarferydd bod rhaid arfer yr hawl i apelio o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y dyroddwyd yr hysbysiad hwnnw, a

(b) dweud wrth yr ymarferydd sut i arfer unrhyw hawl o'r fath.

(11) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu dileu ymarferydd o'i restr cyflawnwyr o dan baragraff (3) neu (5) neu reoliad 13(1)(c), 18(3)(c), (4)(c) neu (5)(c), neu 19(7)(b), ni chaniateir dileu'r ymarferydd o'i restr cyflawnwyr tan y diweddaraf o'r canlynol—

(a) diwedd cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn dod i'w benderfyniad, a

(b) y dyddiad y penderfynir unrhyw apêl gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Meini prawf ar gyfer penderfyniad ar ddileu

17.—(1) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried a ddylid dileu ymarferydd o'i restr cyflawnwyr o dan reoliad 16(3)(b) ("achos effeithlonrwydd"), rhaid iddo ystyried—

(a) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r ymarferydd y mae wedi ei chael o dan reoliad 11,

(b) unrhyw wybodaeth a ddelir gan NHS Resolution am ymchwiliadau neu achosion yn y gorffennol neu ymchwiliadau neu achosion cyfredol sy'n ymwneud â'r ymarferydd hwnnw neu sy'n gysylltiedig ag ef ac sy'n wybodaeth y mae rhaid i'r awdurdod hwnnw ei chyflenwi os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn amdani, ac

(c) y materion a nodir ym mharagraff (2).

(2) Y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) natur unrhyw ddigwyddiad a oedd yn niweidio effeithlonrwydd y gwasanaethau yr oedd yr ymarferydd yn eu cyflawni,

(b) yr amser a aeth heibio ers i'r digwyddiad diwethaf ddigwydd, ac ers i unrhyw ymchwiliad iddo ddod i ben,

(c) unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall (gan gynnwys yr heddlu neu'r llysoedd) o ganlyniad i unrhyw ddigwyddiad o'r fath,

(d) pa mor berthnasol yw'r digwyddiad i gyflawni, gan yr ymarferydd, y gwasanaethau y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr cyflawnwyr berthnasol yn eu cyflawni, a'r risg debygol i gleifion neu i arian cyhoeddus,

(e) a yw'r ymarferydd erioed wedi methu â chydymffurfio â chais i ymgymryd ag asesiad gan NHS Resolution neu unrhyw un neu ragor o'r cyrff a oedd yn ei ragflaenu,

(f) a yw'r ymarferydd wedi methu yn flaenorol â chyflenwi gwybodaeth, gwneud datganiad neu gydymffurfio ag ymgymeriad sy'n ofynnol wrth gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr neu restr cyflawnwyr flaenorol,

(g) mewn cysylltiad ag unrhyw restr—

(i) a wrthodwyd cynnwys yr ymarferydd ynddi,

(ii) a gafodd yr ymarferydd ei gynnwys ynddi yn ddarostyngedig i amodau,

(iii) a gafodd yr ymarferydd ei ddileu ohoni, neu

(iv) a yw'r ymarferydd wedi ei atal dros dro ohoni ar y pryd,

ac, os felly, y ffeithiau sy'n ymwneud â'r digwyddiad a arweiniodd at weithredu felly a'r rhesymau a roddwyd dros weithredu felly gan ddeiliad y rhestr, ac

(h) a oedd yr ymarferydd, mewn cysylltiad ag unrhyw restr, ar adeg y digwyddiad cychwynnol neu yn y 6 mis cyn y digwyddiad hwnnw, yn gyfarwyddwr i gorff corfforedig—

(i) y gwrthodwyd ei gynnwys ynddi,

(ii) a gafodd ei gynnwys ynddi yn ddarostyngedig i amodau,

(iii) a gafodd ei ddileu ohoni, neu

(iv) sydd wedi ei atal dros dro ohoni ar y pryd,

ac, os felly, y ffeithiau sy'n ymwneud â'r digwyddiad a arweiniodd at weithredu felly a'r rhesymau a roddwyd dros weithredu felly gan ddeiliad y rhestr.

(3) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried a ddylid dileu ymarferydd o'i restr cyflawnwyr o dan reoliad 16(3)(c) ("achos o dwyll"), rhaid iddo ystyried—

(a) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r ymarferydd y mae wedi ei chael o dan reoliad 11,

(b) unrhyw wybodaeth a ddelir gan NHS Resolution am ymchwiliadau neu achosion yn y gorffennol neu ymchwiliadau neu achosion cyfredol sy'n ymwneud â'r ymarferydd hwnnw neu sy'n gysylltiedig ag ef ac sy'n wybodaeth y mae rhaid i'r awdurdod hwnnw ei chyflenwi os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn amdani,

(c) unrhyw wybodaeth a ddelir gan Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG am ymchwiliadau neu achosion yn y gorffennol neu ymchwiliadau neu achosion cyfredol sy'n ymwneud â'r ymarferydd hwnnw neu sy'n gysylltiedig ag ef ac sy'n wybodaeth y mae rhaid i'r awdurdod hwnnw ei chyflenwi os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn amdani, a

(d) y materion a nodir ym mharagraff (4).

(4) Y materion hynny yw—

(a) natur unrhyw ddigwyddiad o dwyll,

(b) yr amser a aeth heibio ers i'r digwyddiad diwethaf o dwyll ddigwydd, ac ers i unrhyw ymchwiliad iddo ddod i ben,

(c) unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall (gan gynnwys yr heddlu neu'r llysoedd) o ganlyniad i'r digwyddiad,

(d) pa mor berthnasol yw unrhyw ymchwiliad i ddigwyddiad o dwyll i gyflawni, gan yr ymarferydd, y gwasanaethau y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr cyflawnwyr berthnasol yn eu cyflawni, a'r risg debygol i gleifion neu i arian cyhoeddus,

(e) mewn cysylltiad ag unrhyw restr—

(i) a wrthodwyd cynnwys yr ymarferydd ynddi,

(ii) a gafodd yr ymarferydd ei gynnwys ynddi yn ddarostyngedig i amodau,

(iii) a gafodd yr ymarferydd ei ddileu ohoni, neu

(iv) a yw'r ymarferydd wedi ei atal dros dro ohoni ar y pryd,

ac, os felly, y ffeithiau sy'n ymwneud â'r digwyddiad a arweiniodd at weithredu felly a'r rhesymau a roddwyd am weithredu felly gan ddeiliad y rhestr, ac

(f) a oedd yr ymarferydd, mewn cysylltiad ag unrhyw restr, ar adeg y digwyddiad cychwynnol neu yn y 6 mis cyn y digwyddiad hwnnw, yn gyfarwyddwr i gorff corfforedig—

(i) y gwrthodwyd ei gynnwys ynddi,

(ii) a gafodd ei gynnwys ynddi yn ddarostyngedig i amodau,

(iii) a gafodd ei ddileu ohoni, neu

(iv) sydd wedi ei atal dros dro ohoni ar y pryd,

ac, os felly, y ffeithiau sy'n ymwneud â'r digwyddiad hwnnw a'r rhesymau a roddwyd dros weithredu felly gan ddeiliad y rhestr.

(5) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried a ddylid dileu ymarferydd o'i restr cyflawnwyr o dan reoliad 16(3)(d) ("achos anaddasrwydd"), rhaid iddo ystyried—

(a) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r ymarferydd y mae wedi ei chael o dan reoliad 11,

(b) unrhyw wybodaeth a ddelir gan NHS Resolution am ymchwiliadau neu achosion yn y gorffennol neu ymchwiliadau neu achosion cyfredol sy'n ymwneud â'r ymarferydd hwnnw neu sy'n gysylltiedig ag ef ac sy'n wybodaeth y mae rhaid i'r awdurdod hwnnw ei chyflenwi os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn amdani, ac

(c) y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (6).

(6) Y materion hynny yw—

(a) natur unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at gwestiwn ynghylch addasrwydd yr ymarferydd i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr,

(b) yr amser a aeth heibio ers i'r digwyddiad a'r ffeithiau a arweiniodd ato ddigwydd,

(c) unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan unrhyw gorff rheoleiddio neu unrhyw gorff arall (gan gynnwys yr heddlu neu'r llysoedd) o ganlyniad i unrhyw ddigwyddiad o'r fath,

(d) pa mor berthnasol yw'r digwyddiad i gyflawni, gan yr ymarferydd, y gwasanaethau y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr cyflawnwyr berthnasol yn eu cyflawni, a'r risg debygol i gleifion neu i arian cyhoeddus,

(e) a oedd unrhyw drosedd yn drosedd rywiol at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau rhywiol), neu a fyddai wedi bod yn drosedd o'r fath pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr,

(f) mewn cysylltiad ag unrhyw restr—

(i) a wrthodwyd cynnwys yr ymarferydd ynddi,

(ii) a gafodd yr ymarferydd ei gynnwys ynddi yn ddarostyngedig i amodau,

(iii) a gafodd yr ymarferydd ei ddileu ohoni, neu

(iv) a yw'r ymarferydd wedi ei atal dros dro ohoni ar y pryd,

ac, os felly, y ffeithiau sy'n ymwneud â'r digwyddiad a arweiniodd at weithredu felly a'r rhesymau a roddwyd dros weithredu felly gan ddeiliad y rhestr, ac

(g) a oedd yr ymarferydd, mewn cysylltiad ag unrhyw restr, ar adeg y digwyddiad cychwynnol neu yn y 6 mis cyn y digwyddiad hwnnw, yn gyfarwyddwr i gorff corfforedig—

(i) y gwrthodwyd ei gynnwys ynddi,

(ii) a gafodd ei gynnwys ynddi yn ddarostyngedig i amodau,

(iii) a gafodd ei ddileu ohoni, neu

(iv) sydd wedi ei atal dros dro ohoni ar y pryd,

ac, os felly, y ffeithiau sy'n ymwneud â'r digwyddiad hwnnw a'r rhesymau a roddwyd dros weithredu felly gan ddeiliad y rhestr.

Adolygiadau

18.—(1) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu—

(a) gosod neu amrywio amodau a osodir o dan reoliad 12, 13 neu'r rheoliad hwn, neu

(b) atal dros dro yr ymarferydd o dan reoliad 14(1)(a) neu (b) ac eithrio pan fo'r ataliad dros dro yn parhau drwy orchymyn y Tribiwnlys Haen Gyntaf,

caiff adolygu ei benderfyniad, ac os gofynnir yn ysgrifenedig gan ymarferydd iddo adolygu ei benderfyniad, rhaid iddo wneud hynny.

(2) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu—

(a) cytuno ar amodau â'r ymarferydd o dan reoliad 14(7)(b) neu (13)(b), a

(b) caniatáu i'r ymarferydd ailddechrau ymarfer yn ddarostyngedig i'r amodau hynny o dan y paragraffau hynny,

caiff adolygu ei benderfyniad, ac os gofynnir yn ysgrifenedig gan ymarferydd iddo adolygu ei benderfyniad, rhaid iddo wneud hynny.

(3) Yn dilyn adolygiad o dan baragraff (1)(a), caiff y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) cynnal, amrywio neu ddileu'r amodau,

(b) gosod amodau gwahanol, neu

(c) dileu'r ymarferydd o'r rhestr cyflawnwyr berthnasol.

(4) Yn dilyn adolygiad o dan baragraff (1)(b), caiff y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) cynnal, amrywio neu godi'r ataliad dros dro,

(b) caniatáu i'r ymarferydd ailddechrau ymarfer yn ystod cyfnod a ddisgrifir yn rheoliad 14(1) yn ddarostyngedig i amodau y mae wedi cytuno arnynt â'r ymarferydd, neu

(c) dileu'r ymarferydd o'r rhestr cyflawnwyr berthnasol.

(5) Yn dilyn adolygiad o dan baragraff (2), caiff y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) cytuno â'r ymarferydd ar yr un amodau neu amodau wedi eu hamrywio,

(b) dileu'r amodau, neu

(c) dileu'r ymarferydd o'r rhestr cyflawnwyr berthnasol.

(6) Ni chaiff ymarferydd ofyn am adolygiad o benderfyniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol cyn i gyfnod o 3 mis ddod i ben sy'n dechrau â dyddiad y penderfyniad hwnnw.

(7) Ar ôl i adolygiad ddigwydd, ni chaiff yr ymarferydd ofyn am adolygiad pellach cyn i gyfnod o 6 mis ddod i ben o ddyddiad penderfyniad yr adolygiad diwethaf.

(8) Cyn cynnal adolygiad o dan baragraff (1), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi i'r ymarferydd—

(a) hysbysiad am unrhyw honiad yn erbyn yr ymarferydd,

(b) hysbysiad am y camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn eu hystyried ac ar ba sail,

(c) y cyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad o dan is-baragraff (b), a

(d) y cyfle i gyflwyno achos yr ymarferydd mewn gwrandawiad llafar gerbron y Bwrdd Iechyd Lleol, os yw'r ymarferydd yn gofyn am hynny, o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a grybwyllir yn is-baragraff (c).

(9) Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a wneir o dan baragraff (8)(c) ac unrhyw wrandawiad llafar a gynhelir o dan baragraff (8)(d), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud ei benderfyniad ac, o fewn 7 niwrnod i wneud y penderfyniad hwnnw, hysbysu'r ymarferydd—

(a) am y penderfyniad,

(b) am y rhesymau drosto (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt),

(c) am unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 19, a

(d) am yr hawl i gael adolygiad pellach o dan y rheoliad hwn.

(10) Pan fydd Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu ymarferydd o dan baragraff (9)(c), rhaid iddo—

(a) hysbysu'r ymarferydd bod rhaid arfer yr hawl i apelio i'w harfer o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddodd hysbysiad i'r ymarferydd am ei benderfyniad, a

(b) rhoi gwybod i'r ymarferydd sut i arfer unrhyw hawl o'r fath.

(11) Ni chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol adolygu—

(a) penderfyniad i atal dros dro ymarferydd o dan reoliad 14(1)(c) neu (d), neu (2) (atal dros dro), neu

(b) penderfyniad i osod amodau ar gynnwys yr ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr pan fo'r ymarferydd wedi ei wrthod rhag cael ei gynnwys yn y rhestr cyflawnwyr o dan reoliad 8(4)(f) neu (g) (penderfyniadau a seiliau dros wrthod).

Apelau

19.—(1) Caiff ymarferydd apelio (ar ffurf ailbenderfynu) i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad gan Fwrdd Iechyd Lleol a grybwyllir ym mharagraff (2).

(2) Mae penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn benderfyniad—

(a) i wrthod cynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr ar y seiliau y cyfeirir atynt yn rheoliad 8(1);

(b) i osod, cynnal neu amrywio unrhyw amodau o dan reoliad 12, 13 neu 18;

(c) i ddileu ymarferydd o restr cyflawnwyr o dan reoliad 13(1)(c), 16(3) neu (5), 18(3)(c), (4)(c) neu (5)(c), neu baragraff (7)(b) o'r rheoliad hwn;

(d) i wrthod cynnwys—

(i) ymarferydd meddygol mewn rhestr cyflawnwyr meddygol o dan reoliad 31(1), neu

(ii) ymarferydd deintyddol mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol o dan reoliad 39(1) neu (2).

(3) Nid oes hawl apelio o dan baragraff (1) yn erbyn penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) i wrthod cynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr meddygol pan fo'r ymarferydd wedi gwneud cais i gael ei gynnwys yn y rhestr honno yn unol â rheoliad 25 ac Atodlen 1, na

(b) i ddileu ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng o restr cyflawnwyr meddygol.

(4) Yn dilyn apêl, caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf wneud unrhyw benderfyniad y gallai'r Bwrdd Iechyd Lleol fod wedi ei wneud.

(5) Pan mai penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn dilyn apêl yw bod yr ymarferydd i'w gynnwys yn y lle cyntaf mewn rhestr cyflawnwyr yn ddarostyngedig i amodau, pa un a yw'r amodau hynny yn union yr un fath ag unrhyw amodau a osodir gan y Bwrdd Iechyd Lleol ai peidio, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ofyn i'r ymarferydd hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn 28 o ddiwrnodau i benderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf a yw'r ymarferydd yn dymuno cael ei gynnwys yn ei restr cyflawnwyr yn ddarostyngedig i'r amodau hynny a rhaid i'r ymarferydd hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol felly.

(6) Os yw'r ymarferydd yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol bod yr ymarferydd yn dymuno cael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr yn ddarostyngedig i'r amodau, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol gynnwys yr ymarferydd felly.

(7) Pan fo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn penderfynu gosod amodau ar gynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr—

(a) caiff y Bwrdd Iechyd Lleol neu'r ymarferydd wneud cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf i amrywio'r amodau neu i osod amodau gwahanol, a

(b) caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, ar ôl bodloni gofynion rheoliad 16(8) i (11), ddileu'r ymarferydd o'i restr cyflawnwyr os yw'n penderfynu bod yr ymarferydd wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau o'r fath.

(8) Yn dilyn apêl o dan baragraff (1), caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf, yn dilyn cais gan yr ymarferydd neu ar ei liwt ei hun, adolygu penderfyniad cynharach y Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn perthynas â'r apêl honno.

(9) Yn ddarostyngedig i baragraff (10), ni chaniateir gwneud cais y cyfeirir ato ym mharagraff (8) o fewn y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau â dyddiad penderfyniad diwethaf y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar yr apêl.

(10) Pan fydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf, wrth wneud penderfyniad ar apêl, yn datgan ei fod o'r farn nad oes rhagolwg realistig i adolygiad pellach fod yn llwyddiannus os cynhelir un ar ddiwedd y cyfnod o flwyddyn y cyfeirir ato ym mharagraff (9), mae'r cyfeiriad at "blwyddyn" ym mharagraff (9) i'w drin fel cyfeiriad at 3 blynedd.

Anghymhwysiad Cenedlaethol

20. Pan fo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn gosod anghymhwysiad cenedlaethol o restr cyflawnwyr ar ymarferydd o dan adran 115 o Ddeddf 2006(**45**)—

(a) mae'r cyfeiriad yn adran 115(8)(a) o'r Ddeddf honno at gyfnod o 2 flynedd i'w drin fel cyfeiriad at gyfnod o 5 mlynedd os yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o'r farn bod ymddygiad troseddol neu broffesiynol yr ymarferydd o'r fath fel nad oes rhagolwg realistig i adolygiad fod yn llwyddiannus os cynhelir un o fewn y cyfnod hwnnw o 2 flynedd;

(b) mae'r cyfeiriad yn adran 115(8)(b) o'r Ddeddf honno at gyfnod o flwyddyn i'w drin fel cyfeiriad at gyfnod o 3 blynedd os yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o'r farn bod ymddygiad troseddol neu broffesiynol yr ymarferydd o'r fath fel nad oes rhagolwg realistig i adolygiad pellach fod yn llwyddiannus os cynhelir un o fewn y cyfnod hwnnw o flwyddyn;

(c) mae'r cyfeiriadau yn adran 115(8)(a) a (b) o'r Ddeddf at gyfnodau o 2 flynedd a blwyddyn ill dau i'w trin fel cyfeiriadau at gyfnod o 1 diwrnod—

(**45**) Diwygiwyd adran 115 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 297 a pharagraff 31 o Atodlen 21, Deddf Iechyd a Gofal 2022 (p. 31), adran 1 a pharagraff 1 o Atodlen 1, ac O.S. 2010/22.

(i) os yw euogfarn droseddol a ystyriwyd gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf wrth ddod i benderfyniad i osod yr anghymhwysiad cenedlaethol wedi ei diddymu neu fod y gosb wedi ei lleihau yn dilyn apêl, neu

(ii) os yw penderfyniad corff trwyddedu, corff rheoleiddio neu gorff arall a ystyriwyd gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf wrth ddod i benderfyniad i osod yr anghymhwysiad cenedlaethol wedi ei ddiddymu neu fod y gosb wedi ei lleihau yn dilyn apêl.

Hysbysu

21.—(1) O fewn 7 niwrnod i wneud penderfyniad a grybwyllir ym mharagraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r personau a'r cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) am y materion a nodir ym mharagraff (4).

(2) Mae penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn benderfyniad—

(a) i wrthod cynnwys ymarferydd yn ei restr cyflawnwyr ar y seiliau y cyfeirir atynt yn rheoliad 8(1), 31(1) neu 39(1),

(b) i osod amodau o dan reoliad 12 neu 14,

(c) i amrywio amodau neu osod amodau newydd o dan reoliad 13,

(d) i atal dros dro ymarferydd o restr cyflawnwyr o dan reoliad 14, neu

(e) i ddileu ymarferydd o restr cyflawnwyr o dan reoliad 13(1)(c), 16 (heblaw 16(1)(d)), 18(3)(c), (4)(c) neu (5)(c), 19(7)(b), 32(1) neu 40(1).

(3) Y personau a'r cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1), (5), (7), (8) a (9) yw—

(a) Gweinidogion Cymru,

(b) unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol arall neu gorff cyfatebol, hyd eithaf gwybodaeth y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n hysbysu—

(i) sydd â'r ymarferydd mewn unrhyw restr,

(ii) sy'n ystyried cais gan yr ymarferydd i gael ei gynnwys mewn unrhyw restr, neu

(iii) y mae'r ymarferydd yn cyflawni gwasanaethau yn ei ardal,

(c) Gweithrediaeth yr Alban,

(d) yr Ysgrifennydd Gwladol,

(e) Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon,

(f) y corff perthnasol ac unrhyw gorff rheoleiddio priodol arall,

(g) NHS Resolution,

(h) pan fo'n achos o dwyll, Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG,

(i) personau neu gyrff a all gadarnhau er boddhad y Bwrdd Iechyd Lleol eu bod yn cyflogi'r ymarferydd neu'n ystyried ei gyflogi mewn swyddogaeth broffesiynol, a

(j) partneriaeth sy'n darparu gwasanaethau sylfaenol ac sy'n gallu cadarnhau bod yr ymarferydd, neu y bu'r ymarferydd, yn aelod o'r bartneriaeth neu fod y bartneriaeth yn ystyried gwahodd yr ymarferydd i fod yn aelod o'r fath.

(4) Y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r ymarferydd,

(b) rhif cofrestru proffesiynol yr ymarferydd,

(c) dyddiad penderfyniad y Bwrdd Iechyd Lleol a chopi o'r penderfyniad, a

(d) enw person cyswllt yn y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ymholiadau pellach.

(5) Pan fo ymarferydd yn tynnu'n ôl gais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr a bod paragraff (6) yn gymwys, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r personau a'r cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) o fewn 7 niwrnod.

(6) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo ymarferydd yn tynnu'n ôl gais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr a bo gan y Bwrdd Iechyd Lleol reswm dros gredu bod y cais wedi ei dynnu'n ôl er mwyn osgoi penderfyniad i wrthod ei gynnwys mewn rhestr o dan reoliadau 8, 31 neu 39.

(7) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol anfon at yr ymarferydd gopi o unrhyw wybodaeth am yr ymarferydd y mae'n ei darparu i'r personau a'r cyrff a restrir ym mharagraff (3) ynghyd ag unrhyw ohebiaeth gyda'r personau a'r cyrff hynny sy'n ymwneud â'r wybodaeth honno.

(8) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi hysbysu'r personau a'r cyrff a bennir ym mharagraff (3) am y materion a nodir ym mharagraff (4), rhaid iddo, yn ychwanegol, os gofynnir iddo wneud hynny gan y person hwnnw neu'r corff hwnnw, hysbysu'r person hwnnw neu'r corff hwnnw am unrhyw dystiolaeth a ystyriwyd wrth wneud ei benderfyniad, gan gynnwys unrhyw sylwadau gan yr ymarferydd.

(9) Pan fo penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ei newid yn dilyn adolygiad neu apêl, neu pan fo ataliad dros dro yn dod i ben, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r personau a'r cyrff a hysbyswyd am y penderfyniad gwreiddiol, ynghylch y penderfyniad diweddarach neu ynghylch y ffaith bod yr ataliad dros dro hwnnw wedi dod i ben.

Diwygio rhestr cyflawnwyr neu dynnu'n ôl o restr o'r fath

22.—(1) Rhaid i ymarferydd roi hysbysiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol am unrhyw newid sy'n ei gwneud yn ofynnol diwygio'r wybodaeth a gofnodir ynghylch yr ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr ac am unrhyw newid i gyfeiriad preswyl yr ymarferydd.

(2) Rhaid rhoi hysbysiad o dan baragraff (1) o fewn 28 o ddiwrnodau i'r newid oni bai ei bod yn anymarferol i'r ymarferydd wneud hynny.

(3) Pan fo ymarferydd yn bwriadu tynnu'n ôl o restr cyflawnwyr, rhaid i'r ymarferydd hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol.

(4) Rhaid rhoi hysbysiad o dan baragraff (3) o leiaf 3 mis cyn y dyddiad y mae'r ymarferydd yn bwriadu tynnu'n ôl oni bai ei bod yn anymarferol i'r ymarferydd wneud hynny.

(5) Rhaid i ymarferydd hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol bod yr ymarferydd yn bwriadu tynnu'n ôl o'r rhestr cyflawnwyr y mae'r ymarferydd wedi ei gynnwys ynddi os yw'r ymarferydd yn cael ei dderbyn yn unrhyw restr cyflawnwyr gyfatebol Bwrdd Iechyd Lleol arall.

(6) Ar ôl cael hysbysiad gan unrhyw ymarferydd o dan baragraff (1), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddiwygio ei restr cyflawnwyr cyn gynted â phosibl.

(7) Ar ôl cael hysbysiad gan unrhyw ymarferydd o dan baragraff (3), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddiwygio'i restr cyflawnwyr ar—

(a) y dyddiad y'i hysbysir gan yr ymarferydd, ar yr amod ei fod o leiaf 3 mis ar ôl dyddiad yr hysbysiad, neu

(b) dyddiad cynharach, os yw'n cytuno felly.

(8) Ar ôl cael hysbysiad gan unrhyw ymarferydd o dan baragraff (5), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddileu enw'r ymarferydd o'r rhestr cyflawnwyr y mae'r ymarferydd wedi ei

gynnwys ynddi cyn gynted ag y bydd yn cadarnhau bod yr ymarferydd hwnnw wedi ei dderbyn yn y rhestr cyflawnwyr arall honno.

(9) Caiff ymarferydd, yn ysgrifenedig, dynnu'n ôl hysbysiad a roddir o dan baragraff (3) ar unrhyw adeg cyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddileu'r ymarferydd o'i restr cyflawnwyr.

(10) Ni chaniateir tynnu'n ôl hysbysiad a roddir o dan baragraff (5) ar ôl i'r ymarferydd gael ei dderbyn yn y rhestr cyflawnwyr arall honno.

Cyfyngiadau ar dynnu'n ôl o restr cyflawnwyr

23.—(1) Ni chaiff ymarferydd dynnu'n ôl o restr cyflawnwyr—

(a) pan fo'r ymarferydd wedi ei atal dros dro o restr cyflawnwyr o dan reoliad 14(1)(a) neu (b) neu (2), neu

(b) pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi penderfynu dileu'r ymarferydd o restr cyflawnwyr o dan reoliad 13(1)(c), 16(3) neu (5), 18(3)(c), (4)(c) neu (5)(c), neu 19(7)(b) ond nad yw ei benderfyniad wedi cymryd effaith eto.

(2) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi hysbysu ymarferydd am fater y cyfeirir ato ym mharagraff (3), ni chaiff yr ymarferydd dynnu'n ôl o restr cyflawnwyr y mae'r ymarferydd wedi ei gynnwys ynddi hyd nes y bydd y Bwrdd Iechyd Lleol wedi gorffen ei ystyriaeth o'r materion hynny.

(3) Y materion hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried—

(a) gosod amodau o dan reoliad 12(1)(b),

(b) gosod amodau neu ddileu'r ymarferydd o restr cyflawnwyr o dan reoliad 13,

(c) atal dros dro yr ymarferydd o restr cyflawnwyr o dan reoliad 14, neu

(d) dileu'r ymarferydd o restr cyflawnwyr o dan reoliad 16(3) neu (5), 18(3)(c), (4)(c) neu (5)(c), neu 19(7)(b).

(4) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n atal ymarferydd rhag tynnu'n ôl o'r rhestr cyflawnwyr o dan sylw os yw Gweinidogion Cymru yn cydsynio i'r tynnu'n ôl hwnnw.

Datgelu gwybodaeth

24.—(1) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ddatgelu gwybodaeth am ymarferydd sydd wedi ei rhoi iddo neu sydd wedi dod i'w law o dan y Rheoliadau hyn i unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) Gweinidogion Cymru,

(b) unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol arall neu gorff cyfatebol—

(i) sydd â'r ymarferydd yn unrhyw un neu ragor o'i restrau cyflawnwyr,

(ii) sy'n ystyried cais gan yr ymarferydd i gael ei gynnwys yn unrhyw un neu ragor o'i restrau, neu

(iii) y mae'r ymarferydd yn cyflawni'r gwasanaethau o dan sylw yn ei ardal,

(c) Gweithrediaeth yr Alban,

(d) yr Ysgrifennydd Gwladol,

(e) Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon,

(f) NHS Resolution,

(g) y corff perthnasol neu unrhyw gorff rheoleiddio priodol arall,

(h) unrhyw sefydliad neu unrhyw gyflogwr sydd, hyd eithaf gwybodaeth y Bwrdd Iechyd Lleol, yn cyflogi'r ymarferydd neu'n defnyddio gwasanaethau'r ymarferydd mewn swyddogaeth broffesiynol neu'n ystyried gwneud hynny,

(i) unrhyw bartneriaeth sy'n darparu gwasanaethau sylfaenol, y mae'r ymarferydd, hyd eithaf gwybodaeth y Bwrdd Iechyd Lleol, yn aelod ohoni, neu unrhyw bartneriaeth sy'n ystyried gwahodd yr ymarferydd i fod yn aelod ohoni, a

(j) pan fo honiad o dwyll yn cael ei ystyried, Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG.

(2) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddatgelu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth sydd wedi ei rhoi iddo neu sydd wedi dod i'w law o dan y Rheoliadau hyn fel y caiff Gweinidogion Cymru ofyn amdani o bryd i'w gilydd.

Ymarferwyr sydd wedi eu cofrestru mewn argyfwng

25. Mae'r Rhan hon yn gymwys yn ddarostyngedig i Atodlen 1 (sy'n darparu ar gyfer datgymhwyso ac addasu darpariaethau penodedig mewn perthynas ag ymarferwyr sydd wedi eu cofrestru mewn argyfwng).

RHAN 3

Rhestr Cyflawnwyr Meddygol

Dehongli

26.—(1) Yn y Rhan hon—

ystyr "contract GMDdA" ("*APMS contract*") yw trefniant o dan adran 41(2)(b) o Ddeddf 2006 (gwasanaethau meddygol sylfaenol) ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol;

ystyr "contract gwasanaethau meddygol cyffredinol" ("*general medical services contract*") yw contract gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan adran 42 o Ddeddf 2006 (contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol: rhagarweiniol;

mae i "contractwr" yr ystyr a roddir i "contractor" yn adran 42(5) o Ddeddf 2006 (contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol; rhagarweiniol);

ystyr "cynllun" ("*scheme*") yw trefniant i ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol neu gontract GMDdA;

ystyr "cynllun hyfforddiant sylfaen" ("*foundation training scheme*") yw addysg a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig sy'n angenrheidiol ar gyfer dyfarnu TCH mewn ymarfer cyffredinol;

ystyr "cynllun perthnasol" ("*relevant scheme*") yw'r cynllun y mae'r ymarferydd meddygol cyffredinol yn gwneud cais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol mewn cysylltiad ag ef;

ystyr "y ddwy gofrestr" ("*both registers*") yw'r gofrestr o ymarferwyr meddygol a'r Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol;

ystyr "Tribiwnlys Gorchmynion Interim" ("*Interim Orders Tribunal*") yw un o dribiwnlysoedd gorchmynion interim y Cyngor Meddygol Cyffredinol;

ystyr "Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol" ("*Medical Practitioners Tribunal*") yw Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol sydd wedi ei gyfansoddi o dan baragraff 19G o Atodlen 1 i Ddeddf 1983(**46**).

Rhestr cyflawnwyr meddygol

27.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4), ni chaiff ymarferydd meddygol gyflawni gwasanaethau meddygol sylfaenol oni bai bod yr ymarferydd meddygol yn ymarferydd meddygol cyffredinol sydd wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol.

(2) Caiff ymarferydd meddygol nad yw wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol roi brechlyn yn erbyn syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) neu gyflawni unrhyw wasanaeth meddygol sylfaenol sy'n ategol i roi brechlyn o'r fath.

(3) Caiff ymarferydd meddygol sydd wedi ei gofrestru dros dro o dan adran 15 (cofrestru dros dro), 15A (cofrestru dros dro ar gyfer dinasyddion yr AEE etc.) neu 21 (cofrestru dros dro ddinasyddion yr AEE etc. sydd â chymwysterau tramor penodol) o Ddeddf 1983(**47**), gyflawni gwasanaethau meddygol sylfaenol, pan na fo'r ymarferydd meddygol wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol, tra mae'n gweithredu yng nghwrs cyflogaeth yr ymarferydd meddygol fel rhan o raglen dderbyniol ar gyfer meddygon sydd wedi eu cofrestru dros dro o fewn ystyr adran 10A o Ddeddf 1983 (rhaglenni i feddygon sydd wedi eu cofrestru dros dro) mewn practis meddygol sy'n lleoliad practis cydnabyddedig at ddibenion adran 44D o'r Ddeddf honno (lleoliadau practis cymeradwy).

(4) Caiff Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol neu ymarferydd meddygol arall gyflawni gwasanaethau meddygol sylfaenol pan na fo wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol i'r graddau y mae cyflawni'r gwasanaethau hynny yn rhan o raglen ymarfer clinigol ôl-raddedig o dan oruchwyliaeth, sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol o dan adran 34I(1)(a) o Ddeddf 1983(**48**).

Cynnwys rhestr cyflawnwyr meddygol

28. Mewn cysylltiad ag unrhyw ymarferydd meddygol sydd wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol, rhaid i'r rhestr gynnwys—

(a) enw llawn yr ymarferydd meddygol,

(b) rhif cofrestru proffesiynol yr ymarferydd meddygol gyda'r cod sefydliadol a roddwyd gan Weinidogion Cymru i'r Bwrdd Iechyd Lleol fel ôl-ddodiad iddo,

(c) dyddiad cofrestriad cyntaf yr ymarferydd meddygol yn y gofrestr o ymarferwyr meddygol ac, os yw'n berthnasol, y Gofrestr Ymarfer Cyffredinol,

(d) cadarnhad a yw'r ymarferydd meddygol yn gontractwr mewn perthynas â chontract gwasanaethau meddygol cyffredinol,

(e) cadarnhad a yw'r ymarferydd meddygol yn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol o dan gontract GMDdA,

(f) cadarnhad a yw'r ymarferydd meddygol yn Gofrestrydd Ymarfer Cyffredinol,

(g) cadarnhad a yw'r ymarferydd meddygol yn ymarferydd cyffredinol i'r lluoedd arfog ac, os felly, a yw'r ymarferydd meddygol yn ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog neu'n ymarferydd cyffredinol Math 2 i'r lluoedd arfog,

(**46**) Mewnosodwyd paragraff 19G o Atodlen 1 gan O.S. 2015/794 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2024/374.
(**47**) Amnewidiwyd adran 15 gan O.S. 2006/1914. Mewnosodwyd adran 15A gan O.S. 2000/3041, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2006/1914, O.S. 2007/3101, O.S. 2011/1043 ac O.S. 2019/593. Amnewidiwyd adran 21 gan O.S. 2006/1914 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2019/593.
(**48**) Mewnosodwyd adran 34I(1)(a) gan O.S. 2010/234.

(h) cadarnhad a yw'r ymarferydd meddygol wedi ei gofrestru fel ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng, ac

(i) y dyddiad y cafodd yr ymarferydd meddygol ei gynnwys gyntaf yn un o'r rhestrau a ganlyn a ddelir gan Fwrdd Iechyd Lleol—

(i) rhestr cyflawnwyr meddygol,

(ii) rhestr cyflawnwyr meddygol flaenorol, neu

(iii) rhestr feddygol, rhestr atodol neu restr gwasanaethau cyn 1 Ebrill 2004,

gan bennu pa restr.

Cais i gynnwys ymarferydd meddygol mewn rhestr cyflawnwyr meddygol

29.—(1) Yn ogystal â bodloni gofynion rheoliad 4, rhaid i gais gan ymarferydd meddygol i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol fodloni gofynion y rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r ymarferydd meddygol, yn ddarostyngedig i baragraff (7)—

(a) darparu manylion cymwysterau'r ymarferydd meddygol, manylion lle cafwyd y cymwysterau hynny a thystiolaeth ohonynt;

(b) darparu datganiad bod yr ymarferydd meddygol yn ymarferydd meddygol y mae ei enw wedi ei gynnwys—

(i) yn achos Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol, yn y gofrestr o ymarferwyr meddygol, neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, yn y ddwy gofrestr;

(c) darparu rhif cofrestru proffesiynol yr ymarferydd meddygol a'r dyddiadau y'i cofrestrwyd gyntaf—

(i) yn achos Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol, yn y gofrestr o ymarferwyr meddygol, neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, yn y ddwy gofrestr;

(d) mewn perthynas â phrofiad proffesiynol yr ymarferydd meddygol o dan reoliad 4(2)(d), gwahanu'r wybodaeth honno yn—

(i) profiad o ymarfer cyffredinol,

(ii) penodiadau ysbyty, a

(iii) profiad arall,

gyda manylion ategol llawn y profiad hwnnw;

(e) os yw'r ymarferydd meddygol yn Gofrestrydd Ymarfer Cyffredinol, darparu enw a chyfeiriad practis Hyfforddwr Ymarfer Cyffredinol yr ymarferydd meddygol;

(f) cadarnhau a yw'r ymarferydd meddygol yn gontractwr o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol;

(g) cadarnhau a yw'r ymarferydd meddygol yn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol o dan gontract GMDdA;

(h) cadarnhau a yw'r ymarferydd meddygol yn ymarferydd cyffredinol i'r lluoedd arfog ac, os felly, a yw'r ymarferydd meddygol yn ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog neu'n ymarferydd cyffredinol Math 2 i'r lluoedd arfog.

(3) Rhaid i'r ymarferydd meddygol roi'r ymgymeriadau a ganlyn—

(a) os yw'r ymarferydd meddygol yn Gofrestrydd Ymarfer Cyffredinol, oni bai bod yr ymarferydd meddygol hwnnw wedi caffael hawl o dan erthygl 6(6) o Orchymyn

y Cyfrin Gyngor ar Addysg a Hyfforddiant Meddygol Ôl-raddedig 2010(**49**) (personau â hawliau a gaffaelwyd)—

(i) na fydd yn cyflawni unrhyw wasanaethau meddygol sylfaenol ac eithrio pan fydd yn gweithredu ar ran Hyfforddwr Ymarfer Cyffredinol yr ymarferydd meddygol, ac o dan oruchwyliaeth yr Hyfforddwr Ymarfer Cyffredinol hwnnw,

(ii) tynnu'n ôl o restr cyflawnwyr meddygol os bydd unrhyw un neu ragor o'r digwyddiadau a restrir ym mharagraff (4) yn digwydd, ac eithrio mewn sefyllfaoedd pan fo paragraff (5) yn gymwys, a

(iii) darparu tystiolaeth i'r Bwrdd Iechyd Lleol fod yr ymarferydd meddygol wedi ei gynnwys yn y Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol, a hynny o fewn 28 o ddiwrnodau i'r ymarferydd meddygol gael ei gynnwys yn y gofrestr honno;

(b) os yw'r ymarferydd meddygol yn gontractwr o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol, cydymffurfio â gofynion paragraff 132 o Ran 12 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023(**50**) (rhoddion);

(c) os nad yw'r ymarferydd meddygol yn gontractwr o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol, cydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (b) fel pe bai'r ymarferydd meddygol yn gontractwr o'r fath;

(d) na fydd yn cyflawni unrhyw wasanaethau meddygol sylfaenol yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol arall y mae'r ymarferydd meddygol wedi ei ddileu o restr cyflawnwyr meddygol neu restr feddygol y Bwrdd hwnnw, ac eithrio pan fo'r dilead hwnnw wedi digwydd ar gais yr ymarferydd meddygol neu'n unol â rheoliad 16(5) o'r Rheoliadau hyn neu â rheoliad 7(2) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992(**51**), heb gydsyniad ysgrifenedig y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw.

(4) Y digwyddiadau y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddynt yw—

(a) diwedd unrhyw gyfnod o hyfforddiant ymarfer cyffredinol sydd wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol o dan adran 34I(1)(a) o Ddeddf 1983 (addysg a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig: swyddogaethau cyffredinol), oni bai ei fod yn rhan o gynllun hyfforddiant sylfaen nad yw wedi ei gwblhau eto gan yr ymarferydd meddygol,

(b) methu â chwblhau yn foddhaol unrhyw gyfnod o hyfforddiant ymarfer cyffredinol sydd wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol o dan adran 34I(1)(a) o Ddeddf 1983 (addysg a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig: swyddogaethau cyffredinol), ac

(c) cwblhau cynllun hyfforddiant sylfaen.

(5) Nid yw'n ofynnol i ymarferydd meddygol dynnu'n ôl o restr cyflawnwyr meddygol o dan baragraff (3)(a)(ii) os yw'r ymarferydd meddygol, yn unol â'r ymgymeriad a roddir o dan baragraff (3)(a)(iii), yn darparu tystiolaeth i'r Bwrdd Iechyd Lleol fod yr ymarferydd meddygol wedi ei gynnwys yn y Gofrestr Ymarfer Cyffredinol, a hynny o fewn 28 o ddiwrnodau i'r ymarferydd meddygol gael ei gynnwys gyntaf yn y gofrestr honno.

(6) Mae darparu tystiolaeth bod ymarferydd wedi ei gynnwys yn y Gofrestr Ymarfer Cyffredinol yn unol ag ymgymeriad a roddir o dan baragraff (3)(a)(iii) yn gyfystyr â hysbysiad at ddibenion rheoliad 22(1).

(**49**) O.S. 2010/473.
(**50**) O.S. 2023/953 (Cy. 155).
(**51**) O.S. 1992/635. Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu dirymu o ran Cymru gan O.S. 2004/1016 (Cy. 113), erthygl 96, Atodlen 2. Cedwir cyfeiriad at y Rheoliadau a ddirymwyd i gofnodi gwybodaeth am restrau hanesyddol.

(7) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gais a wneir gan ymarferydd sy'n dychwelyd fel pe bai paragraff (2)(a), (b) a (d) wedi ei hepgor.

Cais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol gan ymarferydd meddygol sydd eisoes wedi ei restru mewn rhestr cyflawnwyr meddygol neu restr cyflawnwyr gyfatebol

30.—(1) Yn ogystal â darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 5(2), rhaid i'r ymarferydd meddygol, wrth wneud cais i gynnwys enw'r ymarferydd meddygol mewn rhestr cyflawnwyr meddygol tra bo'r ymarferydd meddygol hwnnw wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol neu restr cyflawnwyr gyfatebol, roi'r wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraff 2(b), (c), (f), (g) ac (h) o reoliad 29.

(2) Rhaid i'r ymarferydd meddygol ddarparu'r wybodaeth fel sy'n ofynnol gan baragraff (2)(a) a (d) o reoliad 29 oni bai bod paragraff (6) yn gymwys ac, yn yr achos hwnnw, caiff yr ymarferydd meddygol roi ei gydsyniad o dan y paragraff hwnnw yn lle hynny.

(3) Yn ogystal â'r ymgymeriadau sy'n ofynnol gan reoliad 5(3), rhaid i'r ymarferydd meddygol roi'r ymgymeriadau pellach fel sy'n ofynnol gan baragraff (3) o reoliad 29.

(4) Os yw'r ymarferydd meddygol yn ymarferydd meddygol Math 1 i'r lluoedd arfog sydd wedi ei gynnwys mewn rhestr a ddelir gan sefydliad gofal sylfaenol, nid yw'n ofynnol i'r ymarferydd meddygol roi ymgymeriad fel sy'n ofynnol gan reoliad 4(3) fel y pennir ymhellach yn rheoliad 4(4).

(5) Ni chaiff ymarferydd meddygol dynnu cais a wneir o dan y rheoliad hwn yn ôl tra bo Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu ar y cais hwnnw.

(6) Pan fo'r ymarferydd meddygol eisoes wedi ei restru yn rhestr cyflawnwyr Bwrdd Iechyd Lleol, yn lle darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraff (2), caiff yr ymarferydd meddygol gydsynio i'r wybodaeth honno gael ei rhyddhau gan y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r ymarferydd wedi ei restru ag ef ar y pryd i'r Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r cais yn cael ei wneud iddo o dan y rheoliad hwn.

Seiliau ychwanegol dros wrthod

31.—(1) Yn ogystal â'r seiliau yn rheoliad 8(2), caiff Bwrdd Iechyd Lleol wrthod cynnwys ymarferydd meddygol yn ei restr cyflawnwyr meddygol—

(a) os yw cofrestriad yr ymarferydd meddygol yn y gofrestr o ymarferwyr meddygol yn ddarostyngedig i amodau yn rhinwedd gorchymyn a wneir gan Dribiwnlys Gorchmynion Interim, Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol neu lys o dan adran 41A o Ddeddf 1983(**52**) (gorchmynion interim),

(b) os yw cofrestriad yr ymarferydd meddygol yn y gofrestr honno yn ddarostyngedig i amodau yn rhinwedd cyfarwyddyd gan Dribiwnlys Ymarferwyr Meddygol o dan adran 35D(2)(c), (5)(c), (8)(c) neu (12) o Ddeddf 1983(**53**) (swyddogaethau Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol), neu

(c) os yw cofrestriad yr ymarferydd meddygol yn y gofrestr honno yn ddarostyngedig i amodau yn rhinwedd cyfarwyddyd gan Dribiwnlys Ymarferwyr Meddygol yn

(**52**) Ychwanegwyd adran 41A gan O.S. 2000/1803 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2006/1914 ac O.S. 2015/794.
(**53**) Ychwanegwyd adran 35D gan O.S. 2002/3135 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2014/1101 ac O.S. 2015/794.

unol â rheolau a wneir o dan baragraffau 5A(3D) a 5C(4) o Atodlen 4 i Ddeddf 1983(**54**) (asesiadau perfformiad proffesiynol).

(2) Yn ogystal â'r seiliau yn rheoliad 8(4), rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol hefyd wrthod cynnwys ymarferydd meddygol yn ei restr cyflawnwyr meddygol—

(a) os yw'r ymarferydd meddygol yn gontractwr ac, ar adeg cais yr ymarferydd meddygol, mae mwy o gleifion y cynllun perthnasol yn preswylio yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol arall nag sy'n preswylio yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r ymarferydd meddygol wedi gwneud cais i gael ei gynnwys yn rhestr cyflawnwyr y Bwrdd hwnnw,

(b) os yw'r ymarferydd meddygol yn gontractwr ac nad yw'r cynllun perthnasol yn un sydd o fewn ei ardal, neu

(c) os yw'r ymarferydd meddygol wedi ei gynnwys yn rhestr cyflawnwyr meddygol Bwrdd Iechyd Lleol arall, oni bai bod yr ymarferydd meddygol wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw fod yr ymarferydd meddygol yn dymuno tynnu'n ôl o'r rhestr honno.

(3) At ddibenion rheoliad 8(2)(e), y dyddiad a ragnodir yn y Rhan hon yw 3 Tachwedd 2003 neu, os oedd yr ymarferydd meddygol o dan sylw wedi ei gynnwys mewn rhestr feddygol neu restr atodol, 26 Awst 2002.

Seiliau dros ddileu o restr cyflawnwyr meddygol

32.—(1) Yn ogystal â'r seiliau yn rheoliad 16(1), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddileu ymarferydd meddygol o'i restr cyflawnwyr pan ddaw yn ymwybodol—

(a) nad yw enw'r ymarferydd meddygol wedi ei gynnwys mwyach yn y Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol,

(b) bod cofrestriad yr ymarferydd meddygol yn y gofrestr o ymarferwyr meddygol wedi ei atal dros dro o dan adran 35D(2)(b), (10)(b) neu (12), neu 38(1) o Ddeddf 1983(**55**), neu baragraff 5A(3D) o Atodlen 4 iddi, oni bai bod paragraff (2) yn gymwys,

(c) bod trwydded yr ymarferydd meddygol i ymarfer wedi ei thynnu'n ôl ac eithrio pan fo wedi ei thynnu'n ôl o ganlyniad i orchymyn atal dros dro interim a wneir o dan adran 41A(1)(a) o Ddeddf 1983(**56**),

(d) os yw'r ymarferydd meddygol yn Gofrestrydd Ymarfer Cyffredinol, bod yr ymarferydd meddygol wedi torri ymgymeriad a ddarperir yn unol â rheoliad 29(3) ac wedi methu â thynnu'n ôl o'r rhestr ar ôl i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi 28 o ddiwrnodau o hysbysiad yn gofyn i'r ymarferydd meddygol wneud hynny, neu

(e) bod yr ymarferydd meddygol wedi ei gynnwys yn rhestr cyflawnwyr meddygol Bwrdd Iechyd Lleol arall.

(2) Nid yw paragraff (1)(b) yn gymwys pan wneir cyfarwyddyd i gofrestriad ymarferydd meddygol gael ei atal dros dro mewn achos iechyd.

(3) At ddibenion rheoliad 16(3)(a), y dyddiad a ragnodir yn y Rhan hon yw 3 Tachwedd 2003 neu, os oedd yr ymarferydd meddygol wedi ei gynnwys mewn rhestr feddygol neu restr atodol, 26 Awst 2002.

(**54**) Amnewidiwyd Atodlen 4 gan O.S. 2002/3135. Amnewidiwyd paragraff 5A(3D) gan O.S. 2015/794. Amnewidiwyd paragraff 5C gan O.S. 2014/1101. Diwygiwyd paragraff 5C(4) gan O.S. 2015/794, erthygl 11.

(**55**) Amnewidiwyd adran 35D gan O.S. 2002/3135 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2014/1101. Amnewidiwyd adran 38(1) gan O.S. 2002/3135 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2015/794. Amnewidiwyd paragraff 5A(3D) gan O.S. 2015/794.

(**56**) Diwygiwyd adran 41A(1)(a) gan O.S. 2000/1803, O.S. 2002/3135 ac O.S. 2015/794.

(4) Wrth gyfrifo'r cyfnod o 12 mis o dan reoliad 16(7), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddiystyru unrhyw gyfnod pan oedd cofrestriad ymarferydd meddygol yn y gofrestr o ymarferwyr meddygol wedi ei atal dros dro.

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "achos iechyd" yr ystyr a roddir i "health case" yn adran 35E(4) o Ddeddf 1983(**57**).

RHAN 4

Rhestrau Cyflawnwyr Deintyddol

Dehongli

33. Yn y Rhan hon—

ystyr "contractwr" ("*contractor*") yw—

(a) person o fewn yr ystyr a roddir i "contractor" yn adran 57(4) o Ddeddf 2006, neu

(b) person sy'n darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol o dan drefniadau adran 64;

ystyr "cynllun" ("*scheme*") yw trefniant i ddarparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol—

(a) o dan gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol o fewn ystyr adran 57(2) o Ddeddf 2006 (contractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol), neu

(b) yn unol â threfniadau adran 64;

ystyr "cynllun perthnasol" ("*relevant scheme*"), mewn perthynas ag ymarferydd deintyddol, yw'r cynllun y mae'r ymarferydd deintyddol yn gwneud cais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol mewn cysylltiad ag ef;

ystyr "gwasanaeth deintyddol cymunedol" ("*community dental service*") yw gwasanaethau deintyddol a ddarperir—

(a) o dan adran 3(1)(c) o Ddeddf 2006;

(b) yn Lloegr, o dan adran 3(1)(d) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**58**);

(c) yn yr Alban, o dan adrannau 1 a 39(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(**59**);

(d) yng Ngogledd Iwerddon, o dan erthyglau 5(1)(c) a 9(1A) o Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972(**60**);

ystyr "gwasanaethau deintyddol personol" ("*personal dental services*") yw gwasanaethau deintyddol personol a ddarperir o dan Ran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997(**61**) (cynlluniau peilot ar gyfer gofal sylfaenol);

(**57**) Yr offerynnau diwygio perthnasol i Ddeddf 1983 yw O.S. 2002/3135, O.S. 2014/1101 ac O.S. 2015/794.
(**58**) 2006 p. 41. Diwygiwyd adran 3 gan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 (p. 31), adran 21.
(**59**) 1978 p. 29. Diwygiwyd adran 39(2) gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p. 49), adran 10(2)(b).
(**60**) O.S. 1972/1265 (G.I. 14).
(**61**) 1997 p. 46. Diddymwyd Rhan 1 o ran Cymru i'r graddau yr oedd yn ymwneud â gwasanaethau deintyddol gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43), adrannau 178 a 196

ystyr "hyfforddwr cymeradwy" ("*approved trainer*") yw ymarferydd deintyddol—

(a) sydd wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol, a

(b) sydd wedi ei gymeradwyo am gyfnod penodedig, nad yw wedi dod i ben, gan AaGIC, fel ymarferydd deintyddol sydd â'r sgiliau angenrheidiol a'r cyfleusterau practis addas i weithredu fel hyfforddwr;

ystyr "Pwyllgor Gorchmynion Interim" ("*Interim Orders Committee*") yw Pwyllgor Gorchmynion Interim y Cyngor Deintyddol Cyffredinol;

ystyr "AaGIC" ("*HEIW*") yw Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sef yr Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd gan erthygl 2 o Orchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2017(**62**);

ystyr "Pwyllgor PCGC" ("*NWSSP Committee*") yw Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a sefydlwyd gan Reoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012(**63**);

mae i "Pwyllgor Ymarfer" yr ystyr a roddir i "Practice Committee" yn adran 2(3) o Ddeddf Deintyddion 1984(**64**) (Pwyllgorau'r Cyngor);

mae i "trefniadau adran 64" yr ystyr a roddir i "section 64 arrangements" yn adran 64(7) o Ddeddf 2006 (trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol);

ystyr "Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre" ("*Velindre University NHS Trust*") yw ymddiriedolaeth y GIG a sefydlwyd gan erthygl 2 o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993(**65**).

Dehongli: hyfforddiant sylfaen

34.—(1) Yn y Rhan hon, ystyr "hyfforddiant sylfaen" yw cyfnod perthnasol o gyflogaeth pan fo ymarferydd deintyddol—

(a) wedi ei gyflogi o dan gontract gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre o dan gyfarwyddyd y Pwyllgor PCGC, a

(b) yn mynychu practis hyfforddwr cymeradwy sydd wedi cytuno ag AaGIC i oruchwylio'r ymarferydd deintyddol yn darparu ystod briodol o ofal deintyddol a thriniaeth ddeintyddol ac i'r ymarferydd deintyddol fynychu unrhyw ddiwrnodau astudio y mae'r contract hwnnw'n eu darparu, gyda'r nodau a'r amcanion o wella cymhwysedd clinigol a gweinyddol a hyrwyddo safonau uchel drwy hyfforddiant ôl-raddedig perthnasol ac yn benodol—

(i) i alluogi'r ymarferydd deintyddol i ymarfer a gwella sgiliau'r ymarferydd,

(ii) i gyflwyno'r ymarferydd deintyddol i ymarfer deintyddol ym maes gofal sylfaenol,

(iii) i nodi cryfderau a gwendidau personol yr ymarferydd deintyddol a'u mantoli drwy raglen hyfforddi wedi ei chynllunio,

(iv) i hyrwyddo iechyd geneuol cleifion a gofal deintyddol o safon ar eu cyfer,

---

ac Atodlen 14, Rhan 4. Cedwir cyfeiriad at y ddeddfwriaeth a ddiddymwyd i gofnodi gwasanaethau deintyddol personol a gyflawnwyd cyn 2006.

(**62**) O.S. 2017/913 (Cy. 224).

(**63**) O.S. 2012/1261 (Cy. 156); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2013/235, O.S. 2015/137, O.S. 2016/481, O.S. 2021/237 (Cy. 60) ac O.S. 2024/1205.

(**64**) Diwygiwyd adran 2(3) gan O.S. 2005/2011.

(**65**) O.S. 1993/2838. Amnewidiwyd erthygl 2 gan O.S. 2018/887 (Cy. 176), erthygl 3.

(v) i ddatblygu ymhellach a gweithredu adolygu gan gymheiriaid a hunanadolygu, a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen am addysg, hyfforddiant ac archwilio proffesiynol fel proses barhaus, a

(vi) i alluogi'r ymarferydd deintyddol—

(aa) i wneud penderfyniadau proffesiynol cymwys a hyderus gan gynnwys penderfyniadau ar gyfer atgyfeiriadau at wasanaethau eraill,

(bb) i ddangos bod yr ymarferydd yn gweithio o fewn y canllawiau ynghylch moeseg a chyfrinachedd ymarfer deintyddol,

(cc) i weithredu rheoliadau a chanllawiau ar gyfer cyflawni ymarfer diogel,

(dd) i wybod sut i gael cyngor priodol ynghylch agweddau cyfreithiol ac ariannol ar ymarfer, a phrofiad ymarferol o'r rhain,

(ee) i ddangos bod yr ymarferydd wedi caffael sgiliau a gwybodaeth ym maes seicoleg gofal cleifion a'i fod yn gallu gweithio'n llwyddiannus fel aelod o dîm practis, ac

(ff) i ddangos bod yr ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant sylfaen i lefel foddhaol.

(2) Yn y diffiniad o "hyfforddiant sylfaen" ym mharagraff (1), ystyr "cyfnod perthnasol o gyflogaeth" yw—

(a) cyfnod o gyflogaeth lawnamser, fel arfer o flwyddyn a dim mwy na 2 flynedd, i ddangos bod hyfforddiant sylfaen wedi ei gwblhau yn foddhaol,

(b) cyfnod cyfatebol o gyflogaeth ran-amser, neu

(c) yn achos ymarferydd deintyddol nad yw'n esempt o dan reoliad 39(4) rhag y gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant sylfaen, ac nad yw wedi cwblhau hyfforddiant sylfaen yn foddhaol fel yn is-baragraff (a) neu (b), ond—

(i) sydd wedi cyflawni gwasanaeth deintyddol cymunedol,

(ii) sydd wedi cyflawni gwasanaethau deintyddol personol cyn 1 Ebrill 2006,

(iii) sydd wedi ennill profiad fel arall o ddeintyddiaeth ym maes gofal sylfaenol fel ymarferydd deintyddol,

(iv) sydd wedi ei gyflogi mewn ysbyty fel ymarferydd deintyddol, neu

(v) sy'n meddu ar gymhwyster ôl-raddedig mewn deintyddiaeth y gellir ei gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol fel diploma ychwanegol yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan adran 19(1)(c) o Ddeddf Deintyddion 1984(**66**) (rheoliadau mewn cysylltiad â'r gofrestr) neu sydd wedi cofrestru ar gwrs i gyflawni cymhwyster o'r fath,

unrhyw gyfnod o gyflogaeth, y caniateir iddo fod yn llai na'r cyfnod yn is-baragraff (a) ond na fydd yn fwy nag ef, neu gyfnod cyfatebol o gyflogaeth ran-amser, y caiff AaGIC bennu bod rhaid i'r ymarferydd deintyddol ei gwblhau er mwyn cwblhau hyfforddiant sylfaen yn foddhaol.

(**66**) Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2007/3101 ac O.S. 2019/593.

Rhestr cyflawnwyr deintyddol

35.—(1) Ni chaiff ymarferydd deintyddol gyflawni gwasanaethau deintyddol sylfaenol oni bai bod yr ymarferydd deintyddol hwnnw wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i ymarferydd deintyddol, sy'n ymgymryd â hyfforddiant sylfaen, yn ystod 3 mis cyntaf yr hyfforddiant hwnnw.

Cynnwys rhestr cyflawnwyr deintyddol

36. Mewn cysylltiad ag unrhyw ymarferydd deintyddol sydd wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol, rhaid i'r rhestr gynnwys—

(a) enw llawn yr ymarferydd deintyddol,

(b) rhif cofrestru proffesiynol yr ymarferydd deintyddol,

(c) dyddiad cofrestriad cyntaf yr ymarferydd deintyddol yn y gofrestr deintyddion,

(d) cadarnhad a yw'r ymarferydd deintyddol yn ymgymryd â hyfforddiant sylfaen,

(e) cadarnhad a yw'r ymarferydd deintyddol yn gontractwr o dan gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol,

(f) cadarnhad a yw'r ymarferydd deintyddol yn darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn unol â threfniadau adran 64, ac

(g) y dyddiad y cafodd yr ymarferydd deintyddol ei gynnwys gyntaf yn un o'r rhestrau a ganlyn—

(i) rhestr cyflawnwyr deintyddol,

(ii) rhestr cyflawnwyr deintyddol flaenorol, neu

(iii) rhestr ddeintyddol neu restr atodol ddeintyddol,

gan bennu pa restr.

Cais i gynnwys ymarferydd deintyddol mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol

37.—(1) Yn ogystal â bodloni gofynion rheoliad 4, rhaid i gais gan ymarferydd deintyddol i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol fodloni gofynion y rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r ymarferydd deintyddol, yn ddarostyngedig i baragraff (4), ddarparu—

(a) manylion cymwysterau deintyddol yr ymarferydd deintyddol, manylion lle cafwyd y cymwysterau hynny a thystiolaeth ohonynt,

(b) oni bai bod yr ymarferydd deintyddol yn ymgymryd â hyfforddiant sylfaen, neu ei fod yn esempt o dan reoliad 39(4) rhag y gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant sylfaen, tystiolaeth bod yr ymarferydd deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant o'r fath yn foddhaol,

(c) datganiad bod yr ymarferydd deintyddol wedi ei gynnwys yn y gofrestr deintyddion,

(d) rhif cofrestru proffesiynol yr ymarferydd deintyddol a'r dyddiad y'i cofrestrwyd gyntaf,

(e) os yw'r ymarferydd deintyddol yn ymgymryd â hyfforddiant sylfaen, enw a chyfeiriad practis hyfforddwr cymeradwy yr ymarferydd deintyddol,

(f) cadarnhad a yw'r ymarferydd deintyddol yn gontractwr o dan gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol neu'n darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn unol â threfniadau adran 64, ac

(g) cadarnhad a yw'r ymarferydd deintyddol yn gontractwr o dan gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol neu'n darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn unol â threfniadau adran 64 ar gyfer mwy nag un cynllun ac, os felly, pa gynlluniau a pha un o'r cynlluniau hynny yw'r cynllun perthnasol.

(3) Rhaid i'r ymarferydd deintyddol roi'r ymgymeriadau a ganlyn—

(a) os yw'r ymarferydd deintyddol yn ymgymryd â hyfforddiant sylfaen—

(i) na fydd yn cyflawni unrhyw wasanaethau deintyddol sylfaenol ac eithrio pan fydd yn gweithredu yn unol â thelerau'r contract cyflogaeth ar gyfer gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac ar gyfer ei hyfforddwr cymeradwy ac o dan gyfarwyddyd yr hyfforddwr hwnnw,

(ii) tynnu'n ôl o restr cyflawnwyr deintyddol os yw'r ymarferydd deintyddol yn methu â chwblhau'r hyfforddiant hwnnw yn foddhaol, a

(iii) ar ôl cwblhau hyfforddiant sylfaen yr ymarferydd deintyddol yn foddhaol, darparu tystiolaeth foddhaol i'r Bwrdd Iechyd Lleol o'r ffaith honno,

(b) os yw'r ymarferydd deintyddol yn gontractwr o dan gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol, cydymffurfio â gofynion paragraff 79 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026(**67**) (rhoddion) neu os yw'r ymarferydd deintyddol yn darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn unol â threfniadau adran 64, cydymffurfio â gofynion paragraff 81 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006(**68**) (rhoddion),

(c) os nad yw'r ymarferydd deintyddol yn gontractwr, cydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (b) fel pe bai'r ymarferydd deintyddol yn gontractwr o'r fath, a

(d) na fydd yn cyflawni unrhyw wasanaethau deintyddol sylfaenol yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol arall y mae'r ymarferydd deintyddol wedi ei ddileu o restr cyflawnwyr deintyddol, rhestr ddeintyddol, neu restr gyfatebol y Bwrdd hwnnw, ac eithrio pan fo'r dilead hwnnw wedi digwydd ar gais yr ymarferydd deintyddol neu'n unol â rheoliad 16(5) o'r Rheoliadau hyn neu â rheoliad 8(3) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992(**69**), heb gydsyniad ysgrifenedig y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw.

(4) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gais a wneir gan ymarferydd sy'n dychwelyd fel pe bai paragraff (2)(a) ac (c) wedi ei hepgor.

Cais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol gan ymarferydd deintyddol sydd eisoes wedi ei restru mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol neu restr cyflawnwyr gyfatebol

38.—(1) Yn ogystal â darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 5(2), rhaid i'r ymarferydd deintyddol, wrth wneud cais i gynnwys enw'r ymarferydd deintyddol mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol tra bo'r ymarferydd deintyddol hwnnw wedi ei gynnwys

(**67**) O.S.C. 2026/37.
(**68**) O.S. 2006/489 (Cy. 58).
(**69**) O.S. 1992/661. Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu dirymu o ran Cymru gan O.S. 2006/946 (Cy. 95). Cedwir cyfeiriad at y Rheoliadau a ddirymwyd i gofnodi gwybodaeth am restrau hanesyddol.

mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol neu restr cyflawnwyr gyfatebol, roi'r wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraff (1)(b), (c), (d), (e), (f) ac (g) o reoliad 37.

(2) Rhaid i'r ymarferydd deintyddol ddarparu'r wybodaeth fel sy'n ofynnol gan baragraff (2)(a) o reoliad 37 oni bai bod paragraff (5) yn gymwys ac, yn yr achos hwnnw, caiff yr ymarferydd deintyddol roi ei gydsyniad o dan y paragraff hwnnw yn lle hynny.

(3) Yn ogystal â'r ymgymeriadau sy'n ofynnol gan reoliad 5(3), rhaid i'r ymarferydd deintyddol roi'r ymgymeriadau pellach fel sy'n ofynnol gan baragraff (3) o reoliad 37.

(4) Ni chaiff ymarferydd deintyddol dynnu cais a wneir o dan y rheoliad hwn yn ôl tra bo Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu ar y cais hwnnw.

(5) Pan fo'r ymarferydd deintyddol eisoes wedi ei restru yn rhestr cyflawnwyr Bwrdd Iechyd Lleol, yn lle darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraff (2), caiff yr ymarferydd deintyddol gydsynio i'r wybodaeth honno gael ei rhyddhau gan y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r ymarferydd wedi ei restru ag ef i'r Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r cais yn cael ei wneud iddo o dan y rheoliad hwn.

Seiliau ychwanegol dros wrthod

39.—(1) Yn ogystal â'r seiliau yn rheoliad 8(2), caiff Bwrdd Iechyd Lleol wrthod cynnwys ymarferydd deintyddol yn ei restr cyflawnwyr deintyddol—

(a) os yw cofrestriad yr ymarferydd deintyddol yn y gofrestr deintyddion yn ddarostyngedig i amodau yn rhinwedd cyfarwyddyd gan Bwyllgor Ymarfer o dan adran 27B (Pwyllgorau Ymarfer), 27C (gwrandawiadau sy'n ailddechrau) neu 28 (adfer i'r gofrestr) o Ddeddf Deintyddion 1984(**70**),

(b) os yw'r ymarferydd deintyddol yn ddarostyngedig i orchymyn cofrestru amodol effaith ar unwaith a wnaed gan Bwyllgor Ymarfer o dan adran 30 o Ddeddf Deintyddion 1984(**71**) (gorchmynion atal dros dro effaith ar unwaith a chofrestru amodol effaith ar unwaith), neu

(c) os yw'r ymarferydd deintyddol yn ddarostyngedig i orchymyn cofrestru amodol interim a wnaed gan Bwyllgor Ymarfer, Pwyllgor Gorchmynion Interim neu'r llys o dan adran 32 o Ddeddf Deintyddion 1984(**72**) (gorchmynion interim).

(2) Yn ogystal â'r seiliau yn rheoliad 8(4), rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol wrthod cynnwys ymarferydd deintyddol mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol—

(a) os yw'r ymarferydd deintyddol yn gontractwr ac nad yw'r cynllun perthnasol yn un sydd o fewn ei ardal,

(b) os yw'r ymarferydd deintyddol wedi ei gynnwys yn rhestr cyflawnwyr deintyddol Bwrdd Iechyd Lleol arall, oni bai bod yr ymarferydd deintyddol wedi rhoi hysbysiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn dymuno tynnu'n ôl o'r rhestr honno, neu

(c) os nad yw'r ymarferydd deintyddol yn ymgymryd â hyfforddiant sylfaen ac nad yw wedi cwblhau hyfforddiant sylfaen yn foddhaol nac yn esempt o dan baragraff (4) rhag y gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant sylfaen.

(3) At ddibenion rheoliad 8(2)(e), y dyddiad a ragnodir yn y Rhan hon yw 3 Mawrth 2003 neu, os oedd yr ymarferydd deintyddol o dan sylw wedi ei gynnwys mewn rhestr ddeintyddol, 26 Awst 2002.

(4) Mae ymarferydd deintyddol yn esempt rhag y gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant sylfaen—

(**70**) Amnewidiwyd adrannau 27B, 27C ac 28 gan O.S. 2005/2011, erthygl 18.
(**71**) Amnewidiwyd adran 30 gan O.S. 2005/2011.
(**72**) Amnewidiwyd adran 32 gan O.S. 2005/2011, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2016/496.

(a) os bernir bod gan yr ymarferydd deintyddol, drwy asesiad gan Fwrdd Iechyd Lleol, wybodaeth a phrofiad sy'n cyfateb i wybodaeth a phrofiad ymarferydd deintyddol sydd wedi cwblhau hyfforddiant sylfaen yn foddhaol, neu

(b) am gyfnod pryd y mae'r ymarferydd deintyddol yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu yn unol â pharagraffau (5) i (7).

(5) At ddibenion paragraff (4)(b), pan fernir bod gan yr ymarferydd deintyddol, drwy asesiad gan Fwrdd Iechyd Lleol, yr wybodaeth a'r profiad sy'n angenrheidiol i gyflawni gwasanaethau deintyddol sylfaenol i safon nad yw'n niweidio effeithlonrwydd y gwasanaethau hynny, caiff Bwrdd Iechyd Lleol bennu'r gofynion ar gyfer rhaglen sefydlu y mae rhaid i'r ymarferydd deintyddol gymryd rhan ynddi.

(6) Rhaid i ofynion penodedig rhaglen sefydlu fod â'r nod bod yr ymarferydd deintyddol, ar ôl cwblhau'r rhaglen, yn gallu bodloni'r Bwrdd Iechyd Lleol fod ganddo wybodaeth a phrofiad sy'n cyfateb i wybodaeth a phrofiad ymarferydd deintyddol sydd wedi cwblhau hyfforddiant sylfaen yn foddhaol.

(7) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn pennu'r gofynion ar gyfer rhaglen sefydlu, rhaid iddo bennu cyfnod o ddim mwy na 2 flynedd pryd y mae rhaid i'r ymarferydd deintyddol gymryd rhan yn y rhaglen sefydlu.

(8) Mae rheoliadau 36 (cynnwys rhestr cyflawnwyr deintyddol), 37 (cais i gynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol) a 40(1)(b) (seiliau dros ddileu o restr cyflawnwyr deintyddol) yn gymwys i ymarferydd deintyddol sy'n cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu fel pe bai'n ymarferydd deintyddol sy'n ymgymryd â hyfforddiant sylfaen.

Seiliau dros ddileu o restr cyflawnwyr deintyddol

40.—(1) Yn ogystal â'r seiliau yn rheoliad 16(1), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddileu ymarferydd deintyddol o'i restr cyflawnwyr deintyddol pan ddaw yn ymwybodol—

(a) bod cofrestriad yr ymarferydd deintyddol yn y gofrestr deintyddion wedi ei atal dros dro o dan adran 27B(6)(b), neu 27C(2)(d) neu (3) o Ddeddf Deintyddion 1984(**73**),

(b) o ran yr ymarferydd deintyddol—

(i) nad yw'n esempt o dan reoliad 39(4) rhag y gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant sylfaen,

(ii) ei fod wedi methu â chwblhau hyfforddiant sylfaen yn foddhaol, a

(iii) nad yw wedi tynnu'n ôl o restr cyflawnwyr deintyddol o dan reoliad 37(3)(a)(ii), neu

(c) bod yr ymarferydd deintyddol wedi ei gynnwys yn rhestr cyflawnwyr deintyddol Bwrdd Iechyd Lleol arall.

(2) Nid yw paragraff (1)(a) yn gymwys pan fo cyfarwyddyd bod cofrestriad ymarferydd deintyddol yn y gofrestr deintyddion i'w atal dros dro wedi ei wneud mewn achos iechyd.

(3) At ddibenion rheoliad 16(3)(a), y dyddiad rhagnodedig yn y Rhan hon yw 26 Awst 2002.

(4) Wrth gyfrifo'r cyfnod o 12 mis o dan reoliad 16(7), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddiystyru unrhyw gyfnod pan fo cofrestriad ymarferydd deintyddol yn y gofrestr deintyddion wedi ei atal dros dro.

(**73**) 1984 p. 24. Amnewidiwyd adrannau 27 ac 28 am adrannau 27, 27A, 27B, 27C ac 28 gan O.S. 2005/2011.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr “achos iechyd” yw achos addasrwydd i ymarfer lle y gwneir honiad bod amhariad ar addasrwydd ymarferydd deintyddol i ymarfer oherwydd iechyd corfforol neu iechyd meddwl andwyol.

RHAN 5

Amrywiol ac atodol

Dirymu

41. Mae Rheoliadau 2004 wedi eu dirymu yn ddarostyngedig i’r darpariaethau arbed yn rheoliad 42(5)(f) a (6).

Darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed

42.—(1) Mae pob ymarferydd a oedd wedi ei gynnwys yn union cyn y dyddiad cychwyn mewn rhestr cyflawnwyr flaenorol wedi ei gynnwys, gydag effaith o’r dyddiad hwnnw, ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau’r Rheoliadau hyn, yn y rhestr gyfatebol o dan y Rheoliadau hyn, ynghyd â’r holl wybodaeth sy’n ymwneud â’r person hwnnw a oedd wedi ei chynnwys yn y rhestr cyflawnwyr flaenorol.

(2) Pan oedd ymarferydd, yn union cyn y dyddiad cychwyn, wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr flaenorol yn ddarostyngedig i amodau a osodwyd o dan Reoliadau 2004, mae cynhwysiad yr ymarferydd yn y rhestr cyflawnwyr berthnasol o dan baragraff (1) yn parhau i fod yn ddarostyngedig i’r amodau hynny o’r dyddiad cychwyn fel pe baent wedi eu gosod o dan y Rheoliadau hyn ar yr un telerau ac am yr un hyd.

(3) Pan oedd cynhwysiad ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr flaenorol, yn union cyn y dyddiad cychwyn, wedi ei atal dros dro o dan Reoliadau 2004, mae cynhwysiad yr ymarferydd hwnnw yn y rhestr cyflawnwyr berthnasol o dan baragraff (1) yn parhau i fod wedi ei atal dros dro o’r dyddiad cychwyn ar yr un telerau ac am yr un hyd â phe bai’r ymarferydd wedi ei atal dros dro o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Pan oedd cynhwysiad ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr flaenorol, yn union cyn y dyddiad cychwyn, wedi ei atal dros dro o dan Reoliadau 2004, mae rheoliad 15 yn gymwys i’r ataliad dros dro fel pe bai wedi ei wneud o dan y Rheoliadau hyn, yn ddarostyngedig i’r eithriadau a ganlyn—

(a) nid yw’r gofyniad yn rheoliad 15(1) i wneud y cais cyn diwedd y cyfnod o 90 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r dyddiad y gwnaed penderfyniad i atal dros dro yr ymarferydd o dan reoliad 14 yn gymwys, a

(b) nid yw rheoliad 15(5) yn gymwys.

(5) Mae cais i gynnwys ymarferydd mewn rhestr cyflawnwyr flaenorol a wnaed cyn y dyddiad cychwyn, ond nad yw wedi ei benderfynu eto cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei drin fel pe bai wedi ei wneud o dan y Rheoliadau hyn, yn ddarostyngedig i’r canlynol—

(a) nid yw’r gofyniad i ddarparu gwybodaeth am arfarniad yn rheoliad 4(2)(f) yn gymwys;

(b) nid yw’r gofyniad i ymarferydd gadarnhau a yw wedi ei gynnwys mewn rhestr yn rheoliad 4(2)(h) yn gymwys;

(c) nid yw’r gofyniad i ddarparu manylion unrhyw ataliad dros dro yn rheoliad 4(2)(j)(iv) yn gymwys;

(d) nid yw'r gofyniad yn rheoliad 4(2)(m)(i) i dystysgrif cofnod troseddol fanwl fod wedi ei dyddio o fewn 6 mis yn union cyn y dyddiad y mae'r ymarferydd yn gwneud y cais yn gymwys;

(e) nid yw'r gofyniad i ddatgan ymwneud â chwest yn rheoliad 4(5)(i) yn gymwys;

(f) mae rheoliadau 34(2)(c) a 37(2)(b) yn gymwys fel pe bai'r cyfeiriadau yn y darpariaethau hynny at reoliad 39(4) yn gyfeiriadau at reoliad 31(5) o Reoliadau 2004(**74**) (esemptiad rhag y gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant sylfaen) ac mae rheoliad 31(5) o Reoliadau 2004 wedi ei arbed at y diben hwn.

(6) Mae rheoliadau 34(2)(c), 39(2)(c) a 40(1)(b)(i) o'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe bai'r cyfeiriad yn y darpariaethau hynny at reoliad 39(4) o'r Rheoliadau hyn yn gyfeiriad at reoliad 31(5) o Reoliadau 2004 (esemptiad rhag y gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant sylfaen) ac mae rheoliad 31(5) o Reoliadau 2004 wedi ei arbed at y diben hwn yn yr achosion a ganlyn—

(a) pan fo ymarferydd deintyddol wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr yn rhinwedd paragraff (1), a

(b) pan wnaeth ymarferydd deintyddol gais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol flaenorol cyn y dyddiad cychwyn ond nad yw'r cais wedi ei benderfynu cyn y dyddiad hwnnw.

(7) Caniateir i ymarferydd a oedd wedi ei ddileu o restr cyflawnwyr flaenorol cyn y dyddiad cychwyn ar y sail bod yr ymarferydd wedi ei euogfarnu o drosedd, a bod yr euogfarn honno wedi ei gwrthdroi yn dilyn apêl, ac nad oedd wedi ei adfer i'r rhestr honno cyn y dyddiad cychwyn, gael ei gynnwys yn y rhestr cyflawnwyr berthnasol ar ôl y dyddiad cychwyn os yw'r amodau yn rheoliad 7 wedi eu bodloni.

(8) Mae unrhyw apêl neu unrhyw adolygiad a gododd o dan Reoliadau 2004, ac nad yw wedi dod i ben erbyn y dyddiad cychwyn, i'w thrin neu i'w drin fel pe bai wedi codi o dan y Rheoliadau hyn.

(9) At ddibenion rheoliadau 18 a 19, mae penderfyniad a wneir gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan Reoliadau 2004 yn cael ei drin fel penderfyniad a wneir o dan ddarpariaethau cyfatebol y Rheoliadau hyn.

(10) Mae unrhyw achos arall yr oedd Rheoliadau 2004 yn gymwys iddo yn union cyn y dyddiad cychwyn, ac nad yw wedi dod i ben cyn y dyddiad cychwyn, i'w drin fel pe bai wedi codi o dan y Rheoliadau hyn.

(11) Yn y rheoliad hwn, ystyr "dyddiad cychwyn" yw'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Diwygiadau canlyniadol

43. Mae Atodlen 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn.

Jeremy Miles
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
3 Mawrth 2026

(**74**) O.S. 2004/1020 (Cy. 117). Mewnosodwyd rheoliad 31 gan O.S. 2006/945 (Cy. 94), ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2016/101 (Cy. 49) ac O.S. 2022/106 (Cy. 37).

ATODLEN 1

Rheoliad 25

Ymarferwyr sydd wedi eu cofrestru mewn argyfwng

Datgymhwyso darpariaethau o ran ymarferwyr sydd wedi eu cofrestru mewn argyfwng

1.—(1) Nid yw rheoliadau 8, 29 nac 31 yn gymwys i geisiadau a wneir yn ystod cyfnod o argyfwng i gynnwys ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng mewn rhestr cyflawnwyr meddygol.

(2) Nid yw rheoliad 32 yn gymwys mewn cysylltiad â dileu ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng o restr cyflawnwyr meddygol.

Addasu rheoliad 4: ceisiadau sy'n ymwneud ag ymarferwyr sydd wedi eu cofrestru mewn argyfwng

2.—(1) Mae rheoliad 4 yn gymwys mewn cysylltiad â chais a wneir yn ystod cyfnod o argyfwng i gynnwys ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng mewn rhestr cyflawnwyr meddygol fel pe bai'r canlynol wedi eu hepgor—

(a) paragraff (2)(e), (i) ac (m),

(b) paragraff (3)(d), (e) ac (f), ac

(c) paragraffau (4) a (5).

(2) Yn ogystal â'r wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 4, fel y'i haddesir gan is-baragraff (1) o'r paragraff hwn, rhaid cyflenwi'r canlynol gyda chais y cyfeirir ato yn yr is-baragraff hwnnw—

(a) manylion y dyddiadau pan oedd yr ymarferydd meddygol wedi ei gynnwys yn flaenorol mewn rhestr cyflawnwyr meddygol neu restr gyfatebol,

(b) rhif cofrestru proffesiynol yr ymarferydd meddygol, ac

(c) tystysgrif cofnod troseddol fanwl o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 (tystysgrifau cofnod troseddol manwl) sydd wedi ei dyddio o fewn 6 mis yn union cyn y dyddiad y mae'r ymarferydd yn gwneud y cais o dan y rheoliad hwn ac sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant a gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf o dan adrannau 113BA (gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant) a 113BB (gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf) o'r Ddeddf honno yn y drefn honno neu, os na chyflenwir yr wybodaeth hon gyda'r cais, ymgymeriad—

(i) os nad oes cais eisoes wedi ei wneud am dystysgrif o'r fath, i wneud hynny o fewn 7 niwrnod, a

(ii) i ddarparu'r dystysgrif honno i'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn 7 niwrnod iddi ddod i law.

(3) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wrthod cynnwys ymarferydd meddygol mewn rhestr cyflawnwyr meddygol yn unol â chais y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) os nad yw'r ymarferydd meddygol yn ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng.

Addasu rheoliad 6: ystyried ceisiadau

3. Mae rheoliad 6 yn gymwys mewn cysylltiad â chais a wneir yn ystod cyfnod o argyfwng i gynnwys ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng yn y rhestr cyflawnwyr meddygol fel pe bai paragraffau (2) i (4) wedi eu hepgor.

Addasu rheoliad 16: dileu ymarferwyr sydd wedi eu cofrestru mewn argyfwng

4.—(1) Mae'r seiliau yn rheoliad 16 dros ddileu gan Fwrdd Iechyd Lleol ymarferydd o'i restr cyflawnwyr yn gymwys mewn cysylltiad â dileu ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng o'i restr cyflawnwyr meddygol fel pe bai'r canlynol wedi eu hepgor—

(a) paragraff (2), a

(b) paragraffau (5) i (11).

(2) Yn ychwanegol at y seiliau a bennir yn rheoliad 16(1), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddileu ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng o'r rhestr cyflawnwyr meddygol—

(a) pan nad yw'r ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng wedi darparu, ar gais, dystiolaeth i'r Bwrdd Iechyd Lleol bod cais wedi ei wneud am y dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraff 2(2)(c) (er gwaethaf yr ymgymeriad i wneud cais am y dystysgrif), neu

(b) pan nad yw'r ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng wedi darparu'r dystysgrif honno i'r Bwrdd Iechyd Lleol (er gwaethaf yr ymgymeriad i'w darparu),

o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff 2(2)(c).

(3) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ddileu ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng o'r rhestr cyflawnwyr meddygol pan fo'n ystyried bod cyfiawnhad dros ddilead o'r fath, ar ôl gwirio—

(a) i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, yr wybodaeth a ddarparwyd gyda'r cais, yn benodol unrhyw wybodaeth a ddarparwyd o dan reoliad 4(5) neu (7),

(b) gydag Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG am wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag ymchwiliadau yn y gorffennol i dwyll neu ymchwiliadau cyfredol i dwyll sy'n ymwneud â'r ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng neu'n gysylltiedig ag ef, ac ar ôl ystyried y ffeithiau hyn ac unrhyw ffeithiau eraill yn ei feddiant mewn perthynas â thwyll sy'n ymwneud â'r ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng neu'n gysylltiedig ag ef, neu

(c) gyda Gweinidogion Cymru am unrhyw wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag ymchwiliadau neu achosion yn y gorffennol neu ymchwiliadau neu achosion cyfredol sy'n ymwneud â'r ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng neu'n gysylltiedig ag ef, ac ar ôl ystyried unrhyw ffeithiau eraill yn ei feddiant sy'n ymwneud â'r ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng neu'n gysylltiedig ag ef.

(4) Rhaid i Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG neu Weinidogion Cymru, mewn ymateb i gais gan y Bwrdd Iechyd Lleol, gyflenwi i'r Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth y mae Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG neu Weinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn berthnasol at ddibenion is-baragraff (3)(b) neu, yn ôl y digwydd, 3(c).

ATODLEN 2

Rheoliad 43

Diwygiadau canlyniadol

Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1995

1. Yn rheoliad A2 (dehongli) o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1995(**75**), yn y diffiniad o "medical performers list", yn lle "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004" rhodder "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026".

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Budd-daliadau Anafiadau) 1995

2. Yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Budd-daliadau Anafiadau) 1995(**76**), yn y diffiniad o "medical performers list", ym mharagraff (b), yn lle "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004" rhodder "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026".

Rheoliadau Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol) (Cymru) 2006

3. Yn y tabl yn yr Atodlen i Reoliadau Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol) (Cymru) 2006(**77**), mae Colofn 1 wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn lle "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004" rhodder "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026", a

(b) yn lle'r geiriau "regulation 13(17) (suspension)" rhodder "regulation 15(2) (suspension)".

Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2008

4. Yn rheoliad 2.A.1(1) (dehongli: cyffredinol) o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2008(**78**), yn y diffiniad o "medical performers list", yn lle "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004" rhodder "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026".

Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol) 2008

5. Yn rheol 20(1A) (hysbysiad o'r cais) o Reolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol) 2008(**79**), hepgorer is-baragraff (d).

(**75**) O.S. 1995/300.
(**76**) O.S. 1995/866.
(**77**) O.S. 2006/941.
(**78**) O.S. 2008/653.
(**79**) O.S. 2008/2699.

Rheoliadau'r Proffesiwn Meddygol (Swyddogion Cyfrifol) 2010

6. Yn rheoliad 10(1)(b)(ii) (cysylltiad rhwng cyrff dynodedig ac ymarferwyr meddygol) o Reoliadau'r Proffesiwn Meddygol (Swyddogion Cyfrifol) 2010(**80**), yn lle "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004" rhodder "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026".

Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2015

7. Yn Atodlen 15 (diffiniadau) o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2015(**81**), yn y diffiniad o "medical performers list", yn lle "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004" rhodder "National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026".

Rheoliadau Cofrestru Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

8. Yn rheoliad 3 o Reoliadau Cofrestru Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017(**82**), yn y diffiniad o "rhestr perfformwyr deintyddol" yn lle "Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Perfformwyr) (Cymru) 2004" rhodder "Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2026".

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

9. Yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020(**83**), yn y diffiniad o "rhestr cyflawnwyr meddygol", yn lle "Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004" rhodder "Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2026".

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023

10.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023(**84**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1) (dehongli), yn y diffiniad o "rhestr cyflawnwyr meddygol", yn lle "Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004" rhodder "Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2026".

(3) Yn Atodlen 3—

(a) ym mharagraff 61—

(i) yn is-baragraff (3)(d)—

(aa) yn lle "yn rhestr cyflawnwyr meddygol sefydliad gofal sylfaenol arall" rhodder "mewn rhestr cyflawnwyr meddygol neu restr cyflawnwyr gyfatebol", a

(bb) yn lle "rheoliad 4A o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004" rhodder "rheoliad 5 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2026", a

(**80**) O.S. 2010/2841.
(**81**) O.S. 2015/94.
(**82**) O.S. 2017/201.
(**83**) O.S. 2020/1073.
(**84**) O.S. 2023/953.

(ii) ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

"(4) Yn y paragraff hwn mae i "rhestr cyflawnwyr gyfatebol" yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2026.", a

(b) ym mharagraff 65—

(i) yn is-baragraff (4)—

(aa) yn lle "yn rhestr cyflawnwyr meddygol sefydliad gofal sylfaenol arall" rhodder "mewn rhestr cyflawnwyr meddygol neu restr cyflawnwyr gyfatebol", a

(bb) yn lle "rheoliad 4A o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004" rhodder "rheoliad 5 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2026", a

(ii) yn is-baragraff (5)—

(aa) yn lle ""sefydliad gofal sylfaenol" yr ystyr a roddir i "primary care organisation"" rhodder ""rhestr cyflawnwyr gyfatebol" a "sefydliad gofal sylfaenol" yr ystyron a roddir", a

(bb) yn lle "rheoliad 2 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004" rhodder "rheoliad 2 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2026".

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 63

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations revoke and replace the National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004 (S.I. 2004/1020 (W. 117)) (the "2004 Regulations").

The Regulations provide for lists of persons performing primary medical services and primary dental services to be kept by Local Health Boards in accordance with sections 49, 63, 115(9) and 203(9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c. 42).

Part 1 (regulations 1 and 2) contains general provisions and provides some definitions for the Regulations.

Part 2 (regulations 3 to 25) contains general provisions relating to performers lists.

The Regulations require a Local Health Board to prepare, maintain, publish and make available for public inspection, a medical performers list and a dental performers list. They set out how a practitioner can apply for inclusion in a performers list and how applications are to be considered and determined by Local Health Boards.

The Regulations set out requirements with which a practitioner listed in a performers list must comply, and for a practitioner's inclusion in a performers list to be subject to conditions in certain prescribed circumstances. They set out when a Local Health Board may or must suspend or remove a practitioner from its performers list. They set out arrangements for the review and appeal of a Local Health Board's decision under the Regulations.

The Regulations make provision for withdrawal from performers lists, for the disclosure of information by a Local Health Board to specified persons, and for a Local Health Board to notify specified persons of certain decisions and events.

In addition, there is provision for the inclusion of emergency registered practitioners in performers lists.

Part 3 (regulations 26 to 32) contains further provisions about medical performers.

The Regulations require, subject to specified exceptions, that a medical practitioner must be a general medical practitioner and must be included in a medical performers list to perform primary medical services.

There is provision for supplementary information to be provided in an application for inclusion in a medical performers list. There are additional grounds for refusal of an application and for removal from a medical performers list. Part 4 (regulations 33 to 40) contains further provisions about dental performers lists.

The Regulations require, subject to a specified exception, that dental practitioners must be included in a dental performers list to provide primary dental services.

There is provision for supplementary information to be provided in an application for inclusion in a dental performers list.

There are additional grounds for the refusal of an application and for removal from a dental performers list

Part 5 (regulations 41 to 43) revokes the 2004 Regulations and makes transitional, savings and consequential provisions.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the website at https://www.gov.wales.

2026 No. 63

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026

Made	*3 March 2026*
Coming into force	*28 March 2026*

The Welsh Minsters, in exercise of the powers conferred by sections 49, 63, 115(9), and 203(9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**), make the following Regulations.

PART 1
General

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026 and they come into force on 28 March 2026.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 1983 Act" ("*Deddf 1983*") means the Medical Act 1983(**2**);

"the 2006 Act" ("*Deddf 2006*") means the National Health Service (Wales) Act 2006;

"the 2004 Regulations" ("*Rheoliadau 2004*") means the National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004 (S.I. 2004/1020)(**3**);

"armed forces" ("*lluoedd arfog*") means the regular forces within the meaning of the Armed Forces Act 2006(**4**) or the reserve forces within the meaning of that Act;

(**1**) 2006 c. 42.
(**2**) 1983 c. 54.
(**3**) S.I. 2004/1020 (W. 117), as amended by S.I. 2005/258 (W. 24), S.I. 2006/358 (W. 46), S.I. 2006/945 (W. 94), S.I. 2008/1425 (W. 147), S.I. 2010/22, S.I. 2013/235, S.I. 2016/101 (W. 49), S.I. 2023/953 (W. 155) and S.I. 2023/1421 (W. 115).
(**4**) 2006 c. 52.

"CCT" ("*TCH*") means Certificate of Completion of Training awarded under section 34L(1) of the 1983 Act(**5**) (award and withdrawal of a Certificate of Completion of Training);

"dental list" ("*rhestr ddeintyddol*") means a list prepared by a Local Health Board under regulation 4(1) of the National Health Service (General Dental Services) Regulations 1992(**6**);

"dental performers list" ("*rhestr cyflawnwyr deintyddol*") means the list prepared, maintained and published under regulation 3(1)(b);

"dental practitioner" ("*ymarferydd deintyddol*") means a person who is registered in the dentists register;

"dentists register" ("*cofrestr deintyddion*") means the register referred to in section 14(1) of the Dentists Act 1984(**7**);

"director" ("*cyfarwyddwr*") means—

(a) a director of a body corporate, or

(b) a member of the body of persons controlling a body corporate (whether or not a limited liability partnership);

"director of a body corporate" ("*cyfarwyddwr corff corfforedig*") includes a member of the body of persons controlling a body corporate (whether or not a limited liability partnership);

"Disclosure and Barring Service" ("*Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd*") means the body established by section 87(1) of the Protection of Freedoms Act 2012(**8**);

"emergency registered practitioner" ("*ymarferydd sydd wedi ei gofrestru mewn argyfwng*") means a medical practitioner—

(a) who is registered as a registered medical practitioner under section 18A of the 1983 Act(**9**) (temporary registration with regard to emergencies involving loss of human life or human illness etc.),

(b) who within the period of 5 years prior to being so registered, had been included in a medical performers list, a previous medical performers list, or an equivalent list, and

(c) who was subsequently removed from the list referred to in paragraph (b)—

(i) in accordance with regulation 16(5) or regulation 10(6) of the 2004 Regulations (removal from performers list) or an equivalent provision in relation to an equivalent list, or

(ii) on some other ground unconnected with impairment of fitness to practise (for these purposes, impairment is construed in accordance

(**5**) Section 34L was inserted by S.I. 2010/234 and amended by S.I. 2019/593.
(**6**) S.I. 1992/661. These Regulations have been revoked in relation to Wales by S.I. 2006/946 (W. 95), article 45, Schedule 2. Reference to the revoked Regulations is retained to capture information about historic lists. By virtue of regulation 2(1A) of S.I. 1992/661, the reference to "FHSA" at regulation 4(1) of S.I. 1992/661 has effect, in relation to Wales, as a reference to a Local Health Board.
(**7**) 1984 c. 24. Section 14(1) was substituted by S.I. 2005/2011, articles 2(1) and 6, and amended by S.I. 2007/3101, regulations 109 and 111, and by S.I. 2019/593, regulation 4(1) and paragraphs 2, and 4(a) and (c) of Schedule 3.
(**8**) 2012 c. 9.
(**9**) Section 18A was inserted by S.I. 2008/1774, article 2(1), Schedule 1, paragraph 10.

with section 35C(2) of the 1983 Act(**10**) (functions of the Investigation Committee));

"employment" ("*cyflogaeth*") means any employment, whether paid or unpaid, and, except in relation to the definition of a Type 1 armed forces GP, includes—

(a) the provision of services under a contract for services, or

(b) membership of a partnership;

"equivalent body" ("*corff cyfatebol*") means—

(a) in relation to Wales, prior to 1 April 2003, a Health Authority;

(b) in relation to England—

(i) NHS England,

(ii) prior to 1 April 2013 and after 30 September 2002, a Primary Care Trust, or

(iii) prior to 1 October 2002, a Health Authority in England, or

(c) in relation to Northern Ireland—

(i) a Health and Social Care Board, or

(ii) prior to 1 April 2009, a Health and Social Services Board;

(d) in relation to Scotland, a Health Board;

"equivalent list" ("*rhestr gyfatebol*") means any list kept by an equivalent body which serves an equivalent function to a health service list;

"equivalent performers list" ("*rhestr cyflawnwyr gyfatebol*") means any list kept by a primary care organisation which serves an equivalent function to the relevant performers list;

"the First-tier Tribunal" ("*y Tribiwnlys Haen Gyntaf*") means the First-tier Tribunal established under section 3(1) of the Tribunal, Courts and Enforcement Act 2007(**11**);

"general medical practitioner" ("*ymarferydd meddygol cyffredinol*") means a medical practitioner—

(a) who is a GP Registrar, or

(b) whose name is included in the GP Register;

"GP Register" ("*Cofrestr Ymarferwyr Cyffredinol*") means the register kept by virtue of section 34C of the 1983 Act (the General Practitioner Register)(**12**);

"GP Registrar" ("*Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol*") means a medical practitioner who is being trained in general practice by a GP Trainer, whether as part of training leading to a CCT or otherwise;

"GP Trainer" ("*Hyfforddwr Ymarfer Cyffredinol*") means a general medical practitioner, other than a GP Registrar, who is approved by the General Medical Council under section 34I(1)(c) of the 1983 Act (postgraduate medical education and training: approvals)(**13**) for the purposes of providing training to a GP Registrar;

(**10**) Section 35C(2) was amended by S.I. 2014/1101, Part 3, article 6(2).
(**11**) 2007 c. 15.
(**12**) Section 34C was inserted by S.I. 2010/234.
(**13**) Section 34I was inserted by S.I. 2010/234.

"health service list" ("*rhestr gwasanaeth iechyd*") means—

(a) a list referred to in section 115(1) of the 2006 Act(**14**) (national disqualification),

(b) a dental list or a medical list,

(c) a supplementary list,

(d) a services list, or

(e) a performers list;

"holder of a list" ("*deiliad rhestr*") means the body which keeps a list;

"indemnity arrangement" ("*trefniant indemniad*") means an arrangement which may comprise—

(a) a policy of insurance,

(b) an arrangement made for the purposes of indemnifying a person, or

(c) a combination of a policy of insurance and an arrangement made for the purposes of indemnifying a person;

"list" ("*rhestr*") means a health service list or an equivalent list;

"medical list" ("*rhestr feddygol*") means the list prepared by the Local Health Board under regulation 4 of the National Health Service (General Medical Services) Regulations 1992(**15**);

"medical performers list" ("*rhestr cyflawnwyr meddygol*") means a list of medical performers prepared, maintained and published under regulation 3(1)(a);

"medical practitioner" ("*ymarferydd meddygol*") has the meaning given by section 206(1) of the 2006 Act;

"a national disqualification" ("*anghymhwysiad cenedlaethol*") means—

(a) a decision made by the First-tier Tribunal under section 115(1) of the 2006 Act(**16**) (national disqualification);

(b) a decision made under provisions in force in England, Scotland or Northern Ireland corresponding to section 115 of the 2006 Act;

"the NHS Business Services Authority" ("*Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG*") means the NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) established as a Special Health Authority by the NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) (Establishment and Constitution) Order 2005(**17**);

"the NHS Counter Fraud Authority" ("*Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG*") means the NHS Counter Fraud Authority established as a Special Health Authority by the NHS Counter Fraud Authority (Establishment, Constitution, and Staff and Other Transfer Provisions) Order 2017(**18**);

(**14**) Section 115(1) was amended by S.I. 2010/22, Schedule 2, paragraph 139(a).

(**15**) S.I. 1992/635. These Regulations have been revoked in relation to Wales by S.I. 2004/1016 (W. 113), article 96, Schedule 2. Reference to the revoked Regulations is retained to capture information about historic lists.

(**16**) Section 115 was amended by the Health and Social Care Act 2012 (c. 7), paragraph 31(2) of Schedule 2, the Health and Care Act 2022 (c. 31), paragraph 1 of Schedule 1 and S.I. 2010/22.

(**17**) S.I. 2005/2414, amended by S.I. 2006/632, S.I. 2007/1201, S.I. 2013/235, S.I. 2015/1862, S.I. 2017/959, S.I. 2018/378, S.I. 2019/776 and S.I. 2023/1071.

(**18**) S.I. 2017/958, amended by the Health and Care Act 2022 (c. 31), section 86(2)(a) and (b), S.I. 2018/378, S.I. 2024/418, and S.I. 2024/1205.

"NHS Resolution" ("*NHS Resolution*") means the National Health Service Litigation Authority established as a Special Health Authority by the National Health Service Litigation Authority (Establishment and Constitution) Order 1995(**19**);

"notice" ("*hysbysiad*") means a notice in writing (including electronically);

"originating event" ("*digwyddiad cychwynnol*") means the event or events which give rise to—

(a) a conviction, investigation or proceedings, or

(b) a suspension or disqualification, or

(c) removal from, refusal to include in or conditional inclusion in a list;

"performers list" ("*rhestr cyflawnwyr*") means a list prepared, maintained and published under regulation 3(1);

"period of emergency" ("*cyfnod o argyfwng*") means the period—

(a) beginning when the Secretary of State advises the Registrar of the General Medical Council ("the Registrar") that an emergency of the type described in section 1 of the Civil Contingencies Act 2004(**20**) (meaning of "emergency"), has occurred, is occurring or is about to occur, and

(b) ending when the Secretary of State advises the Registrar that the circumstances that led the Secretary of State to advise the Registrar as mentioned in paragraph (a) no longer exist;

"practitioner" ("*ymarferydd*") means a medical practitioner or a dental practitioner;

"previous dental performers list" (*"rhestr cyflawnwyr deintyddol flaenorol"*) means a list prepared and published under regulation 3(1)(b) of the 2004 Regulations(**21**);

"previous medical performers list" (*"rhestr cyflawnwyr meddygol flaenorol"*) means a list prepared and published under regulation 3(1)(a) of the 2004 Regulations;

"previous performers list" (*"rhestr cyflawnwyr flaenorol"*) means a list prepared and published under regulation 3 of the 2004 Regulations;

"primary care organisation" ("*sefydliad gofal sylfaenol*") means—

(a) in respect of Wales a Local Health Board,

(b) in respect of England NHS England,

(c) in respect of Scotland a Health Board,

(d) in respect of Northern Ireland a Health and Social Care Board, or

such successor bodies to those primary care organisations as may exist;

"primary dental services" ("*gwasanaethau deintyddol sylfaenol*") means dental services provided under a contract or agreement to which Part 5 of the 2006 Act(**22**) (dental services) applies;

(**19**) S.I. 1995/2800, amended by S.I. 2005/1445, S.I. 2013/295, S.I. 2014/3090, S.I. 2017/150, S.I. 2022/634, S.I. 2023/98, S.I. 2023/1071 and S.I. 2023/368.

(**20**) 2004 c. 36, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(**21**) S.I. 2004/1020 (W. 117). Regulation 3(1) was amended by S.I. 2006/945 (W. 94).

(**22**) Part 5 was amended by the Health and Social Care Act 2012 (c. 7), section 297 and paragraphs 12, 28 and 29(1), (2) and (3) of Schedule 21, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), section 17(5) and paragraph 52(1)(b) and (2) of Schedule 9, the Health and Care Act 2022 (c. 31), section 22, paragraph 56(1), (2) and (3) of Schedule 3 and paragraphs 12 and 29(1) and (2) of Schedule 21. Section 64 of Part 5 of the 2006 Act was modified, in relation to former functions of Health Authorities ceasing to be exercisable by Local Health Boards,

"primary medical services" ("*gwasanaethau meddygol sylfaenol*") means medical services provided under a contract or an agreement to which Part 4 of the 2006 Act(**23**) (medical services) applies;

"primary services" ("*gwasanaethau sylfaenol*") means, in respect of a medical practitioner, primary medical services and, in respect of a dental practitioner, primary dental services;

"professional conduct" ("*ymddygiad proffesiynol*") includes matters relating both to professional conduct and professional performance;

"professional registration number" ("*rhif cofrestru proffesiynol*") means—

(a) in relation to a medical practitioner, the number against the medical practitioner's name in the register of medical practitioners, and

(b) in relation to a dental practitioner, the number against the dental practitioner's name in the dentists register;

"register of medical practitioners" ("*cofrestr o ymarferwyr meddygol*") has the meaning given to it by section 2(2) of the 1983 Act(**24**) (registration of medical practitioners);

"regulatory body" ("*corff rheoleiddio*") means a body anywhere in the world which regulates or licenses any profession of which the practitioner is or has been a member and includes a body which regulates or licenses the education, training or qualifications of that profession;

"relevant body" ("*corff perthnasol*") means, in relation to a practitioner, the body mentioned in section 25(3) of the National Health Service Reform and Health Care Professions Act 2002(**25**) (regulatory bodies), which regulates the profession of the practitioner;

"relevant performers list" ("*rhestr cyflawnwyr berthnasol*") means—

(a) in the case of a medical practitioner, a medical performers list, and

(b) in the case of a dental practitioner, a dental performers list;

"returning practitioner" ("*ymarferydd sy'n dychwelyd*") means a practitioner who was included in a performers list or a previous performers list at any time before making an application for inclusion in a performers list;

"services list" ("*rhestr gwasanaethau*") means a list prepared by a Primary Care Trust under regulation 3 of the National Health Service (Personal Medical Services)

---

by the National Health Service (Consequential Provisions) Act 2006 (c. 43), section 4 and paragraph 15(b) of Schedule 2.

(**23**) Part 4 was amended by the Health and Social Care Act 2012 (c. 7), section 297 and paragraphs 12, 26 and 27(1), (2) and (3) of Schedule 21 and S.I. 2019/777, regulation 4(1) and (2) and the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), section 17(5) and paragraph 52(1)(b) and (2) of Schedule 9 and the Health and Care Act 2022 (c. 31), section 22, paragraph 55(1), (2) and (3) of Schedule 3. Section 50 of Part 4 of the 2006 Act was modified, in relation to former functions of Health Authorities ceasing to be exercisable by Local Health Boards, by the National Health Service (Consequential Provisions) Act 2006 (c. 43), section 4 and paragraph 15(a) of Schedule 2.

(**24**) Section 2(2) was amended by S.I. 2002/3135, S.I. 2006/1914, S.I. 2008/1774 and S.I. 2019/593.

(**25**) 2002 (c. 17). Section 25(3) was amended by the Health and Social Care Act 2008 (c. 14), section 127 and paragraph 17 of Schedule 10, the Health and Social Care Act 2012 (c. 7), section 230 and paragraph 56(b) of Schedule 15(2), the Children and Social Work Act 2017 (c. 16), section 56 and paragraph 2(2) of Schedule 4, and S.I. 2010/231.

(Services List) and the (General Medical Services Supplementary List) and (General Medical Services) Amendment Regulations 2003(**26**);

"Special Health Authority" ("*Awdurdod Iechyd Arbennig*") has the meaning given under sections 22 and 206 of the 2006 Act(**27**);

"supplementary list" ("*rhestr atodol*") means a list prepared by a Local Health Board under regulation 3 of the National Health Service (General Medical Services Supplementary List) (Wales) Regulations 2002(**28**);

"Type 1 armed forces GP" ("*ymarferydd cyffredinol Math 1 i'r lluoedd arfog*") means a medical practitioner—

(a) who is a member of the armed forces or employed by the Ministry of Defence, and

(b) whose name is included in the GP Register;

"Type 2 armed forces GP" ("*ymarferydd cyffredinol Math 2 i'r lluoedd arfog*") means a medical practitioner—

(a) who is not a Type 1 armed forces GP,

(b) whose name is included in the GP Register, and

(c) who is engaged under a contract for services specifically for the provision of medical services to members of the armed forces.

PART 2

General Provisions as to Performers Lists

Performers lists

3.—(1) A Local Health Board must prepare, maintain and publish, in accordance with this Part, as modified or supplemented by the relevant Part—

(a) a medical performers list, and

(b) a dental performers list.

(2) Performers lists must be made available for public inspection.

(3) In this regulation, "the relevant Part" means, in relation to medical performers lists, Part 3, and in relation to dental performers lists, Part 4.

Application for inclusion in a performers list

4.—(1) An application by a practitioner for inclusion in a performers list must be made by sending the Local Health Board an application in writing, which must include the information and documentation required by this regulation and—

(a) in relation to an application for inclusion in a medical performers list, satisfy the requirements of regulation 29, and

---

(**26**) S.I. 2003/2644. These Regulations were revoked by S.I. 2004/585, Schedule 2. Reference to the revoked Regulations is retained to capture information about historic lists.

(**27**) Section 22 was amended by the Health and Social Care Act 2012 (c. 7), section 297 and paragraph 18 of Schedule 21. Section 206 was amended by the Health and Social Care Act 2012 (c. 7), section 297 and paragraph 38(1)(b) of Schedule 21; there are other amending instruments but none are relevant to these Regulations.

(**28**) S.I. 2002/1882 (W. 191). These Regulations were revoked by S.I. 2004/1020 (W. 117), Schedule 2. Reference to the revoked Regulations is retained to capture information about historic lists.

(b) in relation to an application for inclusion in a dental performers list, satisfy the requirements of regulation 37.

(2) The practitioner must provide the following information, subject to paragraphs (9) and (10), which set out modified requirements for certain practitioners—

(a) the practitioner's full name;

(b) the practitioner's date of birth;

(c) the practitioner's residential address and telephone number;

(d) chronological details of the practitioner's professional experience (including the starting and finishing dates of each appointment) with any additional supporting particulars, and, if the practitioner has been dismissed from any post, the reasons for that dismissal;

(e) names and addresses of two referees who are willing to provide clinical references relating to two recent posts (which may include any current post) each of which lasted at least 3 months without a significant break, or, where this is not possible, a full explanation as to why that is the case and the names and addresses of two alternative referees;

(f) where the practitioner has one, a copy of the practitioner's most recent appraisal;

(g) evidence that the practitioner has in force an appropriate indemnity arrangement which provides the practitioner with cover in respect of liabilities that may be incurred in carrying out the practitioner's work;

(h) confirmation of whether the practitioner is, or was at any time, included in any list;

(i) confirmation of whether the practitioner has any outstanding application, including a deferred application, to be included in any list and if so, particulars of that application;

(j) details of any list—

(i) from which the practitioner was removed,

(ii) in relation to which the practitioner was refused inclusion,

(iii) in which the practitioner was included subject to conditions, or

(iv) from which the practitioner is currently suspended,

together with an explanation as to why;

(k) if the practitioner is the director of a body corporate that is included in any list or which has an outstanding application (including a deferred application) for inclusion in any such list, the name and address of the registered office of that body corporate and details of that list (including the holder of the list);

(l) where the practitioner is, was in the preceding 6 months, or was at the time of the originating event, a director of a body corporate, details of any list (including the holder of the list)—

(i) from which that body has been removed,

(ii) in relation to which that body has been refused inclusion,

(iii) in which it has been included subject to conditions, or

(iv) from which it is currently suspended,

together with an explanation as to why;

(m) an enhanced criminal record certificate under section 113B of the Police Act 1997(**29**) (enhanced criminal record certificates) which—

(i) is dated within 6 months immediately preceding the date upon which the practitioner makes the application under this regulation, and

(ii) includes suitability information relating to children and suitability information relating to vulnerable adults under sections 113BA (suitability information relating to children) and 113BB (suitability information relating to vulnerable adults) of that Act respectively(**30**);

(n) if the practitioner has never resided in the United Kingdom—

(i) a certificate issued by an authority of the country in which they are currently residing which is equivalent to an enhanced criminal record certificate referred to in paragraph (m), or

(ii) if the practitioner is unable to obtain such a certificate, a statement in writing demonstrating that the practitioner has taken all reasonable steps to obtain such a certificate.

(3) The practitioner must provide the following undertakings—

(a) to provide any declaration or document, if applicable, required by regulation 11,

(b) to notify the Local Health Board within 7 days of any material changes to the information provided in or with the application whether such change occurs—

